

# Cofnod y Trafodion

## The Record of Proceedings

### 24/04/2013

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid](#)  
[Questions to the Minister for Finance](#)

[Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth](#)  
[Questions to the Minister for Local Government and Government Business](#)

[Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad](#)  
[Questions to the Assembly Commission](#)

[Cwestiwn Brys: Amseroedd Ymateb Ambiwllans](#)  
[Urgent Question: Ambulance Response Times](#)

[Datganiad gan y Llywydd](#)  
[Statement by the Presiding Officer](#)

[Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau](#)  
[Motions to Elect Members to Committees](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Effaith Tywydd Garw](#)  
[Welsh Conservatives Debate: The Impact of Severe Weather Conditions](#)

[Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Ynni ar Ynys Môn](#)  
[Welsh Conservatives Debate: Energy on Ynys Môn](#)

[Dadl Plaid Cymru: Anghydraddoldeb ar Sail Rhyw](#)  
[Plaid Cymru Debate: Gender Inequality](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)  
[Voting Time](#)

[Dadl Fer: Cefnu ar ein Brodyr—Asesu Cefnogaeth i Anhwylder Straen wedi Trawma yng Nghymru](#)  
[Short Debate: Abandoned Brothers—Assessing support for PTSD in Wales](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

## Questions to the Minister for Finance

### Pwerau Benthycu

### Borrowing Powers

13:30 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*1. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran trafodaethau gyda'r Trysorlys am drosglwyddo pwerau benthycu ar gyfer prosiectau seilwaith? OAQ(4)0244(FIN)*

*1. What progress has been made in negotiations with the Treasury about the transfer of borrowing powers for infrastructure projects? OAQ(4)0244(FIN)*

13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)  
[Fideo Video](#)

*Y Gweinidog Cyllid / The Minister for Finance*

Inter-governmental talks on the devolution of borrowing powers are progressing well with the UK Treasury, ahead of the UK Government's response to the report of the Silk commission that is due this spring. Borrowing powers are an important tool for improving infrastructure and supporting economic recovery.

Mae trafodaethau rhynglywodraethol ar ddatganoli pwerau benthycu yn mynd rhagddynt yn dda gyda Thrysorlys y DU, cyn ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad Comisiwn Silk y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn. Mae pwerau benthycu yn adnodd pwysig o ran gwella seilwaith a chefnogi adferiad economaidd.

- 13:31 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the Minister for that response. Can she confirm, following Danny Alexander's speech to the Lib Dem conference on Saturday, that the coalition Government is not pulling back from promising that it will consider borrowing powers for infrastructure projects on a case-by-case basis before there is any decision about tax-raising powers?
- Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. A all gadarnhau, yn dilyn araith Danny Alexander i gynhadledd y Democratiaid Rhyddfrydol ddydd Sadwrn, nad yw'r Llywodraeth glymblaid yn cefnu ar yr addewid y bydd yn ystyried pwerau benthyca ar gyfer prosiectau seilwaith ar sail achosion unigol cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch pwerau trethu?
- 13:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank Julie Morgan for that question. I very much welcomed the comments of the Chief Secretary to the Treasury over the weekend, in particular his pledge to implement an ambitious package of financial reform, as recommended by the Silk commission. In terms of inter-governmental talks, the Chief Secretary to the Treasury and I, following the joint statement by our Governments last October, are committed to exploring the options for financing specific infrastructure projects, including early access to borrowing powers.
- Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn hwnnw. Roeddwn yn falch iawn o glywed sylwadau Prif Ysgrifennydd y Trysorlys dros y penwythnos, yn enwedig ei addewid i roi pecyn uchelgeisiol o ddiwygiadau ariannol ar waith, fel yr argymhellwyd gan Gomisiwn Silk. O ran trafodaethau rhynglywodraethol, mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a minnau, yn dilyn datganiad ar y cyd gan ein Llywodraethau fis Hydref diwethaf, yn ymrwymedig i ystyried yr opsiynau ar gyfer ariannu prosiectau seilwaith penodol, gan gynnwys rhoi pwerau benthyca cynnar.
- 13:32 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, while future financing arrangements for infrastructure projects will have significant implications for the Welsh economy, businesses in my own constituency in particular are concerned about the infrastructure investment that your Government is making right now. Given that north Wales has received a significantly smaller proportion of your Government's infrastructure spending, and we have just seen a £52 million announcement in relation to Cardiff Airport, what proportion of the current financial year's infrastructure investment will be spent in north Wales?
- Weinidog, er y bydd i drefniadau ariannu yn y dyfodol ar gyfer prosiectau seilwaith oblygiadau sylweddol o ran economi Cymru, mae busnesau yn fy etholaeth i'n arbennig yn pryderu am y buddsoddiad seilwaith y mae eich Llywodraeth yn ei wneud ar hyn o bryd. O ystyried bod cyfran sylweddol is o wariant seilwaith eich Llywodraeth wedi'i wario yn y gogledd, a'n bod newydd weld cyhoeddiad am £52 miliwn mewn perthynas â Maes Awyr Caerdydd, pa gyfran o fuddsoddiad seilwaith y fwyddyn ariannol gyfredol a gaiff ei gwario yn y gogledd?
- 13:32 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The infrastructure priorities are in line with the Wales infrastructure investment plan. I have made allocations recently in terms of the A55, transport infrastructure and twenty-first century schools, as I saw when I visited Ysgol y Bont in Llangefni to see the impact of Welsh Government investment in north Wales.
- Mae'r blaenoriaethau seilwaith yn unol â'r Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Gwneuthum ddyraniadau yn ddiweddar o ran yr A55, seilwaith trafnidiaeth ac ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, fel y gwelais pan ymwelais ag Ysgol y Bont yn Llangefni i weld effaith buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y gogledd.
- 13:33 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Rydych wedi cyfeirio at gomisiwn Silk, Weinidog, ac un o'r pethau mae'r comisiwn wedi dweud yw y byddai pwerau benthyg y Cynulliad yn gallu cael eu rhyddhau trwy ddatganoli trethi llai i Gymru. Un o'r trethi llai hynny byddai'r doll ar deithwyr awyr. A ydych o blaid datganoli'r doll hwnnw i Gymru a chaniatáu i Lywodraeth Cymru i gefnogi Maes Awyr Caerdydd?
- You referred to the Silk commission, Minister, and one of the things that the commission has said is that the Assembly's borrowing powers could be released through the devolution of lesser taxes to Wales. One such tax would be air passenger duty. Are you in favour of devolving that duty to Wales and thereby allowing the Welsh Government to support Cardiff Airport?
- 13:33 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- We made our position very clear in our response to the Silk commission last year. We fully accepted and welcomed all the recommendations of the Silk commission, including the call for long-haul air passenger duty. We now await the UK Government's response to that call.
- Nodwyd ein safbwynt yn glir iawn yn ein hymateb i Gomisiwn Silk y llynedd. Gwnaethom dderbyn a chroesawu holl argymhellion Comisiwn Silk yn llawn, gan gynnwys y cais am doll ar deithwyr awyr ar gyfer teithiau hir. Rydym yn aros yn awr am ymateb Llywodraeth y DU i'r cais hwnnw.

13:34	<p><b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I call on the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.</p>	<p>Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Peter Black.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, while discussions on borrowing powers are still ongoing, you will know that a number of English cities still retain significant advantages over Wales because they are able to utilise innovative forms of capital financing. What further work have you done in terms of building on the innovative capital finance that you have already announced to try to narrow that advantage?</p>	<p>Weinidog, er bod y trafodaethau ar bwerau benthyca yn mynd rhagddynt o hyd, byddwch yn ymwybodol bod nifer o ddinasoedd yn Lloegr mewn sefyllfa fanteisiol o hyd o gymharu â Chymru gan eu bod yn gallu defnyddio trefniadau ariannu cyfalaf arloesol. Pa waith pellach a wnaed gennych o ran ychwanegu at yr arian cyfalaf arloesol a gyhoeddwyd gennych eisoes i geisio lleihau'r fantais honno?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:34	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am glad that you recognise, Peter Black, the innovative financing routes that we have taken, particularly through the local government borrowing initiative, which, of course, is delivering up to £170 million in terms of highway improvements. We are now applying that to twenty-first century schools. However, I also recognise the opportunities that we have in terms of looking at tax increment financing, for example. Of course, that was a recommendation from the Finance Committee that we responded to positively.</p>	<p>Rwy'n falch, Peter Black, eich bod yn cydnabod y llwybrau ariannu arloesol a ddilynwyd gennym, yn enwedig drwy'r fenter benthyca i lywodraeth leol, sydd, wrth gwrs, yn darparu hyd at £170 miliwn i wella priffyrdd. Rydym yn awr yn cymhwyso hynny i ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Fodd bynnag, rwyf hefyd yn cydnabod y cyfleoedd sydd gennym o ran ystyried trefniadau ariannu cynyddrannol ym maes treth, er enghraifft. Wrth gwrs, roedd hwnnw'n un o argymhellion y Pwyllgor Cyllid a gafodd ymateb cadarnhaol gennym.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:35	<p><b>Peter Black</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, Minister. You will know that it is almost a year now since English authorities were given access to tax increment financing, which enables local councils to leverage in private finance as well, in terms of these capital projects. What sort of timetable are we looking at before you reach conclusions on that issue?</p>	<p>Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod bron i flwyddyn bellach ers i awdurdodau Lloegr allu defnyddio trefniadau ariannu cynyddrannol ym maes treth, sy'n galluogi cynghorau lleol i ddefnyddio cyllid preifat hefyd, o ran y prosiectau cyfalaf hyn. Pryd y gallwn ddisgwyl ichi wneud penderfyniad ar y mater hwnnw?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:35	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I will certainly want to feed back to colleagues, and particularly to the Finance Committee, in terms of progress on those discussions. However, taking forward and implementing our local government borrowing initiative clearly puts Wales in the lead in terms of innovative finance routes.</p>	<p>Byddaf yn sicr yn awyddus i adrodd yn ôl i gyd-Aelodau, ac yn enwedig i'r Pwyllgor Cyllid, am gynnydd mewn perthynas â'r trafodaethau hynny. Fodd bynnag, mae'r ffaith ein bod wedi datblygu a gweithredu ein menter benthyca i lywodraeth leol yn amlwg yn golygu bod Cymru ar flaen y gad o ran llwybrau ariannu arloesol.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Cyllid i Gymru</b>		<b>Funding for Wales</b>	
13:35	<p><b>Mohammad Asghar</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>2. Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Gweinidogion y Trysorlys ynglŷn â dyrannu cyllid i Gymru? OAQ(4)0242(FIN)</i></p>	<p><i>2. What recent discussions has the Minister had with the Treasury Ministers regarding the allocation of funding for Wales? OAQ(4)0242(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:36	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I have regular discussions with Treasury Ministers about the allocation of funding for Wales.</p>	<p>Caf drafodaethau rheolaidd gyda Gweinidogion y Trysorlys ynglŷn â dyrannu cyllid i Gymru.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

- 13:36 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The M4 relief road is vital if we are to tackle traffic congestion and bottlenecks in the Newport area, particularly at the Brynglas tunnels, and if we are to stimulate the south Wales economy. Will the Minister advise us on the discussions that she has had with UK Treasury Ministers to explore ways of financing and delivering this much-needed relief road, in view of the recent positive comments by the Chancellor of the Exchequer?
- Mae ffordd liniaru'r M4 yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â thagfeydd traffig yn ardal Casnewydd, yn enwedig yn nhwneli Brynglas, ac er mwyn rhoi hwb i economi'r de. A wnaiff y Gweinidog ein hysbysu am y trafodaethau a gafodd gyda Gweinidogion Trysorlys y DU i ystyried ffyrdd o ariannu a chyflawni'r ffordd liniaru hon y mae dirfawr ei hangen, o ystyried y sylwadau cadarnhaol a wnaeth Canghellor y Trysorlys yn ddiweddar?
- 13:36 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I welcome the Member's question on this point. Following my meetings with the Chief Secretary to the Treasury about the M4 in the last few months, I welcomed the Chancellor's recent supportive intervention over the Easter period, which promises an early resolution to the funding issue, including our ability to borrow.
- Croesawaf gwestiwn yr Aelod ar y pwynt hwn. Yn dilyn fy nghyfarfodydd gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys am yr M4 yn ystod y misoedd diwethaf, roedd yn bleser gennyf glywed ymyriad cefnogol diweddar y Canghellor dros gyfnod y Pasg, sy'n addo penderfyniad cynnar mewn perthynas â'r broblem ariannu, gan gynnwys ein gallu i fenthycu.
- 13:37 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I call on the Plaid Cymru spokesperson, Ieuan Wyn Jones.
- Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Ieuan Wyn Jones.
- 13:37 **Ieuan Wyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yr mis Mehefin eleni, bydd y Trysorlys yn cyhoeddi'r arian a fydd ar gael ar gyfer 2015-16. Pa gynlluniau sydd gennych chi fel Llywodraeth i ddelio â'r gostyngiad pellach a fydd bryd hynny mewn arian cyfalaf a refeniw?
- In June this year the Treasury will announce the funding available for 2015-16. What plans do you have as a Government to deal with the further reduction that there will be at that time in capital and revenue funding?
- 13:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- It was a challenging budget in March, which we now have to recognise in terms of our budgetary preparations. It is going to be difficult in terms of the expectations for our priorities in terms of the programme for Government. However, I will shortly be announcing the allocation, for example, of the capital that has been awarded as a result of the budget.
- Roedd yn gyllideb heriol ym mis Mawrth, a rhaid inni gydnabod hynny yn awr wrth baratoi ar gyfer y gyllideb. Bydd yn anodd o ran y disgwyliadau ar gyfer ein blaenoriaethau mewn perthynas â'r Rhaglen Lywodraethu. Fodd bynnag, cyn bo hir, byddaf yn cyhoeddi'r dyraniad, er enghraifft, o ran y cyfalaf a ddyfarnwyd o ganlyniad i'r gyllideb.
- 13:37 **Ieuan Wyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yr hyn yr oeddwn yn ei awgrymu, Weinidog, oedd y bydd hyd yn oed yn waeth arnoch chi yn 2015-16 nag yw hi yn awr. I adael hynny am eiliad, onid yw'r sicrwydd o ostyngiad pellach yn y flwyddyn honno yn ei gwneud yn angenrheidiol, felly, eich bod yn cyhoeddi eich cynlluniau ar gyfer ffyrdd mwy arloesol ac amgen o godi arian cyfalaf? Er enghraifft, pryd fyddwch chi'n cyhoeddi eich cynlluniau manwl o ran gwella'r A465—yr ydych wedi dweud eich bod am wneud hynny—ac unrhyw brosiectau eraill sydd ar y gweill? Pryd fyddwn ni'n cael manylion am hynny, oherwydd bydd angen i bobl Cymru gael gwybod eich bod yn edrych ar y ffyrdd hyn yn sgîl y cwtogiad a ddaw o'r Trysorlys?
- What I was suggesting, Minister, was that things will be even worse for you in 2015-16 than they are now. Putting that to one side for the moment, does the certainty of a further reduction in that year not make it essential, therefore, that you announce your plans for more innovative and alternative ways of raising capital? For example, when will you publish detailed plans on improving the A465—you have stated that you want to do that—and any other projects that you have in the pipeline? When will we have the details on that, because the people of Wales will need to know that you are looking at these roads given the cuts imposed by the Treasury?

13:38

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Ieuan Wyn Jones for that question. On his first point, we will not know our settlement for 2015-16 until late June, when the spending review is announced. However, last month's budget set the total spending envelope for that year. It is clear—and I agree with him—that the fiscal outlook will continue to be very difficult. Therefore, our innovative finance route is all the more important. I shall be coming back to the Assembly with a statement in May, in terms of consolidating our approach to innovative financing, particularly following through the A465 non-dividend model.

## Trysorlys i Gymru

13:39

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*3. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynydd o ran creu Trysorlys i Gymru? OAQ(4)0237(FIN)*

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefydlu swyddogaeth Trysorlys newydd i Gymru? OAQ(4)0247(FIN)*

13:39

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I understand that you have agreed to group questions 3 and 10, Presiding Officer. I am committed to ensuring that the Welsh Government has the capacity and the capability to make the best use of the new fiscal powers that we hope to acquire. Further detailed work on treasury functions must, however, await the UK Government's response to the Silk proposals, which are due this spring.

13:39

**Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for that response. When will she be able to give a statement on what facilities she would expect if Silk part 1 is implemented and what work is being done now in order to get ready for Silk part 1, if it is implemented?

13:40

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Of course, we are anticipating that the Silk recommendations will be implemented, in terms of the preparations that we are already undertaking. Clearly, functions that we are preparing for relate to tax policy; tax administration, including compliance and enforcement work; revenue forecasting; budgetary and investment strategy; cash management and in-year monitoring. We are already putting in place a number of roles in the department in order to make effective use of our resources, particularly at these times of budgetary reduction.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i Ieuan Wyn Jones am y cwestiwn hwnnw. O ran ei bwynt cyntaf, ni chawn wybod ein setliad ar gyfer 2015-16 tan ddiwedd mis Mehefin, pan gaiff yr adolygiad o wariant ei gyhoeddi. Fodd bynnag, pennodd cyllideb fis diwethaf gyfanswm y cwmpas gwariant ar gyfer y flwyddyn honno. Mae'n amlwg—ac rwy'n cytuno ag ef—y bydd y rhagolygon ariannol yn parhau'n anodd iawn. Byddaf yn dychwelyd i'r Cynulliad gyda datganiad ym mis Mai, o ran atgyfnerthu ein hymagwedd at ariannu arloesol, yn enwedig rhoi model dim-difidendau'r A465 ar waith.

## Welsh Treasury

*3. Will the Minister provide a progress update on the creation of a Welsh Treasury? OAQ(4)0237(FIN)*

*10. Will the Minister make a statement on the establishment of a new Welsh Treasury function? OAQ(4)0247(FIN)*

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Deallaf eich bod wedi cytuno i grwpio cwestiynau 3 a 10, Lywydd. Rwy'n ymrwymedig i sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru yr adnoddau a'r gallu i wneud y defnydd gorau o'r pŵerau ariannol newydd rydym yn gobeithio eu cael. Fodd bynnag, rhaid aros am ymateb Llywodraeth y DU i gynigion Silk, y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn, cyn cynnal gwaith manwl pellach ar swyddogaethau'r trysorlys.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Pryd y bydd yn gallu gwneud datganiad o ran pa gyfleusterau y byddai'n disgwyl eu gweld os caiff rhan 1 Silk ei rhoi ar waith a pha waith sy'n mynd rhagddo yn awr er mwyn paratoi ar gyfer rhan 1 Silk, os caiff ei rhoi ar waith?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Wrth gwrs, rydym yn rhagweld y caiff argymhellion Silk eu rhoi ar waith, o ran y gwaith paratoi sy'n mynd rhagddo eisoes. Yn amlwg, mae'r swyddogaethau rydym yn paratoi ar eu cyfer yn ymwneud â pholisi treth; gweinyddu treth, gan gynnwys gwaith cydymffurfio a gorfodi; rhagfynegi refeniw; strategaeth gyllidebol a buddsoddi; rheoli arian parod a monitro yn ystod y flwyddyn. Rydym eisoes yn sefydlu nifer o rolau yn yr adran er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'n hadnoddau, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn lle caiff cyllidebau eu lleihau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:40 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*  
 Minister, when Silk part 1 is implemented, the Government will have responsibility for stamp duty. Could you outline the steps that your Government is taking in anticipation of the devolution of stamp duty to the National Assembly for Wales?  
 Weinidog, pan gaiff rhan 1 Silk ei rhoi ar waith, bydd y Llywodraeth yn gyfrifol am y dreth stamp. A allech amlinellu'r camau y mae eich Llywodraeth yn eu cymryd er mwyn paratoi ar gyfer datganoli'r dreth stamp i Gynulliad Cenedlaethol Cymru?
- 13:40 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 I thank the leader of the Welsh Liberal Democrats for that question. I am absolutely clear that we have to apply our future devolved tax powers in a way that has sound economic rationale. This is in line with our top priority, as the Welsh Government, of supporting economic growth. I have arranged with the Confederation of British Industry Wales, for example, a meeting with housebuilders and associated organisations. We have our first meeting tomorrow, in Cardiff, and a number of housebuilders have responded. There will be a further meeting next week. It is about talking to them about aspirations and how we could develop land and property taxation in Wales in the future.  
 Diolch i arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am y cwestiwn hwnnw. Rwy'n gwbl glir bod yn rhaid inni ddefnyddio ein pwerau trethi datganoledig yn y dyfodol mewn ffordd sy'n seiliedig ar resymeg economaidd gadarn. Mae hyn yn unol â'n prif flaenoriaeth, fel Llywodraeth Cymru, sef cefnogi twf economaidd. Ar y cyd â Chyddfederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru, er enghraifft, trefnais gyfarfod gydag adeiladwyr tai a chyrrff cysylltiedig. Cynhelir ein cyfarfod cyntaf yfory, yng Nghaerdydd, ac mae nifer o adeiladwyr tai wedi ymateb. Bydd cyfarfod arall wythnos nesaf. Rydym am drafod dyheadau gyda hwy a sut y gallem ddatblygu trethiant tir ac eiddo yng Nghymru yn y dyfodol.
- 13:41 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Minister, as the role of a Welsh treasury would be complex and the functions that you refer to would arise through a new devolved competence, are you already speaking speculatively to the UK Government about how to best avoid an appearance in the Supreme Court in the future?  
 Weinidog, gan y byddai rôl trysorlys Cymru yn gymhleth ac y byddai'r swyddogaethau rydych yn cyfeirio atynt yn deillio o gymhwysedd datganoledig newydd, a ydych eisoes yn achub y blaen ac yn trafod y ffordd orau i osgoi achos yn y Llys Goruchaf yn y dyfodol gyda Llywodraeth y DU?
- 13:41 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Clearly, this is an issue where ongoing inter-governmental talks enable us to pave the way for these powers and responsibilities. I have also visited Scotland and met my colleague, John Swinney, the Minister for finance, to look at the ways in which they are implementing, under the Scotland Act 2012, powers that we would hope to acquire as a result of the Silk commission.  
 Yn amlwg, mewn perthynas â'r mater hwn, mae trafodaethau rhynglywodraethol parhaus yn gyfle inni baratoi'r ffordd ar gyfer y pwerau a'r cyfrifoldebau hyn. Ymwelais hefyd â'r Alban a chyfarfûm â'm cyd-Weinidog, John Swinney, y Gweinidog cyllid, i weld sut y maent hwy, o dan Ddeddf yr Alban 2012, yn rhoi'r pwerau y byddem yn gobeithio eu caffael o ganlyniad i Gomisiwn Silk, ar waith.
- 13:42 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)  
 Minister, this week we will get the gross domestic product figures for the UK, yet we will have to wait a year for a breakdown so that your Government and the Senedd can make an assessment of what is happening in Wales. This is a completely unsatisfactory arrangement if we are to try to assist the Welsh economy back to growth. In part 1 of the Silk commission, there is a call for more accurate forecasting of likely Welsh tax receipts as a consequence of any tax-varying powers in Wales, along with more up-to-date Welsh economic data. Has the Welsh Government made any progress in these areas?  
 Weinidog, yr wythnos hon, cawn wybod y ffigurau cynnyrch mewnwladol crynswth ar gyfer y DU, ond bydd yn rhaid inni aros blwyddyn am ddadansoddiad fel y gall eich Llywodraeth a'r Senedd asesu'r sefyllfa yng Nghymru. Mae'r trefniant hwn yn gwbl anfodddhaol os ydym am geisio helpu economi Cymru i dyfu unwaith eto. Yn rhan 1 o Gomisiwn Silk, gelwir am ragfynegiadau mwy cywir o'r derbyniadau treth tebygol yng Nghymru, ynghyd â data economaidd mwy cyfredol ar Gymru. A yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw gynnydd yn y meysydd hyn?



- 13:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, this is important. We will need more economic modelling and data to inform our policy if we have tax devolution. It is clear that we need to strengthen our information about certain aspects of the Welsh economy. We need to understand in detail the factors that impact on devolved tax revenues and be able to model the likely impact of changes to tax policy on resources and the wider economy. These, of course, are areas where we would be seeking more competence and power.
- Ydy, mae hyn yn bwysig. Bydd angen mwy o waith modelu economaidd a data i lywio ein polisi os caiff pwerau treth eu datganoli. Mae'n amlwg bod angen inni atgyfnerthu ein gwybodaeth am rai agweddau ar economi Cymru. Mae angen inni ddeall yn fanwl y ffactorau sy'n effeithio ar refeniw treth datganoledig a gallu modelu effaith debygol newidiadau i bolisi treth ar adnoddau a'r economi ehangach. Mae'r rhain, wrth gwrs, yn feysydd lle y byddem yn ceisio sicrhau mwy o gymhwysedd a phŵer.
- 13:43 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, as you will know, the report of the Silk commission suggests that a new Welsh treasury should implement international best practice—something that I am sure that we would all agree with. To date, what analysis has the Government made of international treasuries and how has this research affected the implementation of a new Welsh treasury?
- Weinidog, fel y gwyddoch, mae adroddiad Comisiwn Silk yn awgrymu y dylai trysorlys newydd Cymru roi'r arferion rhyngwladol gorau ar waith—rhywbeth y byddai pob un ohonom yn cytuno ag ef rwy'n siŵr. Hyd yma, pa ddadansoddiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o drysorlysoedd rhyngwladol a sut y mae'r gwaith ymchwil hwn wedi effeithio ar y ffordd y caiff trysorlys newydd Cymru ei roi ar waith?
- 14:43 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Again, I am very pleased to have these positive questions on the Welsh treasury in terms of preparations for what we anticipate will be a positive response to the Silk commission from the UK Government. I have already mentioned work that is under way with colleagues in the Scottish Government, but I certainly want to go further than that in terms of international comparisons of best practice.
- Unwaith eto, rwy'n falch iawn clywed y cwestiynau cadarnhaol hyn ar drysorlys Cymru o ran y gwaith paratoi ar gyfer yr ymateb cadarnhaol a ragwelwn gan Lywodraeth y DU i Gomisiwn Silk. Rwyf eisoes wedi sôn am waith sy'n mynd rhagddo gyda chydweithwyr yn Llywodraeth yr Alban, ond yn sicr, hoffwn ychwanegu at hynny o ran cymariaethau rhyngwladol o'r arferion gorau.
- 13:44 **Llyr Huws Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, there is cross-party support, of course, for the recommendations in the part 1 report of the Silk commission, at least here in the Assembly. A Welsh treasury function would obviously be a most welcome development. Silk also notes, of course, that the issue of fair funding has to be resolved. Could you explain whether the most recent agreement, reached last year between the Welsh and UK Governments, represents a resolution of the funding issue in your view or are you working towards a different or a better agreement on how the block grant is calculated?
- Weinidog, ceir cefnogaeth drawsbleidiol, wrth gwrs, i argymhellion adroddiad rhan 1 Comisiwn Silk, o leiaf yma yn y Cynulliad. Yn amlwg byddai penderfyniad i ddatblygu swyddogaeth trysorlys Cymru yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr. Noda Silk hefyd, wrth gwrs, fod yn rhaid datrys mater ariannu teg. A allech egluro pa un a yw'r cytundeb diweddaraf, y daeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU iddo'r llynedd, yn ateb i'r mater ariannu yn eich barn chi neu a ydych yn anelu at sicrhau cytundeb gwahanol neu well o ran sut y caiff y grant bloc ei gyfrifo?
- 13:44 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am grateful to Llyr Huws Gruffydd for that question. We must not forget the agreement that we struck with the UK Government in October, when I, Danny Alexander, the Chief Secretary to the Treasury, and the Secretary of State for Wales welcomed the outcome of those inter-governmental talks, and particularly a commitment from the UK Government to a fair funding base and the need to look at it again at the start of each spending review in order to assess the impact of convergence and then take action accordingly. This is, again, something that I have discussed with the Chief Secretary to the Treasury and he has committed to this. The Silk commission also recognised that we need to ensure that we have that commitment on fair funding before progressing in terms of future tax devolution.
- Rwy'n ddiolchgar i Llyr Huws Gruffydd am y cwestiwn hwnnw. Rhaid inni gofio'r cytundeb y daethom iddo â Llywodraeth y DU ym mis Hydref, pan wnaeth Danny Alexander, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a minnau groesawu canlyniad y trafodaethau rhynglywodraethol hynny, ac yn arbennig ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i sail ariannu teg a'r angen i'w ailystyried ar ddechrau pob adolygiad o wariant er mwyn asesu effaith cydgyfeiriant ac yna weithredu yn unol â hynny. Mae hyn, unwaith eto, yn rhywbeth rwyf wedi'i drafod gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ac mae wedi ymrwymo i hyn. Cydnabu Comisiwn Silk hefyd fod angen inni sicrhau'r ymrwymiad hwnnw ar ariannu teg cyn bwrw ati o ran datganoli treth yn y dyfodol.

13:45	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y dyraniad cyllideb cyffredinol i'r adran Diwylliant a Chwaraeon? OAQ(4)0238(FIN)</i></p>	<p><i>4. Will the Minister make a statement on the overall budget allocation to the Culture and Sport department? OAQ(4)0238(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:46	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>In the final budget for 2013-14, £123.3 million relates to culture and sport.</p>	<p>Yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2013-14, mae £123.3 miliwn yn ymwneud â diwylliant a chwaraeon.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:46	<p><b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I am grateful to the Minister for that answer. I have received representations from constituents of mine who are worried about the funding that cultural organisations, such as the Torch Theatre in my area, are currently receiving. You will be aware that such places are the cultural hub of an area and I cannot stress enough the importance and value of this theatre to the local community. Can you tell us, therefore, what you are doing, as Minister for Finance, to ensure that the Welsh Government is supporting smaller, artistic venues, such as the Torch Theatre in my constituency?</p>	<p>Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Cefais sylwadau gan rai o'm hetholwyr sy'n pryderu am yr arian y mae sefydliadau diwylliannol, fel Theatr y Torch yn fy ardal i, yn ei gael ar hyn o bryd. Byddwch yn ymwybodol bod lleoedd o'r fath yn gweithredu fel canolbwynt diwylliannol ardal ac ni allaf bwysleisio pwysigrwydd a gwerth y theatr hon i'r gymuned leol ddigon. A allwch ddweud wrthym, felly, beth rydych yn ei wneud, fel y Gweinidog Cyllid, i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi lleoliadau artistig llai, megis Theatr y Torch yn fy etholaeth i?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:46	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I welcome that question from Paul Davies; I know how valuable the Torch Theatre, which is in Milford Haven, I believe, is. The significance of the arts is clear in terms of priorities for the Welsh Government. I think that our budget for this year demonstrates our continued support, particularly for the Arts Council of Wales, which is itself a sponsor of venues of that kind.</p>	<p>Croesawaf y cwestiwn hwnnw gan Paul Davies; rwy'n ymwybodol o werth Theatr y Torch, sydd yn Aberdaugleddau, credaf. Mae arwyddocâd y celfyddydau yn amlwg o ran blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Credaf fod ein cyllideb eleni yn dangos ein cefnogaeth barhaus, yn enwedig i Gyngor Celfyddydau Cymru, sydd ynddo'i hun yn noddi lleoliadau o'r fath.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:47	<p><b>Lindsay Whittle</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>National Museum Wales has had a stand-still budget imposed on it up to and including the year 2014-15. In reality, this is a cut, with job losses in future of very specialist individuals. How will you monitor the impact of this on our seven major museum sites?</p>	<p>Mae cyllideb Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi'i rhewi'n orfodol hyd at y flwyddyn 2014-15 a chan gynnwys y flwyddyn honno. Mewn gwirionedd, mae hyn yn cyfateb i ostyngiad, gyda swyddi unigolion arbenigol iawn yn cael eu colli yn y dyfodol. Sut y byddwch yn monitro effaith hyn ar safleoedd ein saith prif amgueddfa?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:47	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I know that Lindsay Whittle acknowledges and welcomes our policy of free entry to museums, and we are committed to providing funding in this financial year of £24.6 million for National Museum Wales.</p>	<p>Gwn fod Lindsay Whittle yn cydnabod ac yn croesawu ein polisi o fynediad am ddim i amgueddfeydd, ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu cyllid o £24.6 miliwn i Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Cyllid Cyfalaf</b>		<b>Capital Funding</b>	
13:48	<p><b>Ieuan Wyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>5. A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ynglŷn â dyrannu cyllid cyfalaf? OAQ(4)0240(FIN)</i></p>	<p><i>5. Will the Minister outline what discussions she has had with the Minister for Economy, Science and Transport regarding the allocation of capital funding? OAQ(4)0240(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>



13:48	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Rwy'n cael trafodaethau rheolaidd gyda fy nghyd-aelodau o'r Cabinet er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi, a nodir yn y cynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.	I have regular discussions with Cabinet colleagues to support our investment priorities, set out in the Wales infrastructure investment plan.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:48	<b>Ieuan Wyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> A fedrwch chi gadarnhau heddiw nad yw'n bolisi'r Llywodraeth hon i godi tollau pe câi arian gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i wella'r M4?	Can you confirm today that it is not this Government's policy to charge tolls if UK Government money is provided to improve the M4?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:48	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am very pleased to confirm that that is the case. There was a very unhelpful and erroneous press comment at Easter, unfortunately. The Chancellor agreed that it was erroneous. I want to be absolutely clear that the Welsh Government has no intention of putting an additional toll on the M4.	Mae'n bleser mawr gennyf gadarnhau bod hynny'n wir. Yn anffodus, gwnaed sylw anghywir, cwbl ddi-fudd yn y wasg adeg y Pasg. Cytunodd y Canghellor ei fod yn anghywir. Hoffwn fod yn gwbl glir nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw fwrriad codi toll ychwanegol ar yr M4.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:49	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I call the opposition spokesperson, Paul Davies.	Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Paul Davies.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:49	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, as you know, the Welsh Government is receiving £161 million in capital allocations from the UK Government's budget, which is something that I acknowledge that you welcome. However, in your recent press release, you go on to say that the capital can only be used for loans or equity investment and that a proportion will have to be repaid. Can you tell us exactly how much will have to be repaid and what the detailed terms and conditions of these capital allocations are?	Weinidog, fel y gwyrddoch, mae Llywodraeth Cymru yn cael £161 miliwn o ddyraniadau cyfalaf o gyllideb Llywodraeth y DU, sy'n rhywbeth rwy'n cydnabod a groesewir gennyh. Fodd bynnag, yn eich datganiad diweddar i'r wasg, dywedwch mai dim ond ar gyfer benthyciadau neu fuddsoddiad ecwiti y gellir defnyddio'r cyfalaf ac y bydd yn rhaid ad-dalu cyfran ohono. A allwch ddweud wrthym yn union faint y bydd yn rhaid ei ad-dalu a thelerau ac amodau manwl y dyraniadau cyfalaf hyn?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:49	<b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Yes. Paul Davies will know that these are financial transaction consequentials and I believe that, in a response to him, I explained that, with the Minister for Housing and Regeneration, I am working through the impact of those financial transaction consequentials. Of course, that aligns with some of the normal capital consequentials that we are receiving. That will be clear in the statement on capital allocations that I will be making in the next couple of weeks.	Gallaf. Bydd Paul Davies yn ymwybodol mai symiau canlyniadol trafodion ariannol yw'r dyraniadau hyn a chredaf fy mod wedi egluro, mewn ymateb iddo, fy mod wrthi, gyda'r Gweinidog Tai ac Adfywio, yn ystyried effaith y symiau canlyniadol hynny. Wrth gwrs, mae hynny'n cydfynd â rhai o'r symiau canlyniadol cyfalaf arferol rydym yn eu cael. Nodir hynny'n glir yn y datganiad ar ddyraniadau cyfalaf y byddaf yn ei wneud yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
13:50	<b>Paul Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am grateful to the Minister for that answer. You mentioned that you will be announcing the projects that will benefit from the £161 million in capital allocations in the next few weeks. Can you tell us exactly when will you be making that statement? Can you also give us an indication of what criteria will be used to determine what projects will benefit from the £161 million in capital allocations?	Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Soniasoch y byddwch yn cyhoeddi'r prosiectau a fydd yn elwa ar y £161 miliwn mewn dyraniadau cyfalaf yn ystod ychydig wythnosau nesaf. A allwch ddweud wrthym yn union pryd y byddwch yn gwneud y datganiad hwnnw? A allwch hefyd roi syniad o pa feini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa brosiectau fydd yn elwa ar y £161 miliwn mewn dyraniadau cyfalaf?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

13:50	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I will be making an oral statement on Tuesday 7 May and I believe that is already—or will be—in the business statement. I will be allocating that finance and, in terms of the priorities, it is extremely difficult, because of the cut to our capital programme by the UK Government. However, I will be allocating that funding in relation to our investment priorities—and I think that this is what Paul Davies wants to hear—in the Wales infrastructure investment plan.</p>	<p>Byddaf yn gwneud datganiad llafar ddydd Mawrth 7 Mai a chredaf fod hynny eisoes—neu fe fydd—yn y datganiad busnes. Byddaf yn dyrannu'r arian hwnnw ac, o ran y blaenoriaethau, mae'n anodd iawn, gan fod Llywodraeth y DU wedi lleihau ein rhaglen cyfalaf. Fodd bynnag, byddaf yn dyrannu'r arian hwnnw mewn perthynas â'n blaenoriaethau buddsoddi—a chredaf mai dyna y mae Paul Davies am ei glywed—yng nghynllun buddsoddi yn seilwaith Cymru.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:51	<p><b>Eluned Parrott</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Minister, the new Wales and Borders franchise is fast approaching and, with the news of electrification, there is a real opportunity—for south Wales in particular, but for Wales in general—to achieve major improvements in our rail travel. Will the Welsh Government consider acting as a financial guarantor to purchase new rolling stock for the new network so that we do not have to rely on leasing older rolling stock in future, which may not have the capacity to carry people and their bicycles around our railway network?</p>	<p>Weinidog, mae masnachfaint newydd Cymru a'r Gororau yn prysur agosáu a, chydaf'r sôn am drydaneiddio, mae cyfle go iawn—i dde Cymru yn arbennig, ond i Gymru yn gyffredinol—i sicrhau gwelliannau sylweddol i'n rheilffyrdd. A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu fel gwarantwr ariannol i brynu cerbydau newydd ar gyfer y rhwydwaith newydd fel na fydd yn rhaid inni ddibynnu ar brydlesu cerbydau hŷn yn y dyfodol, na fydd ganddynt o bosibl y gallu i gludo pobl a'u beiciau o amgylch ein rhwydwaith rheilffyrdd?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:51	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>That is a question for the Minister for Economy, Science and Transport.</p>	<p>Cwestiwn i'r Gweinidog dros yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yw hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Maes Awyr Caerdydd</b>		<b>Cardiff Airport</b>	
13:51	<p><b>Angela Burns</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>6. Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith ar reoli adnoddau Llywodraeth Cymru ar ôl i Lywodraeth Cymru brynu Maes Awyr Caerdydd? OAQ(4)0243(FIN)</i></p>	<p><i>6. What assessment has the Minister made of the impact on the management of Welsh Government resources resulting from the Welsh Government's purchase of Cardiff Airport? OAQ(4)0243(FIN)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:52	<p><b>Jane Hutt</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>We determined that, for the airport to be successful in a highly competitive industry, it would be managed at arm's length from Government on a commercial basis. That is why we established a holding company to facilitate the purchase and manage our interests.</p>	<p>Gwnaethom benderfynu, er mwyn i'r maes awyr fod yn llwyddiannus mewn diwydiant hynod gystadleuol, y câi ei reoli hyd braich oddi wrth y Llywodraeth ar sail fasnachol. Dyna pam rydym wedi sefydlu cwmni dal i hwyluso'r broses brynu a rheoli ein buddiannau.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
13:52	<p><b>Angela Burns</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you for that answer, Minister, because I am very curious: you said earlier in reply to Ieuan Wyn Jones, I believe, that the fiscal outlook is very difficult. Given that you have spent £52 million on an airport—almost double the price that aviation experts appear to think that it was worth—what assumptions have you made for the protection of your capital streams over the coming years? In order to reverse the declining number of people coming in and out of Cardiff Airport, you are obviously going to have to improve road and rail links to Cardiff Airport. Even to do something simple, such as allowing the runway to be expanded to accommodate all these American jets that apparently going to come in, will cost something in the order of £220 million with a new terminal building. Where are you going to find that money, or what assumptions have you made as to where you will be able to find that money in the future?</p>	<p>Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog, gan fy mod yn chwilfrydig iawn: dywedasoch yn gynharach wrth ymateb i Ieuan Wyn Jones, credaf, fod y rhagolygon ariannol yn anodd iawn. Gan eich bod wedi gwario £52 miliwn ar faes awyr—bron ddwywaith y pris y mae arbenigwyr hedfan o'r farn ei fod werth—pa ragdybiaethau a wnaed gennych ar gyfer diogelu eich ffrydiau cyfalaf dros y blynyddoedd i ddod? Er mwyn gwrthdroi'r gostyngiad yn nifer y bobl sy'n defnyddio Maes Awyr Caerdydd, mae'n amlwg y bydd yn rhaid ichi wella cysylltiadau ffordd a rheilffordd i Faes Awyr Caerdydd. Bydd hyd yn oed gwneud rhywbeth syml, fel caniatáu i'r rhedfa gael ei hehangu er mwyn sicrhau bod digon o le i'r holl jetiau Americanaidd hyn a fydd, yn ôl pob tebyg, yn glanio, yn costio tua £220 miliwn gydag adeilad terminws newydd. O ble y daw'r arian hwnnw, neu pa ragdybiaethau a wnaed gennych o ran o ble y dewch o hyd i'r arian hwnnw yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

13:53

**Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sure that the Member has read the important report that the Minister for the economy made available—the report from York Aviation, Arup and M&G Barry Consulting. If you read that report, you will see how justified we were in making that investment—and it is an investment—in purchasing Cardiff Airport. That is about developing a dynamic piece of economic infrastructure for Wales and it gives us an opportunity to develop a vital facility, recognising that purchasing the airport provides the opportunity to safeguard and generate over 3,000 jobs within the Welsh economy. We now await the arm's-length company with its commercial expertise to take this forward, as the Minister for the economy has already described in answer to questions on her statement.

Rwy'n siŵr bod yr Aelod wedi darllen yr adroddiad pwysig a gyflwynwyd gan Weinidog yr economi—sef yr adroddiad gan York Aviation, Arup ac M&G Barry Consulting. Os darllenwch yr adroddiad hwnnw, fe welwch yn sicr bod cyfiawnhad dros y buddsoddiad hwnnw—a buddsoddiad ydyw—i brynu Maes Awyr Caerdydd. Mae'n ymwneud â datblygu darn o seilwaith economaidd dynamig i Gymru ac mae'n rhoi cyfle inni ddatblygu cyfleuster hanfodol, gan gydnabod bod prynu'r maes awyr yn rhoi cyfle inni ddiogelu a chreu dros 3,000 o swyddi o fewn economi Cymru. Rydym yn awr yn aros i'r cwmni hyd braich â'i arbenigedd masnachol fwrw ati â'r gwaith, fel y disgrifiodd Gweinidog yr economi eisoes wrth ymateb i gwestiynau ar ei datganiad.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

13:54

**Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n bwysig iawn bod awdurdodau lleol yn meddu ar y wybodaeth honno. Yn fy mhortffolio blaenorol, ymwelais â chynllun cydweithredol yn y gogledd, lle roedd pob un o'r chwe awdurdod lleol wedi cydweithio i fuddsoddi mewn gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Roeddent yn sicr yn gallu rhoi'r ffigurau imi ar unwaith ynghylch yr hyn a arbedwyd rhwng tua mis Tachwedd a mis Chwefror. Bydd gan awdurdodau lleol y data hynny, ond mae'n sicr yn rhywbeth y byddaf am weld tystiolaeth ohono wrth inni symud ymlaen.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

**Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I am sure that you will have heard that Flintshire's cabinet yesterday rejected a suggestion regarding a collaborative project over closed-circuit television funding. Much of the preparatory work was based on payments from the regional collaboration fund. Has your department undertaken any analysis of the amount of money given to local authorities for these collaborative projects, which ultimately fail at the last hurdle?

Weinidog, rwy'n siŵr y byddwch wedi clywed bod cabinet Sir y Fflint ddoe wedi gwrthod awgrym ynglŷn â phrosiect cydweithredol i ariannu teledu cylch cyfyng. Roedd llawer o'r gwaith paratoi yn seiliedig ar daliadau o'r gronfa cydweithredu rhanbarthol. A yw eich adran wedi cynnal unrhyw ddatdamsoddiad o'r swm o arian a roddir i awdurdodau lleol ar gyfer y prosiectau cydweithredol hyn, sydd yn y pen draw yn methu ar y cam olaf?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:43	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I have asked my officials to look into this. What I have been saying to local authorities as I have been going around is that it is obviously very important that we do not waste any public money. However, I also do not want officials to think that they have to be safe all of the time. If we are going to have innovative collaborative schemes coming forward, we have to make sure that officials have the confidence to bring them forward. However, we have to learn lessons if something goes wrong. It is important that no money is wasted, so I have asked officials to look into this and will be happy to write to the Member in due course.</p>	<p>Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ystyried hyn. Yr hyn rwyf wedi bod yn ei ddweud wrth awdurdodau lleol wrth ymweld â hwy yw ei bod yn amlwg yn bwysig iawn nad ydym yn gwastraffu unrhyw arian cyhoeddus. Fodd bynnag, nid wyf ychwaith am i swyddogion feddwl bod yn rhaid iddynt fod yn ddiogel drwy'r amser. Er mwyn i ni allu datblygu cynlluniau cydweithredol arloesol, rhaid inni wneud yn siŵr bod gan swyddogion yr hyder i'w datblygu. Fodd bynnag, rhaid inni ddysgu gwersi os aiff rhw Beth o'i le. Mae'n bwysig na chaiff unrhyw arian ei wastraffu, felly rwyf wedi gofyn i swyddogion ystyried hyn a byddaf yn fwy na pharod i ysgrifennu at yr Aelod maes o law.</p>
	<b>Cynrychiolwyr Etholedig</b>	<b>Elected Representatives</b>
14:43	<b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p><i>9. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynyddu amrywiaeth cynrychiolwyr etholedig mewn llywodraeth leol yng Nghymru? OAQ(4)0258(LG)</i></p>	<p><i>9. What is the Welsh Government doing to increase the diversity of elected representatives in local government in Wales? OAQ(4)0258(LG)</i></p>
14:44	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>The Local Government (Wales) Measure 2011 introduced a range of provisions, which are unique to Wales, to make it easier for people to fulfil active roles as councillors.</p>	<p>Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cyflwyno amrywiaeth o ddarpariaethau, sy'n unigryw i Gymru, er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gyflawni rolau gweithredol fel cynghorwyr.</p>
14:44	<b>Christine Chapman</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>You will be aware that, currently, only 26% of councillors in Wales are women. Despite an 8% increase since 1999, the rate of progress at last year's local government elections was just 1.5%. At this rate, women will not have an equal voice in Welsh local authorities until 2076. The Measure that you mentioned obviously commits to help broaden and increase participation in local government, but, in practice, Minister, what action is being taken to ensure that this is being taken forward in respect of gender equality? Will the Welsh Government be monitoring progress?</p>	<p>Byddwch yn ymwybodol mai dim ond 26% o gynghorwyr yng Nghymru sy'n fenywod ar hyn o bryd. Er gwaethaf cynnydd o 8% ers 1999, dim ond cynnydd o 1.5% a welwyd yn etholiadau llywodraeth leol y llynedd. Ar sail hynny, ni fydd gan fenywod lais cyfartal mewn awdurdodau lleol yng Nghymru tan 2076. Mae'r Mesur a grybwyllwyd gennych yn amlwg yn ymrwymo i helpu i ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol, ond, yn ymarferol, Weinidog, pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod hyn yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â chydardoldeb rhwng y rhywiau? A fydd Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd?</p>
14:44	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
	<p>I certainly share your concerns about the gender inequality of elected members in local government. I want to see all elected bodies, and certainly local government, representing a very modern Wales.</p>	<p>Yn sicr, rhannaf eich pryderon ynghylch anghydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn perthynas ag aelodau etholedig mewn llywodraeth leol. Rwyf am weld pob corff etholedig, ac yn sicr llywodraeth leol, yn cynrychioli Cymru fodern iawn.</p>
	<p>I will be making a statement on promoting local democracy, including the results from our first-ever survey of candidates and councillors in mid-May, following the local elections in Anglesey. The survey, which was introduced in the 2011 Measure, will be repeated at the next set of local government elections, and the Welsh Government will then review and monitor progress. I am very committed to promoting wider participation in local democracy and, within the Measure, steps were taken—for instance, on the timing of meetings and family leave—to ensure that we have much more diverse council members across Wales.</p>	<p>Byddaf yn gwneud datganiad ar hyrwyddo democratiaeth leol, gan gynnwys canlyniadau ein harolwg cyntaf erioed o ymgeiswyr a chynghorwyr ganol mis Mai, yn dilyn yr etholiadau lleol ar Ynys Môn. Caiff yr arolwg, a gyflwynwyd ym Mesur 2011, ei gynnal eto yn ystod y gyfres nesaf o etholiadau llywodraeth leol, a bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn adolygu ac yn monitro cynnydd. Rwy'n ymroddedig iawn i hyrwyddo cyfranogiad ehangach mewn democratiaeth leol ac, o fewn y Mesur, cymerwyd camau—er enghraifft, o ran amseru cyfarfodydd a gwyliau teuluol—i sicrhau bod gennym aelodau cyngor mwy amrywiol ledled Cymru.</p>

- 14:45 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, according to the Equality and Human Rights Commission, less than 1% of councillors had an ethnic minority background in 2004. One reason for this is a lack of understanding and awareness of how local government works, which acts as a disincentive to those who might otherwise wish to serve as councillors. What is the Welsh Government doing in conjunction with local authorities to promote greater numbers of councillors from ethnic minority backgrounds?
- Weinidog, yn ôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, roedd llai nag 1% o gynghorwyr yn perthyn i gefndir lleiafrifol ethnig yn 2004. Un rheswm dros hyn yw diffyg dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithio, sy'n atal y rheini a allai fel arall fod am wasanaethu fel cynghorwyr. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar y cyd ag awdurdodau lleol i ddenu mwy o gynghorwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig?
- 14:46 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I share your concerns about that, and I will look at the results in the survey of candidates and councillors over the next month. Certainly, we need to look at promoting wider participation among the ethnic minority groups.
- Rhannaf eich pryderon ynghylch hynny, a byddaf yn ystyried canlyniadau'r arolwg o ymgeiswyr a chynghorwyr yn ystod y mis nesaf. Yn sicr, mae angen inni geisio hyrwyddo cyfranogiad ehangach ymysg grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- 14:46 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae diddordeb gennyf mewn deall beth y medrai Llywodraeth Cymru ei wneud i newid agweddau'r rheiny sydd wedi cael eu hethol yn barod. Rwy'n meddwl yn benodol am gynghorydd Plaid Cymru yn fy ardal i nad yw eto'n 30 oed sy'n cael ei galw yn 'That little girl' gan gydweithwyr o bleidiau eraill sy'n llawer yn hŷn na hi—nid oes syrpréis yn hynny. A ydych yn cytuno â mi fod nifer o gynghorwyr yn trin awdurdodau lleol fel clybiau preifat i ddynion o oedran penodol? Sut y medrwn felly newid yr hinsawdd er mwyn i fwy o fenywod deimlo'n gyffyrddus am gael eu hethol a theimlo bod eu barn yr un mor bwysig â barn pawb arall yn y siambr?
- I would be interested to learn what the Welsh Government could do to change attitudes of those already elected. I am thinking specifically of a Plaid Cymru councillor in my own area who is not yet 30 years of age and who is called 'That little girl' by colleagues from other parties who are much older than her—there is no surprise there. Do you agree with me that many councillors treat local authorities as private clubs for me of a particular age? How can we therefore change the climate in order for more women to feel comfortable in being elected and feel that their opinions are just as valued as those of everyone else in the chamber?
- 14:47 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I am very sorry to hear of that experience: it is completely intolerable. I have to say that, as I have been going round, I have met the cabinet members of Cardiff, and I was very pleased to see that it has several young members. Certainly, if we are going to encourage more young members and more female councillors to come forward, we have to make sure that we have much more flexible arrangements to accommodate them. I mentioned the timings of meetings; if people have young families, it is important that those meetings are timed to suit them, and the same is true for people in full-time employment, because councillors can often be retired people, as they are the people who feel that they have the time for it. You are right, though; it is something that has to be changed from within, and I do see that change coming, but it is something that I would want to encourage at a much faster pace.
- Mae'n ddrwg iawn gennyf glywed am y profiad hwnnw: mae'n gwbl annerbyniol. Rhaid imi ddweud, wrth imi deithio o amgylch yr awdurdodau lleol, rwyf wedi cyfarfod ag aelodau cabinet Caerdydd, ac roeddwn yn falch iawn o weld nifer o aelodau ifanc yno. Yn sicr, er mwyn annog mwy o aelodau ifanc a mwy o gynghorwyr benywaidd, rhaid inni sicrhau bod gennym drefniadau llawer mwy hyblyg ar eu cyfer. Soniais am amseru cyfarfodydd; os oes gan bobl deuluoedd ifanc, mae'n bwysig bod y cyfarfodydd hynny yn cael eu cynnal ar adegau sy'n addas iddynt, ac mae'r un peth yn wir am bobl mewn cyflogaeth llawn amser, oherwydd gall cynghorwyr yn aml fod yn bobl sydd wedi ymddeol, gan mai nhw yw'r bobl sy'n teimlo bod ganddynt yr amser ar gyfer hynny. Ond rydych yn iawn; mae'n rhywbeth y mae'n rhaid ei newid yn fewnol, a gallaf ragweld y newid hwnnw, ond mae'n rhywbeth y byddwn am ei annog yn llawer cynt.
- Gwerth am Arian** **Value for Money**
- 14:48 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- 10. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwerth am arian a gyflawnir gan awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0268(LG)*
- 10. Will the Minister make a statement on the delivery of value for money by local authorities in North Wales? OAQ(4)0268(LG)*



14:48	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>There are clear duties on local authorities to achieve best value for money in delivering and improving the services that they are responsible for. To support this, I have provided a fair and realistic settlement in difficult financial circumstances.</p>	<p>Mae gan awdurdodau lleol ddyletswyddau clir i gyflawni gwerth gorau am arian wrth ddarparu a gwella'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Er mwyn cefnogi hyn, rwyf wedi darparu setliad teg a realistig o dan amgylchiadau ariannol anodd.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:48	<p><b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Thank you, Minister. One of the most important ways that local authorities can deliver value for money in their spending will be through local procurement and the multiplier effect that this spending has in the local economy. Do you share my concern that no local authority in north Wales has adopted your Government's procurement policy, and that none is currently doing so? What steps will you take, with your Cabinet colleagues, to ensure that local businesses in north Wales are fully able to compete for local authority contracts?</p>	<p>Diolch, Weinidog. Un o'r ffyrdd pwysicaf y gall awdurdodau lleol sicrhau gwerth am arian o ran eu gwariant fydd drwy gaffael yn lleol ac effaith lluosydd y gwariant hwn ar yr economi leol. A ydych yn rhannu fy mhryder nad oes unrhyw awdurdod lleol yn y gogledd wedi mabwysiadu polisi caffael eich Llywodraeth, ac nad oes unrhyw un ohonynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd, gyda'ch cyd-aelodau yn y Cabinet, i sicrhau bod busnesau lleol yn y gogledd yn gallu cystadlu am gontractau awdurdod lleol?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:49	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>My understanding is that all local authorities have signed up to our procurement policy. In fact, I have just heard the Minister for Finance answer that question in her question session.</p>	<p>Deallaf fod pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i'n polisi caffael. Yn wir, rwyf newydd glywed y Gweinidog Cyllid yn ateb y cwestiwn hwnnw yn ei sesiwn gwestiynau.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:49	<p><b>Llyr Huws Gruffydd</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Byddwn yn ategu'r sylw bod cael polisi caffael cyhoeddus yn iawn yn un ffordd bwysig o sicrhau'r gwerth gorau posibl o bob punt sy'n cael ei gwario yn y modd hwnnw. Pa drafodaethau a ydych chi, fel Gweinidog llywodraeth leol, sy'n allweddol yn y cyd-destun hwn, wedi eu cael gyda'r Gweinidog Cyllid ynglŷn â dod â Bil caffael cyhoeddus gerbron y Senedd?</p>	<p>I would endorse the comment that getting public procurement right is one important way of ensuring best value for every pound spent in that way. As the Minister for local government, which is crucial in this context, what discussions have you had with the Minister for Finance on bringing a public procurement Bill before the Senedd?</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:49	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>I have met with the Minister for Finance on two or three occasions since I have been in this post, and that is not an issue that we have discussed, although I think that it will probably be on the next agenda.</p>	<p>Cyfarfûm â'r Gweinidog Cyllid ar ddau neu dri achlysur ers imi fod yn y swydd hon, ac nid yw hynny'n fater yr ydym wedi'i drafod, ond mae'n debyg y bydd ar yr agenda nesaf.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
<b>Tâl Uwch-swyddogion</b>		<b>Senior Officer Remuneration</b>	
14:50	<p><b>Rhodri Glyn Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p><i>11. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dâl uwch-swyddogion mewn llywodraeth leol? OAQ(4)0261(LG)</i></p>	<p><i>11. Will the Minister make a statement on senior officer remuneration in local government? OAQ(4)0261(LG)</i></p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>
14:50	<p><b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a></p> <p>Local authority pay is a matter for each authority and they are accountable to their local electorates for the decisions that they take.</p>	<p>Mae tâl awdurdodau lleol yn fater i bob awdurdod ac maent yn atebol i'w hetholwyr lleol am y penderfyniadau a wnânt.</p>	<p>Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a></p>

14:50 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Mae rhai uwch-swyddogion yng Nghymru yn derbyn tâl ychwanegol ar ben y cyflogau hael iawn y maen nhw'n eu derbyn i fod yn gyfrifol am etholiadau. A fydddech yn cymeradwyo'r system sy'n bodoli yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe lle mae'r prif weithredwr yn cynnwys y cyfrifoldebau am arolygu etholiadau o fewn ei ddisgrifiad gwaith? Ai dyna'r model ar gyfer Cymru gyfan yn eich barn chi?

Some senior officers in Wales are in receipt of additional payments, on top of the generous salaries that they receive, as recompense for being responsible for elections. Would you commend the system that exists in the City and County of Swansea Council where the chief executive includes the responsibilities for overseeing elections within his job description? Is that the model for the rest of Wales in your view?

14:50 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I know that this something that Members have raised during the passage of the Local Government (Democracy) (Wales) Bill and it is certainly something that we can look at as we go into Stage 2.

Gwn fod hyn yn rhywbeth a godwyd gan Aelodau wrth basio Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) ac mae'n sicr yn rhywbeth y gallwn ei ystyried wrth inni fynd ymlaen i Gyfnod 2.

14:50 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, the Local Government (Wales) Measure 2011 and the Local Government (Democracy) (Wales) Bill do not go far enough in many people's opinion to foster openness, transparency and, above all, accountability to the electorate, in particular as regards what has been mentioned previously, that is, the remuneration of chief executive officers across the piste in local authorities in Wales. In research carried out, some of the highest remunerations that I have seen are in Carmarthenshire, where the chief executive officer received £185,000 and six further authorities have paid their chief executives over £140,000 in 2012-13. Minister, when other councils, such as Monmouthshire, are keeping chief executive pay more realistic, will you acknowledge that excessively high remuneration for senior officers is simply unsustainable for tax payers in Wales?

Weinidog, nid yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a'r Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) yn mynd yn ddigon pell ym marn llawer o bobl i feithrin didwylledd a thryloywder ac, yn anad dim, atebolrwydd i'r etholwyr, yn enwedig o ran yr hyn a grybwyllwyd yn flaenorol, hynny yw, tâl prif swyddogion gweithredol yn gyffredinol mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Mewn ymchwil a wnaed, mae rhai o'r taliadau uchaf yr wyf wedi eu gweld yn Sir Gaerfyrddin, lle roedd y prif swyddog gweithredol yn cael £185,000 ac mae chwe awdurdod arall wedi talu dros £140,000 i'w prif weithredwyr yn ystod 2012-13. Weinidog, pan fo cynghorau eraill, fel Sir Fynwy, yn talu swm mwy realistig i brif weithredwyr, a fyddwch yn cydnabod bod talu gormod i uwch swyddogion, yn syml, yn anghynaliadwy i drethdalwyr yng Nghymru?

14:52 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I believe that local authorities should be accountable to their local people for the decisions that they make. That includes decisions about the remuneration of their most senior staff. Authorities need to be able to justify these decisions in terms of value for money, but they also have to be mindful of the financial climate within which they are working.

Credaf y dylai awdurdodau lleol fod yn atebol i'w pobl leol am y penderfyniadau a wnânt. Mae hynny'n cynnwys penderfyniadau am dâl eu haelodau uchaf o staff. Mae angen i awdurdodau allu cyfiawnhau'r penderfyniadau hyn o ran gwerth am arian, ond rhaid iddynt hefyd ystyried yr hinsawdd ariannol y maent yn gweithio ynddo.

## Strwythurau Llywodraethu Awdurdodau Lleol

## The Governance of Local Authorities

14:52 **Ieuan Wyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*12. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strwythurau llywodraethu awdurdodau lleol? OAQ(4)0257(LG)*

*12. Will the Minister make a statement on the governance of local authorities? OAQ(4)0257(LG)*

14:52 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Local authorities are required to ensure that their governance arrangements are in line with relevant statutory provisions.

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu yn unol â darpariaethau statudol perthnasol.

14:52	<b>Iuan Wyn Jones</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Diolch i'r Gweinidog am yr ateb hwnnw. Lle mae problemau wedi bod yn y gorffennol gyda strwythur llywodraethu cynghorau—wrth gwrs, dyna un o'r rhesymau pam y galwyd y comisiynwyr i mewn i Ynys Môn—onid yr hyn sydd ei angen rwan yw arweiniad clir, gwleidyddol a sefydlog dros y blynyddoedd nesaf? Mewn gwirionedd, ni all cynghorwyr annibynnol wneud hynny. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cymryd y cyfle hefyd i ddymuno'n dda i ymgeiswyr gwych Plaid Cymru yn yr etholiad ddydd lau nesaf. [Laughter.]	I thank the Minister for that response. Where there have been problems in the past with the governance structures of councils—of course, that is one of the reasons why the commissioners were called in to Anglesey—is what we require now not clear, political and stable leadership over the next few years? In reality, independent councillors cannot provide that stability. I am sure that the Minister would take this opportunity to wish the excellent Plaid Cymru candidates well in next Thursday's election. [Laughter.]	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:53	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am sure that you will not mind if I do not take up that kind offer. I very much welcomed the First Minister's announcement on the establishment of the public service commission, which fulfils our programme for government commitment to review the governance of public services in Wales. That is very timely, particularly in the current financial climate.	Rwy'n siŵr na fydd ots gennych os na dderbyniaf y cynnig caredig hwnnw. Croesewais yn fawr iawn gyhoeddiad y Prif Weinidog ynghylch sefydlu'r comisiwn gwasanaeth cyhoeddus, sy'n cyflawni ymrwymiad ein rhaglen lywodraethu i adolygu'r gwaith o lywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae hynny'n amserol iawn, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:53	<b>William Graham</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Your predecessor was quite keen to promote joint appointments. That does not seem to have been very successful. Are you minded to introduce any more directives in that respect?	Roedd eich rhagflaenydd yn eithaf awyddus i hyrwyddo penodiadau ar y cyd. Nid ymddengys i hynny fod yn llwyddiannus iawn. A fydddech yn ystyried cyflwyno rhagor o gyfarwydddebau yn hynny o beth?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:53	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> It is certainly something that I am looking at. I have asked my officials to give me a briefing on that. I know that it was something that Carl Sargent was very keen on. As you say, I do not think that it has been particularly successful, but it is something that I will have to consider in due course.	Mae'n sicr yn rhywbeth yr wyf yn ei ystyried. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion fy mriaffio ynghylch hynny. Gwn ei fod yn rhywbeth yr oedd Carl Sargent yn awyddus iawn i'w wneud. Fel y dywedwch, ni fu'n llwyddiannus iawn, ond mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid imi ei ystyried maes o law.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:54	<b>Y Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Question 13, OAQ(4)0263(LG), was withdrawn.	Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ (4) 0263 (LG), yn ôl.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
<b>Gwasanaethau Tân ac Achub</b>		<b>Fire and Rescue Services</b>	
14:54	<b>Keith Davies</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>14. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfrifoldebau gweithredol gwasanaethau tân ac achub ledled Cymru? OAQ(4)0269(LG)</i>	<i>14. Will the Minister make a statement on the operational responsibilities of fire and rescue services across Wales? OAQ(4)0269(LG)</i>	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:54	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Fire and rescue authorities are autonomous, independent bodies and, as such, it is for them to determine operational matters, including how they assess risk and provide services in their geographical area.	Mae awdurdodau tân ac achub yn gyrrff ymreolaethol, annibynnol ac, fel y cyfryw, mater iddynt hwy yw penderfynu ar faterion gweithredol, gan gynnwys sut maent yn asesu risg ac yn darparu gwasanaethau yn eu hardal ddaearyddol.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:54 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister, for that. As you are aware, an extraordinary meeting of the Mid and West Wales Fire and Rescue Authority was called last week. Many authority members felt dismayed that they had not been adequately consulted on the Llanelli shift changes and wished to conduct proper scrutiny. Although the motion was not passed due to opposition from Plaid Cymru, the Tories, independents and the Liberal Democrats, the chair—a Plaid councillor—questioned how binding a successful motion would have been on the management of the authority. Clearly, this is not conducive to fire authority members playing an effective role. Minister, will you agree that decisions taken by such authorities should be in the interests of its workers and public safety, and that due weight should be given to the views of its members as they represent the majority?

Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Fel y gwyddoch, galwyd cyfarfod arbennig o Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yr wythnos ddiwethaf. Roedd sawl aelod o'r awdurdod yn siomedig nad ymgynghorwyd â hwy'n ddigonol ar y newidiadau sifft yn Llanelli ac yn dymuno cynnal gwaith craffu priodol. Er na chafodd y cynnig ei basio oherwydd gwrthwynebiad gan Blaid Cymru, y Torïaid, yr aelodau annibynnol a'r Democratiaid Rhyddfrydol, holodd y cadeirydd—un o gynghorwyr Plaid—pa mor rhwymol y byddai cynnig llwyddiannus wedi bod ar reolwyr yr awdurdod. Yn amlwg, nid yw hyn yn helpu aelodau awdurdod tân i chwarae rôl effeithiol. Weinidog, a fyddwch yn cytuno y dylai penderfyniadau a wneir gan awdurdodau o'r fath fod er budd ei weithwyr a diogelwch y cyhoedd, ac y dylid rhoi sylw dyledus i safbwyntiau ei aelodau gan eu bod yn cynrychioli'r mwyafrif?

14:55 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Yes, the fire and rescue authority has the authority to make all appropriate decisions concerning the functions of the FRA within the relevant legal framework. It could authorise its chief fire officer or any other employee to make such decisions, and if it disagrees with the chief fire officer's decision, obviously it can decide to overrule it. The fire and rescue national framework for 2012 onwards states that the FRAs are still required to undertake mechanisms to identify and plan on the basis of reducing risk to their citizens and communities.

Oes, mae gan yr awdurdod tân ac achub yr awdurdod i wneud yr holl benderfyniadau priodol sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Awdurdod Tân ac Achub o fewn y fframwaith cyfreithiol perthnasol. Gallai awdurdodi ei brif swyddog tân neu unrhyw gyflogai arall i wneud penderfyniadau o'r fath, ac os yw'n anghytuno â phenderfyniad y prif swyddog tân, yn amlwg gall benderfynu ei wrthod. Mae'r fframwaith tân ac achub cenedlaethol ar gyfer 2012 ymlaen yn nodi ei bod yn dal yn ofynnol i'r Awdurdodau Tân ac Achub ymgymryd â ffyrdd o nodi a chynllunio er mwyn lleihau risg i'w dinasyddion a chymunedau.

14:55 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Weinidog, a ydych yn cytuno y dylai diffoddwyr tân cymwys gyda blynyddoedd lawer o brofiad gweithredol ddod mas o'r swyddfeydd achos maen nhw'n gwasanaethu'r cyhoedd yn well ar y rheng flaen?

Minister, do you agree that qualified firefighters with many years of active service should actually serve the public on the front line rather than in the back office?

14:56 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is something that, again, I need to look at. I presume that you are referring to the home safety checks, and that is something that I have asked my officials to give me a briefing on.

Unwaith eto, mae'n rhywbeth y mae angen i mi ei ystyried. Rwy'n cymryd eich bod yn cyfeirio at y gwiriadau diogelwch yn y cartref, ac mae hynny'n rhywbeth yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion fy mriffio yn ei gylch.

## Perfformiad Llywodraeth Leol

## Local Government Performance

14:56 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*15. A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gwella perfformiad llywodraeth leol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0267(LG)*

*15. Will the Minister outline her priorities for improving local government performance in North Wales? OAQ(4)0267(LG)*

14:56 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Local government provides good services across north Wales. For example, Conwy has the lowest rate of delayed transfers of care in Wales, and Gwynedd has the best performance at key stage 4. However, I am aware that there is no room for complacency. All authorities must strive for continuous improvement in their performance.

Mae llywodraeth leol yn darparu gwasanaethau da ym mhob rhan o'r gogledd. Er enghraifft, Conwy sydd â'r gyfradd isaf o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yng Nghymru, a Gwynedd sydd â'r cyfraddau perfformio gorau yng nghyfnod allweddol 4. Fodd bynnag, gwn nad oes lle i fod yn hunanfodlon. Rhaid i bob awdurdod geisio gwella ei berfformiad yn barhaus.

14:56	<b>Antoinette Sandbach</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> Minister, thank you for that answer. One of the most important ways that councils in north Wales will be able to improve their performance will be through delivering better value for money. Can you confirm what steps you are taking to share the best practices of Conservative-run Monmouthshire County Council, which has delivered a council tax freeze for residents by capping chief executive pay, reducing senior management and working collaboratively with neighbouring authorities? Would you agree that the adoption of similar best practice in north Wales would be a welcome development?	Weinidog, diolch i chi am yr ateb hwnnw. Un o'r ffyrdd pwysicaf y gall cynghorau yn y gogledd wella eu perfformiad fydd drwy ddarparu gwerth gwell am arian. A allwch gadarnhau pa gamau yr ydych yn eu cymryd i rannu arferion gorau Cyngor Sir Fynwy dan reolaeth y Ceidwadwyr, sydd wedi rhewi'r dreth gyngor i breswylwyr drwy gapio cyflogau prif weithredwyr, lleihau uwch reolwyr a chydweithio ag awdurdodau cyfagos? A fydddech yn cytuno y byddai mabwysiadu arfer gorau tebyg yn y gogledd yn ddatblygiad i'w groesawu?	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:57	<b>Lesley Griffiths</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I am very keen to see best practice rolled out right across Wales. You will be aware that, in my previous portfolio of health, I set up a best practice and innovation board because I was so impressed by some best practice that you did not see elsewhere. It is a message that I am giving to all local authority leaders and chief executives. I am even saying that it is one thing that you can steal.	Rwy'n awyddus iawn i weld arfer gorau'n cael ei gyflwyno ledled Cymru. Byddwch yn ymwybodol fy mod, fel rhan o'm portffolio iechyd blaenorol, wedi sefydlu bwrdd arfer gorau ac arloesi gan fod rhai enghreifftiau o arfer gorau nas gwelwyd mewn manau eraill wedi creu cymaint o argraff arnaf. Mae'n neges yr wyf yn ei chyfleu i bob arweinydd awdurdod lleol a phrif weithredwr. Byddwn hyd yn oed yn dweud ei bod yn un peth y gallwch ei ddwyn.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:57	<b>Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad</b>  <b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> No questions have been tabled.	<b>Questions to the Assembly Commission</b>  Nid oes unrhyw gwestiynau wedi'u cyflwyno.	<b>Y</b> Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:57	<b>Cwestiwn Brys: Amseroedd Ymateb Ambiwylans</b>  <b>Llywydd / The Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> I have accepted an urgent question under Standing Order No. 12.66. I call on Kirsty Williams to ask the urgent question.  <i>A wnaiff y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad brys ar amseroedd ymateb Gwasanaeth Ambiwylans Cymru? EAQ(4)0265(HSS)</i>	<b>Urgent Question: Ambulance Response Times</b>  Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys o dan Reol Sefydlog Rhif 12.66. Galwaf ar Kirsty Williams i ofyn y cwestiwn brys.  <i>Will the Health Minister make an urgent statement about the Welsh Ambulance Service response times? EAQ(4)0265(HSS)</i>	<b>Y</b> Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>
14:58	<b>Mark Drakeford</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a> <i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i> The concerns that led my predecessor to commission a review of the Welsh ambulance service are further underlined by the response times achieved in March. The McClelland review has now been completed and I intend to use its recommendations to secure significant and necessary improvements for the future.	Caiff y pryderon a arweiniodd fy rhagflaenydd i gomisiynu adolygiad o wasanaeth ambiwlans Cymru eu tanlinellu ymhellach gan yr amseroedd ymateb a gyflawnwyd ym mis Mawrth. Mae adolygiad McClelland bellach wedi ei gwblhau ac rwy'n bwriadu defnyddio ei argymhellion i sicrhau gwelliannau sylweddol ac angenrheidiol ar gyfer y dyfodol.	Senedd.tv <a href="#">Fideo</a> <a href="#">Video</a>

14:58

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his answer. The figures released today show that in not a single area in Wales has the Welsh Ambulance Services NHS Trust reached the Welsh Government's own targets. In Flintshire, Bridgend, Rhondda Cynon Taf, Caerphilly, Torfaen and Merthyr Tydfil, less than half of ambulances responding to emergency category A calls got there within eight minutes. Notwithstanding yet another review of the ambulance service, and your attempts to address delayed transfers of care yesterday, when will Welsh patients be assured that, when they ring 999 for a category A call, the ambulance will get to them within eight minutes?

Diolch i'r Gweinidog am ei ateb. Mae'r ffigurau a ryddhawyd heddiw yn dangos nad yw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ei hun mewn un ardal yng Nghymru. Yn Sir y Fflint, Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Caerffili, Torfaen a Merthyr Tudful, roedd llai na hanner yr ambiwlansys a oedd yn ymateb i alwadau brys categori A wedi cyrraedd o fewn wyth munud. Er gwaethaf adolygiad arall eto o'r gwasanaeth ambiwlans, a'ch ymdrechion ddoe i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal, pryd y caiff cleifion o Gymru y sicrwydd, pan fyddant yn ffonio 999 ar gyfer galwad categori A, y bydd yr ambiwlans yn eu cyrraedd o fewn wyth munud?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As the Member has said, I announced a series of measures yesterday that will address the ambulance contribution to unscheduled care in Wales. We will use the McClelland review to build further on those announcements. I am as concerned as she is to ensure that Welsh patients get the service that they need from our ambulance service.

Fel y dywedodd yr Aelod, cyhoeddais gyfres o fesurau ddoe a fydd yn mynd i'r afael â chyfraniad ambiwlansys i ofal heb ei drefnu yng Nghymru. Byddwn yn defnyddio adolygiad McClelland i adeiladu ymhellach ar y cyhoeddiadau hynny. Rwyf yr un mor bryderus â hi i sicrhau bod cleifion yng Nghymru yn cael y gwasanaeth sydd ei angen arnynt gan ein gwasanaeth ambiwlans.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

14:59

**Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, do you accept that this is not just a problem for the ambulance service, but one of the symptoms of the crisis that we have in our emergency care system in Wales? Will you also accept that the reorganisation proposals coming forward in some parts of the country, which will result in the closure of minor injuries units and community hospitals and the loss of opportunity for people to present at those places, rather than at accident and emergency departments, will put further pressure on the ambulance service. Your predecessor released extra resources for local health boards to respond to the unprecedented demands in unscheduled care in November of last year. However, there were no such extra resources released to the ambulance service, which was also having to deal with those unprecedented demands. Will you look at your resources to see whether you can make extra finance available to the service to meet the pressures that it now faces?

Weinidog, a dderbyniwch nad problem i'r gwasanaeth ambiwlans yn unig yw hyn. Mae hefyd yn un o symptomau'r argyfwng sydd gennym yn ein system gofal brys yng Nghymru? A wnewch chi hefyd dderbyn y bydd y cynigion ad-drefnu a gyflwynir mewn rhai rhannau o'r wlad, a fydd yn arwain at gau unedau mân anafiadau ac ysbytai cymunedol a'r cyfle a gollir i bobl fynd i'r lleoedd hynny, yn hytrach nag adrannau damweiniau ac achosion brys, yn rhoi mwy o bwysau ar y gwasanaeth ambiwlans. Rhyddhaodd eich rhagflaenydd adnoddau ychwanegol i fyrddau iechyd lleol er mwyn iddynt ymateb i ofynion digynsail mewn gofal heb ei drefnu ym mis Tachwedd y llynedd. Fodd bynnag, ni ryddhawyd unrhyw adnoddau ychwanegol o'r fath i'r gwasanaeth ambiwlans, a oedd hefyd yn gorfod delio â'r galwadau digynsail hynny. A wnewch chi edrych ar eich adnoddau i weld a allwch sicrhau bod arian ychwanegol ar gael i'r gwasanaeth i ymdopi â'r pwysau y mae bellach yn ei wynebu?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:00

**Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I fully accept what the Member has said, and I think that I said myself yesterday that improvements in the Welsh ambulance service are intrinsically bound up with what we can do to improve unscheduled care as a whole. The contribution that ambulance services make to the reconfiguration of services is also intrinsic to the way in which those reforms have to be taken forward. The McClelland review reflects on resources, and I will be reading that part of the report as closely as I read any other.

Rwy'n derbyn yn llwyr yr hyn a ddywedodd yr Aelod, a chredaf imi ddweud ddoe bod gwelliannau yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru yn rhan annatod o'r hyn y gallwn ei wneud i wella gofal heb ei drefnu yn gyffredinol. Mae'r cyfraniad a wna'r gwasanaethau ambiwlans i ad-drefnu gwasanaethau hefyd yn rhan annatod o'r ffordd y mae'n rhaid gweithredu ar y diwygiadau hynny. Mae adolygiad McClelland yn ystyried adnoddau, a byddaf yn darllen y rhan honno o'r adroddiad mor fanwl ag y byddaf yn darllen unrhyw adroddiad arall.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



- 15:01 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae'r argyfwng yn y gwasanaeth ambiwlans mor ddwfn a difrifol erbyn hyn, rwy'n clywed bod achosion wedi codi yn ysbyty Bronglais lle mae cleifion mewn argyfwng wedi cael eu trosglwyddo oddi yno i ysbyty Glangwili mewn ceir preifat, gyda doctor yn y car, oherwydd na fyddai ambiwlans ar gael yn ddigon cyflym i'r claf. A wnewch chi gadarnhau bod hyn yn arferiad annerbyniol? A wnewch chi ofyn hefyd i'r byrddau iechyd a'r gwasanaeth ambiwlans sicrhau bod cynlluniau yn eu lle i sicrhau nad yw hyn yn digwydd?
- The crisis in the ambulance service is so deep and serious now, that I hear that cases have arisen in Bronglais hospital where patients in crisis have been transferred to Glangwili hospital in private cars, with a doctor in the car, because an ambulance would not be available quickly enough for the patient. Will you confirm that this is an unacceptable practice? Will you also ask the health boards and the ambulance service to ensure that plans are in place to ensure that this does not occur?
- 15:01 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- I was not directly aware of the example that the Member has just outlined. It is, I am sure, highly unusual. The specific point that she makes is one that I share. To secure a better result in the Welsh ambulance service, as part of unscheduled care, it is essential that the Welsh Ambulance Services NHS Trust and the LHBs regard the solution to these difficulties as something that they share. I am not satisfied with a situation where one side of this equation is able to point to the other as being the cause of the problem. They have to work together to provide a common solution. That is why I required the letters that were received recently, setting out immediate steps, to be jointly signed by the local health board and by a senior member of the Welsh Ambulance Services NHS Trust.
- Nid oeddwn yn uniongyrchol ymwybodol o'r enghraifft y mae'r Aelod newydd ei chrybwyll. Mae'n anarferol iawn, mae'n siŵr gennyf. Mae'r pwynt penodol a wna yn un a rannaf. Er mwyn sicrhau canlyniad gwell yng ngwasanaeth ambiwlans Cymru, fel rhan o ofal heb ei drefnu, mae'n hanfodol bod Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a'r Byrddau Iechyd Lleol yn ystyried yr ateb i'r anawsterau hyn fel rhywbeth a rennir ganddynt. Nid wyf yn fodlon ar sefyllfa lle mae'r naill ochr yn gallu cyfeirio at y llall fel achos y broblem. Rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd i ddarparu ateb cyffredin. Dyna pam y gofynnais am y llythyrau a gafodd eu derbyn yn ddiweddar, yn nodi camau uniongyrchol i'w cymryd, i'w llofnodi ar y cyd gan y bwrdd iechyd lleol a chan uwch aelod o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.
- 15:02 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I welcome your commitment to change. Last month, when the figures came out, I consoled myself that at least the figures would not get any worse, but this month the figures are, in fact, worse, and my constituency has some of the worst response times in the whole of Wales, and it appears that some of the poorest areas are the worst affected. What I would like you to look at in particular, Minister, is the way that you analyse the McClelland report. We need much more solid response analysis. The figures we have at the moment are crude and do not really tell us what the picture is, only that it is bad. It is very important to meet the ambulance staff and their trade unions to find out from them what is happening at the coal face.
- Weinidog, croesawaf eich ymrwymiad i newid. Fis diwethaf, pan gyhoeddwyd y ffigurau, cysurais fy hun na fyddai'r ffigurau yn mynd yn waeth o leiaf, ond y mis hwn mae'r ffigurau, mewn gwirionedd, yn waeth, ac mae gan fy etholaeth rai o'r amseroedd ymateb gwaethaf yng Nghymru gyfan, ac ymddengys mai rhai o'r ardaloedd tlotaf yw'r rhai yr effeithiwyd fwyaf arnynt. Yr hyn yr hoffwn ichi edrych arno yn arbennig, Weinidog, yw'r ffordd rydych yn dadansoddi adroddiad McClelland. Ffigurau bras yw'r rhai sydd gennym ar hyn o bryd ac nid ydynt yn dweud wrthym beth yw'r darlun mewn gwirionedd, dim ond ei fod yn wael. Mae'n bwysig iawn cwrdd â staff ambiwlansys a'u hundebau llafur i ganfod beth sy'n digwydd ar lawr gwlad.
- 15:03 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)
- The Member has been assiduous in pursuing the local concerns, which he rightly has, about the performance of ambulance services in his constituency. I had an opportunity earlier to share some of those concerns with him. He is absolutely right that understanding the data, and knowing that we have the necessary data and that we are analysing it comprehensively, lies at the root of making improvements. I know that Professor McClelland, in carrying out her review, talked directly with trade unions and individuals who work for the ambulance service. As a result, I think, she shares your view that, if you want to understand some of the intricacies of what goes on in providing these services, it is really important to discuss with and involve in shaping a solution those people who are involved, day-in, day-out, in providing these services.
- Bu'r Aelod yn gweithio'n ddiwyd i fynd ar drywydd y pryderon lleol, sydd ganddo, a hynny'n briodol, am berfformiad y gwasanaethau ambiwlans yn ei etholaeth. Cefais gyfle yn gynharach i rannu rhai o'r pryderon hynny ag ef. Mae'n hollol iawn i ddweud bod deall y data, a gwybod bod gennym y data angenrheidiol a'n bod yn ei ddadansoddi'n gynhwysfawr, wrth wraidd gwneud gwelliannau. Gwn fod yr Athro McClelland, wrth gynnal ei hadolygiad, wedi siarad yn uniongyrchol ag undebau llafur ac unigolion sy'n gweithio i'r gwasanaeth ambiwlans. O ganlyniad, mae'n rhannu eich barn chi, fe gredaf, sef os ydych am ddeall rhai o'r pethau cymhleth sy'n digwydd wrth ddarparu'r gwasanaethau hyn, mae'n wirioneddol bwysig trafod â'r bobl hynny sy'n ymwneud â darparu'r gwasanaethau hyn o ddydd i ddydd, a'u cynnwys yn y gwaith o hyd i ddatrysiaid.

- 15:04 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- This evening, I shall be attending a meeting at the village of Colwinston specifically on ambulance and health response times, along with your colleague sitting to your right. The simple question that will come from everyone in that room will be: when are ambulance response times going to improve? A succession of Ministers for health have spoken eloquently about their desire to improve ambulance response times, and we have had, I think, eight reviews since the Assembly was set up. Therefore, the very simple question to you, Minister, is: when will ambulance response times improve here in Wales and hit the Government's targets?
- Heno, byddaf yn mynychu cyfarfod ym mhentref Tregolwyn yn benodol ar amseroedd ymateb ambiwlansys iechyd, ynghyd â'ch cyd-Aelod sy'n eistedd ar y dde i chi. Y cwestiwn syml y bydd pawb yn ei ofyn yn yr ystafell honno fydd: pryd mae amseroedd ymateb ambiwlansys yn mynd i wella? Mae Gweinidogion iechyd niferus wedi sôn yn huawdl am eu dymuniad i wella amseroedd ymateb ambiwlansys, ac rydym wedi cael, fe gredaf, wyth adolygiad ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu. Felly, y cwestiwn syml iawn i chi, Weinidog yw: pryd y bydd amseroedd ymateb ambiwlansys yn gwella yma yng Nghymru ac yn cyrraedd targedau'r Llywodraeth?
- 15:05 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I understand the points that the Member makes about the history of difficulties in relation to the ambulance service. I can only repeat what I said to Kirsty Williams earlier. The measures that I set out yesterday include some immediate steps to bring about improvement. I want to respond to the McClelland review as rapidly as I can, within the parameters of making sure that all those who have a contribution to make in commenting on it and helping us to shape the future—including in the debate that we will hold here on 7 May—will also contribute to bringing about the necessary and important changes that we want to see so that people in Wales have the confidence, which you pointed to, of knowing that they are receiving a service that meets their needs.
- Deallaf y pwyntiau a wna'r Aelod am hanes yr anawsterau mewn perthynas â'r gwasanaeth ambiwlans. Gallaf ond ailadrodd yr hyn a ddywedodd Kirsty Williams yn gynharach. Mae'r mesurau a nodais ddoe yn cynnwys rhai camau uniongyrchol i sicrhau gwelliant. Rwyf am ymateb i adolygiad McClelland mor gyflym ag y gallaf, ond gan sicrhau y bydd pawb sydd â chyfraniad i'w wneud drwy roi sylwadau arno a'n helpu i lunio'r dyfodol—yn cynnwys yn y ddatl y byddwn yn ei chynnal yma ar 7 Mai—hefyd yn cyfrannu at sicrhau'r newidiadau angenrheidiol a phwysig rydym am eu gweld fel bod gan bobl yng Nghymru yr hyder, y gwnaethoch gyfeirio ato, o wybod eu bod yn cael gwasanaeth sy'n diwallu eu hanghenion.
- 15:06 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*
- Minister, Rhondda Cynon Taf has the worst area statistics, with 42.1% of ambulances reaching their destination within the target time. Will you now accept that, given that we are in an area with such a poor ambulance service and an area with low car-ownership, the situation could well be exacerbated by closing the local accident and emergency service at the Royal Glamorgan Hospital? You said that ambulance services are intrinsic to reconfiguration. Will you now undertake to put transport access questions at the very heart of your reconfiguration policies?
- Weinidog, Rhondda Cynon Taf sydd â'r ystadegau ardal gwaethaf, gyda 42.1% o ambiwlansys yn cyrraedd eu cyrchfan o fewn yr amser targed. A dderbyniwch yn awr, o gofio ein bod mewn ardal gyda gwasanaeth ambiwlans mor wael ac ardal lle nad oes llawer o bobl yn berchen ar gar, y gallai cau'r gwasanaeth damweiniau ac achosion brys lleol yn Ysbyty Brenhinol Mogrannwg waethygu'r sefyllfa? Dywedaso'ch fod gwasanaethau ambiwlans yn rhan annatod o ad-drefnu. A wnewch chi addo yn awr roi cwestiynau am fynediad i drafnidiaeth wrth wraidd eich polisiâu ad-drefnu?
- 15:07 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- I think that the Member makes a series of connections that are premature and in advance of the facts, and I am not able to follow her in that way. I do agree with her general final point that access arrangements, including transport, are fundamental to the reforms that we need to bring about with regard to access to services.
- Credaf fod yr Aelod yn gwneud cyfres o gysylltiadau sy'n gynamserol a chyn inni gael y ffeithiau, ac ni allaf ei dilyn yn y ffordd honno. Cytunaf â'i phwynt olaf cyffredinol fod trefniadau mynediad, gan gynnwys trafnidiaeth, yn sylfaenol i'r diwygiadau y mae angen inni eu gwneud o ran mynediad i wasanaethau.
- 15:07 **Datganiad gan y Llywydd** [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- I would like to announce the result of the legislative ballot held today. I am pleased to announce that Darren Millar may seek the Assembly's agreement to introduce a Member-proposed holiday caravan park (Wales) Bill.
- Statement by the Presiding Officer** [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Hoffwn gyhoeddi canlyniad y bleidlais ddeddfwriaethol a gynhaliwyd heddiw. Rwy'n falch o gyhoeddi y gall Darren Millar geisio cytundeb y Cynulliad i gyflwyno Bil parc carafannau gwyliau (Cymru) a gynigir gan Aelodau.

## Cynigion i Ethol Aelodau i Bwyllgorau

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on a member of the Business Committee to move the motions.

Cynnig NDM5217 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mick Antoniw (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Ken Skates (Llafur Cymru).

Cynnig NDM5218 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Christine Chapman (Llafur Cymru) a Jenny Rathbone (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Ann Jones (Llafur Cymru) a Joyce Watson (Llafur Cymru), a;

(ii) Christine Chapman (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Cynnig NDM5219 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Ann Jones (Llafur Cymru), Keith Davies (Llafur Cymru) a David Rees (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn lle Christine Chapman (Llafur Cymru), Jenny Rathbone (Llafur Cymru) a Julie Morgan (Llafur Cymru), a;

(ii) Ann Jones (Llafur Cymru) yn Gadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Cynnig NDM5220 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Sandy Mewies (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Gwyn Price (Llafur Cymru).

Cynnig NDM5221 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Julie Morgan (Llafur Cymru) a Joyce Watson (Llafur Cymru) yn aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle David Rees (Llafur Cymru) a Keith Davies (Llafur Cymru).

Cynnig NDM5222 Rosemary Butler

## Motions to Elect Members to Committees

Galwaf ar aelod o'r Pwyllgor Busnes i gyflwyno'r cynigion.

Cynnig NDM5217 Rosemary Butler

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Mick Antoniw (Welsh Labour) as a member of the Enterprise and Business Committee in place of Ken Skates (Welsh Labour).

Cynnig NDM5218 Rosemary Butler

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:

(i) Christine Chapman (Welsh Labour) and Jenny Rathbone (Welsh Labour) as members of the Communities, Equality and Local Government Committee in place of Ann Jones (Welsh Labour) and Joyce Watson (Welsh Labour), and;

(ii) Christine Chapman (Welsh Labour) as Chair of the Communities, Equality and Local Government Committee.

Cynnig NDM5219 Rosemary Butler

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects:

(i) Ann Jones (Welsh Labour), Keith Davies (Welsh Labour) and David Rees (Welsh Labour) as members of the Children and Young People Committee in place of Christine Chapman (Welsh Labour), Jenny Rathbone (Welsh Labour) and Julie Morgan (Welsh Labour), and;

(ii) Ann Jones (Welsh Labour) as Chair of the Children and Young People Committee.

Cynnig NDM5220 Rosemary Butler

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Sandy Mewies (Welsh Labour) as a member of the Public Accounts Committee in place of Gwyn Price (Welsh Labour).

Cynnig NDM5221 Rosemary Butler

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Julie Morgan (Welsh Labour) and Joyce Watson (Welsh Labour) as members of the Environment and Sustainability Committee in place of David Rees (Welsh Labour) and Keith Davies (Welsh Labour).

Cynnig NDM5222 Rosemary Butler

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Ken Skates (Llafur Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Mick Antoniw (Llafur Cymru).

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 17.14, elects Ken Skates (Welsh Labour) as a member of the Health and Social Care Committee in place of Mick Antoniw (Welsh Labour).

15:08 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
*Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business*  
I move the motions.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Cynigiau y cynnig.

15:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Unless there are any objections, I propose that the votes on the motions are grouped. I see that there are no objections. Therefore, the proposal is to agree the motions as a group. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motions are agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Oni bai bod unrhyw wrthwynebiadau, cynigiau fod y pleidleisiau ar y cynigion yn cael eu grwpio. Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Felly, y cynnig yw cytuno ar y cynigion fel grŵp. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynigion, felly, wedi'u derbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

*Derbyniwyd y cynigion.*

*Motions agreed.*

## Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Effaith Tywydd Garw

## Welsh Conservatives Debate: The Impact of Severe Weather Conditions

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.*

Cynnig NDM5211 William Graham

Motion NDM5211 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod effaith y tywydd garw diweddar ar gymunedau gwledig a busnesau yng Nghymru;
2. Yn nodi'r effaith y mae trafnidiaeth wledig a seilwaith cyfathrebu gwael wedi'u cael ar ymdrechion i fynd i'r afael ag amodau tywydd garw;
3. Yn credu bod yn rhaid i strategaeth ymateb i argyfwng Llywodraeth Cymru fod yn effeithiol wrth ymdrin â'r heriau unigryw sy'n wynebu cymunedau gwledig; a
4. Yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried cronfa galedi i gynorthwyo busnesau yr effeithiwyd arnynt gan dywydd garw.

1. Recognises the impact of the recent severe weather conditions on rural communities and businesses in Wales;
2. Notes the impact which poor rural transport and communication infrastructure has had on efforts to combat severe weather conditions;
3. Believes the Welsh Government's emergency response strategy must be effective in dealing with the unique challenges facing rural communities; and
4. Urges the Welsh Government to consider a hardship fund to support businesses affected by severe weather.

15:08 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

It is a pleasure to open the first of two Conservative debates this afternoon. This debate will focus on the plight of rural businesses in light of the very severe weather that many parts of Wales have had over the last couple of months. Indeed, it goes further back than that. Last summer, we remember the atrocious weather that many tourism operators and small businesses across the whole of Wales had inflicted upon them. The motion today cuts to two very specific issues that we believe the Welsh Government should focus upon, namely transport infrastructure and communication, and, above all, the emergency response of the Welsh Government in light of the conditions that many people have faced in rural areas. We would hope that, in this debate, the Minister will find time in his response to outline exactly what support businesses in rural areas might be able to have from the Government to alleviate some of the predicaments that they are in as a result of a loss of income and other consequences of the terrible weather that has befallen the rural business community.

We will be pleased to support the two amendments before us today. We think that they will enhance the motion. Therefore, we hope that the Government will also endorse those amendments. I can see the Minister shaking his head and saying 'no'—I would refer him back to when he was Chair of the Rural Development Sub-Committee, when he would probably have found far more sympathy with amendment 2 tabled by the Lib Dems. However, it is surprising what the Government limousine does to one's outlook, and, in particular, the Government whip.

We believe there needs to be a complete overhaul of the support that the Government has offered rural businesses to date. During the foot-and-mouth disease debacle of the early 2000s, great support was offered by the Government here and the UK Government. Business rate relief for small businesses, for example, and also more imaginative use of rural development plan money, could make a big difference over the next six to 12 months in supporting businesses that have suffered a catastrophic loss of income. When you look at some of the losses that have been highlighted on farms, there has been a loss of at least 30% to 40% of the lamb crop. You cannot replace that level of loss of income in a week, month or a six-month period—it is a 12-month loss. Therefore, some reworking of the rural development plan would enhance the ability of the agricultural industry in particular to overcome the massive losses that it has faced.

I believe that, in the European Commission last week, an amendment was approved to various regulations that offers discretion to the Minister to reallocate sums of money—if sums of money, such as those in the Glastir budget, for example, are not taken up, they can be reprioritised under the rural development plan. The Minister is looking at me with bemusement; I will quite happily pass that note to him and gladly take an intervention.

Mae'n bleser gennyf agor y gyntaf o ddwy ddafl gan y Ceidwadwyr y prynhawn yma. Bydd y ddafl hon yn canolbwyntio ar gyflwr busnesau gwledig yn sgil y tywydd garw iawn y mae llawer o rannau o Gymru wedi ei gael dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Yn wir, mae'n mynd ymhellach yn ôl na hynny. Yr haf diwethaf, rydym yn cofio'r tywydd ofnadwy a gafodd llawer o weithredwyr twristiaeth a busnesau bach ledled Cymru gyfan. Mae'r cynnig heddiw yn canolbwyntio ar ddau fater penodol iawn y credwn y dylai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio arnynt, sef seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu, ac, yn anad dim, ymateb brys Llywodraeth Cymru yng ngoleuni'r amodau y mae llawer o bobl wedi'u hwynebu mewn ardaloedd gwledig. Byddem yn gobeithio, yn y ddafl hon, y bydd y Gweinidog yn neilltuo amser yn ei ymateb i amlinellu'n union pa gymorth y gallai busnesau mewn ardaloedd gwledig ei gael gan y Llywodraeth i leddfu rhywfaint ar y trafferthion sydd ganddynt o ganlyniad i golli incwm a chanlyniadau eraill y tywydd ofnadwy y mae'r gymuned fusnes wledig wedi eu hwynebu.

Byddwn yn falch o gefnogi'r ddau welliant ger ein bron heddiw. Credwn y byddant yn gwella'r cynnig. Felly, rydym yn gobeithio y bydd y Llywodraeth hefyd yn ategu'r gwelliannau hynny. Gallaf weld y Gweinidog yn ysgwyd ei ben a dweud 'na'—byddwn yn ei gyfeirio yn ôl at y cyfnod pan oedd yn Gadeirydd yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, pan fyddai, fwy na thebyg, wedi cael llawer mwy o gydymdeimlad gyda gweliant 2 a gyflwynwyd gan y Democratiaid Rhyddfrydol. Fodd bynnag, mae'n syndod beth mae limwsin y Llywodraeth yn ei wneud i agwedd rhywun, ac, yn benodol, chwip y Llywodraeth.

Credwn fod angen ailwampio'n llwyr y gefnogaeth y mae'r Llywodraeth wedi'i chynnig i fusnesau gwledig hyd yn hyn. Yn ystod llanast clwy'r traed a'r genau ar ddechrau'r 2000au, cynigiwyd cefnogaeth wych gan y Llywodraeth yma a Llywodraeth y DU. Gallai rhyddhad ardrethi busnes ar gyfer busnesau bach, er enghraifft, a defnydd mwy creadigol o arian y cynllun datblygu gwledig, wneud gwahaniaeth mawr dros y chwe i 12 mis nesaf i gefnogi busnesau sydd wedi colli swm trychinebus o incwm. Pan fyddwch yn edrych ar rai o'r colledion y mae ffermydd wedi'u hwynebu, collwyd o leiaf 30% i 40% o'r ŵyn. Ni allwch adennill y lefel honno o incwm a gollwyd mewn wythnos, mis neu gyfnod o chwe mis—mae'n golled 12 mis. Felly, byddai ailweithio'r cynllun datblygu gwledig rywfaint yn gwella gallu'r diwydiant amaethyddol yn enwedig i oresgyn y colledion enfawr y mae wedi'u hwynebu.

Yn y Comisiwn Ewropeaidd yr wythnos diwethaf, credaf i welliant gael ei gymeradwyo i reoliadau amrywiol sy'n cynnig disgrisiwn i'r Gweinidog ailddyrrannu symiau o arian—os na ddefnyddir symiau o arian, fel y rhai yng nghyllideb Glastir, er enghraifft, gellir eu hailflaenoriaethu o dan y cynllun datblygu gwledig. Mae'r Gweinidog yn edrych arnaf yn syn; rwyf yn ddigon hapus i drosglwyddo'r nodyn hwnnw iddo a chymryd ymyriad.

15:12

**Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food*

I will clarify the situation; I would not normally intervene in this way. We are always able to make modifications to the rural development plan. The proposals published by the Commission last week are proposals, and they will now be discussed by a group of the European Council and conversations will take place with the European Parliament. They are transitional arrangements with regard to moving from this common agriculture policy into the next.

Egluraf y sefyllfa; ni fyddwn fel arfer yn ymyrryd yn y modd hwn. Rydym bob amser yn gallu gwneud addasiadau i'r cynllun datblygu gwledig. Mae'r cynigion a gyhoeddwyd gan y Comisiwn yr wythnos diwethaf yn gynigion, a chânt eu trafod yn awr gan grŵp o'r Cyngor Ewropeaidd a chynhelir sgyrsiau gyda Senedd Ewrop. Trefniadau trosiannol ydynt o ran symud o'r polisi amaethyddol cyffredin hwn i'r un nesaf.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:12

**Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful for the clarification from the Minister. However, it is our understanding, which is supported by the Research Service in the Assembly, that a regulation has been approved by the Commission that offers you greater discretion. I would be grateful if you could write to me to clarify that position, because, if there is that discretion regarding the rural development plan, it will afford you far greater opportunity to the end of 2015 to reprioritise some of that money. In particular, in the first year in which farmers in the less favoured area that makes up 80% of Wales have lost their LFA payment, I believe that the Minister needs to give serious consideration to what he needs to put in place to mitigate the losses that many in the farming community have faced.

Rwy'n ddiolchgar am yr eglurhad gan y Gweinidog. Fodd bynnag, yn ôl yr hyn a ddeallwn, a gefnogir gan y Gwasanaeth Ymchwil yn y Cynulliad, mae rheoliad wedi ei gymeradwyo gan y Comisiwn sy'n cynnig mwy o ddisgresiwn ichi. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ysgrifennu ataf i egluro'r sefyllfa honno, oherwydd, os yw'r disgrisiwn hwnnw ar gael o ran y cynllun datblygu gwledig, bydd yn rhoi mwy o gyfle o lawer ichi hyd at ddiwedd 2015 i ailflaenoriaethu rhywfaint o'r arian hwnnw. Yn arbennig, yn y flwyddyn gyntaf y mae ffermwyr yn yr ardal llai ffafriol sy'n cwmpasu 80% o Gymru wedi colli eu taliad ALFF, credaf fod angen i'r Gweinidog ystyried o ddifrif yr hyn y mae angen iddo ei roi ar waith i leddfu'r colledion y mae llawer yn y gymuned ffermio wedi eu hwynebu.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

15:13

**Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Obviously, what the Member is talking about is quite a complex procedure. The Minister recently wrote to farmers with a series of helpline numbers for them to ring to get advice from a variety of Welsh Government sources. A resourceful constituent of mine tried every one of those numbers, and only managed to talk to a real person on one of them. Would you agree that, before the Minister starts to run, we need to get the very basic levels of support right at this time?

Yn amlwg, mae'r hyn y mae'r Aelod yn sôn amdano yn weithdrefn eithaf cymhleth. Ysgrifennodd y Gweinidog yn ddiweddar at ffermwyr gyda chyfres o rifau llinell gymorth iddynt eu ffonio i gael cyngor gan amrywiaeth o ffynonellau Llywodraeth Cymru. Ffoniodd un o'm hetholwyr dyfeisgar bob un o'r rhifau hynny, a dim ond ag un person go iawn y llwyddodd i siarad. A fydech yn cytuno, cyn i'r Gweinidog ddechrau rhedeg, bod angen inni gael y lefelau sylfaenol iawn o gymorth yn iawn ar yr adeg hon?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

*Alun Davies a gododd—*

*Alun Davies rose-*

15:13

**Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, you will have your opportunity to speak in a moment.

Weinidog, cewch eich cyfle i siarad mewn munud.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)



I agree entirely with the Member's observation, because I was going to move into that point about broadband connection and communication. When you have the situation in which many rural businesses have found themselves, with the atrocious weather that they have faced, communication about what support is available and what action is being taken is critical, and broadband does not exist in many rural areas. Being able to use a telephone number provided by the authorities is a logical way of communicating. When you find that there is no-one at the end of the phone, that must be very frustrating. So, I hope that the Minister will comment on what the Government has done to ensure that there is better communication with all the organisations that provide support during an emergency situation of the type that many found themselves in over the last couple of weeks. I heard someone say that, in Wrexham, for example, they faced 36 hours of continuous snow. When you think that there were 14 ft to 15 ft snowdrifts, that is devastating for the communities affected, and yet I have not seen anything from the Government to analyse its response, along with that of local authorities and other providers of key services. I would be grateful if the Minister could identify whether he is satisfied with the response that was forthcoming at the time, or whether he believes that there needs to be changes.

I look forward to listening to the comments from the floor this afternoon. This debate is tabled in a constructive manner, to highlight that there are tools available to the Welsh Government to support rural business without raiding other departments and to highlight, in particular, many of the challenges that people have faced over the last four to six weeks. We should not forget that, if it had happened in south-east Wales, there would have been emergency statements and questions. I believe that, because it happened in the more rural areas, those statements were not forthcoming. [Interruption.] Although I accept that the Minister, to date, has provided certain written statements, there is normally a far more robust response from the Welsh Government if something affects areas in south-east Wales than if something happens in north or mid Wales.

*Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:*

*'ac yn nodi bod graddfa ac amllder tywydd garw yn debygol o gynyddu wrth i'n hinsawdd newid.'*

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Yn cydnabod bod tywydd garw wedi cael effaith anghymesur ar ffermwyr mewn Ardaloedd Llai Ffafirol, sy'n cwmpasu 80% o dir amaethyddol Cymru, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun cefnogaeth ariannol newydd ar gyfer ffermwyr mewn Ardaloedd Llai Ffafirol, a fyddai yn ei dro yn eu helpu i reoli effaith tywydd garw.*

Cytunaf yn llwyr â sylw'r Aelod, oherwydd roeddwn yn bwriadu sôn am y pwynt hwnnw ynghylch cysylltiad band eang a chyfathrebu. Pan gewch y sefylla y mae llawer o fusnesau gwledig wedi bod ynnddi, gyda'r tywydd echrudus y maent wedi ei wynebu, mae cyfathrebu am ba gymorth sydd ar gael a pha gamau sy'n cael eu cymryd yn hollbwysig, ac nid yw band eang yn bodoli mewn llawer o ardaloedd gwledig. Mae gallu defnyddio rhif ffôn a ddarperir gan yr awdurdodau yn ffordd resymegol o gyfathrebu. Pan sylweddolwch nad oes neb ar ben arall y ffôn, rhaid bod hynny'n rhwystredig iawn. Felly, gobeithio y bydd y Gweinidog yn gwneud sylwadau ar yr hyn y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud i sicrhau bod cyfathrebu gwell â'r holl sefydliadau sy'n darparu cymorth yn ystod sefyllfa argyfyngus o'r fath y mae llawer wedi'i hwynebu dros yr ychydig wythnosau diwethaf. Clywais rywun yn dweud, yn Wrecsam, er enghraifft, eu bod wedi cael 36 awr o eira parhaus. Pan feddylwch fod lluwchfeydd eira 14 i 15 trofedfedd, mae hynny'n ddinistriol i'r cymunedau yr effeithiwyd arnynt, ac eto ni welaf unrhyw beth gan y Llywodraeth i ddadansoddi ei hymateb, ynghyd ag awdurdodau lleol ac eraill sy'n darparu gwasanaethau allweddol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi a yw'n fodlon ar yr ymateb a gafwyd ar y pryd, neu a yw'n credu bod angen gwneud newidiadau.

Edrychaf ymlaen at wrando ar y sylwadau o'r llawr y prynhawn yma. Cyflwynir y ddaol hon mewn modd adeiladol, i dynnu sylw at y ffaith bod adnoddau ar gael i Lywodraeth Cymru fel y gall gefnogi busnesau gwledig heb ddwyn o adrannau eraill ac i dynnu sylw, yn benodol, at lawer o'r heriau y mae pobl wedi'u hwynebu dros y pedair i'r chwe wythnos ddiwethaf. Ni ddylem anghofio, pe bai hynny wedi digwydd yn ne-ddwyrain Cymru, y byddai datganiadau brys wedi'u gwneud a chwestiynau wedi'u gofyn. Credaf, am iddo ddigwydd yn yr ardaloedd mwy gwledig, na wnaed y datganiadau hynny. [Torri ar draws.] Er fy mod yn derbyn bod y Gweinidog, hyd yn hyn, wedi darparu rhai datganiadau ysgrifenedig, mae ymateb llawer mwy cadarn fel arfer gan Lywodraeth Cymru os bydd rhywbeth yn effeithio ar ardaloedd yn y de-ddwyrain nag os bydd rhywbeth yn digwydd yn y gogledd neu'r canolbarth.

*Insert at the end of point 1:*

*'and notes that as our climate changes the scale and frequency of severe weather conditions is likely to increase.'*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Add as new point at end of motion:*

*Recognises that the severe weather has had a disproportionate impact on farmers in Less Favoured Areas, which accounts for 80% of agricultural land in Wales, and calls on the Welsh Government to introduce a new financial support scheme for farmers in Less Favoured Areas, which in turn would help them to manage the impact of severe weather conditions.*

15:16

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts.

The last year has seen what can only be described as a perfect storm in Welsh agriculture. First, there are the crippling and continued impacts of bovine TB. Just yesterday, the bovine TB culling statistics revealed an increase in Wales of 95.4% in January 2013, compared with the same time last year. There is also the milk price, the torrential conditions of the so-called summer of 2012 and the horrific loss of life caused by the recent snowfall, which Andrew R.T. Davies has already referred to. All of this, taken together with the devastating spectre of the Welsh Government's unilateral decision to set its face against direct compensation and to reject the reinstatement of less favoured area support, has combined as a double hammer blow to the industry. Indeed, the refusal to restore LFA support effectively breaks the post-war consensus that has governed both British and European agricultural policy. It is for these reasons that I am grateful to the Welsh Conservative for tabling today's debate.

We are still some time away from being able to fully comprehend the scale of the devastation that has been caused by the blizzards of March, which devastated the UK. However, early signs are bleak, with the National Farmers Union estimating that more than 20,000 animals have died so far. Others are constantly dying as a result of the malnutrition and other diseases that they picked up at the time.

15:17

**Kenneth Skates** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for allowing me to intervene. I recognise that compensation is a question, but does he support the cuts of 10% to the common agricultural policy?

15:17

**William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member for raising that point. I refer you to your Westminster colleagues, whose recent cynical tactics have been extremely demeaning and undermining to the pro-European case that many of us in the Chamber seek to advance.

I return to the topic. In Wales, there has been a unilateral decision to think differently, with calls for direct support for these unprecedented times falling on deaf ears, some of them in this Chamber. Nonetheless, I am happy to acknowledge that the Minister's announcement last week, giving £500,000 support to a range of admirable rural charities, is welcome, as indeed was his statement yesterday on his ongoing work to assist farmers in terms of their relations with their banks in the current financial crisis. While these funds cannot be of direct assistance to the farmers who are currently paying upwards of £15 plus value added tax per dead ewe or £8 plus VAT for each bag of lambs collected, it is, nonetheless, positive that the work of these charities has been recognised and is being supported by the Welsh Government.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Cynigiau welliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld yr hyn na ellir ond ei ddisgrifio fel storm berffaith mewn amaethyddiaeth yng Nghymru. Yn gyntaf, mae effeithiau andwyol a pharhaus TB buchol. Dim ond ddoe, datgelodd yr ystadegau difa TB buchol gynnydd yng Nghymru o 95.4% ym mis Ionawr 2013, o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Ceir hefyd pris llaeth, glaw trwm iawn haf 2012, os gellir ei alw yn haf, a'r enghreifftiau erchyll o fywydau a gollwyd yn sgil yr eira diweddar, y mae Andrew R.T. Davies eisoes wedi cyfeirio atynt. Mae hyn i gyd, ynghyd â bygythiad dinistriol penderfyniad unochrog Llywodraeth Cymru i wrthwynebu iawndal uniongyrchol a gwrthod adfer cymorth i ardaloedd llai ffafrïol, wedi cyfuno i roi ergyd ddwbl i'r diwydiant. Yn wir, mae gwrthod adfer cymorth ALFF i bob diben yn torri'r consensws wedi'r rhyfel sydd wedi rheoli polisi amaethyddol Prydain ac Ewrop. Am y rhesymau hyn, rwy'n ddiolchgar i'r Ceidwadwyr Cymreig am gyflwyno'r ddatl heddiw.

Mae cryn amser eto cyn inni allu deall yn llwyr raddfa'r dinistr a achoswyd gan y stormydd eira ym mis Mawrth, a ddinistriodd y DU. Fodd bynnag, mae'r arwyddion cynnar yn llwm, ac mae Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn amcangyfrif bod mwy nag 20,000 o anifeiliaid wedi marw hyd yn hyn. Mae eraill yn marw yn gyson o ganlyniad i'r diffyg maeth a chlefydau eraill a gawsant ar y pryd.

Diolch i'r Aelod am ganiatáu imi ymyrryd. Cydnabyddaf fod iawndal yn gwestiwn, ond a yw'n cefnogi'r toriadau o 10% i'r polisi amaethyddol cyffredin?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n ddiolchgar i'r Aelod am godi'r pwynt hwnnw. Fe'ch cyfeiraf at eich cyd-Aelodau yn San Steffan, y mae eu tactegau sinigaidd yn ddiweddar wedi bod yn ddiraddiol iawn ac wedi tanseilio'r achos o blaid Ewrop y mae llawer ohonom yn y Siambr yn ceisio ei ddatblygu.

Dychwelaf at y pwnc. Yng Nghymru, gwnaed penderfyniad unochrog i feddwl yn wahanol, gyda galwadau am gymorth uniongyrchol ar gyfer y cyfnod digynsail hwn yn syrthio ar glustiau byddar, rhai ohonynt yn y Siambr hon. Serch hynny, rwy'n hapus i gydnabod bod cyhoeddiad y Gweinidog yr wythnos diwethaf, i roi £500,000 o gymorth i ystod o elusennau gwledig clodwiw, i'w groesawu, ynghyd â'i ddatganiad ddoe ar ei waith parhaus i helpu ffermwyr o ran eu cydberthnasau â'u banciau yn yr argyfwng ariannol presennol. Er na all yr arian hwn fod o gymorth uniongyrchol i'r ffermwyr sydd ar hyn o bryd yn talu hyd at £15 ynghyd â threth ar werth fesul mamog farw neu £8 ynghyd â TAW am bob bag o wŷn a gasglwyd, y mae, serch hynny, yn gadarnhaol bod gwaith yr elusennau hyn wedi cael ei gydnabod ac yn cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

It is particularly true, however, that we must not neglect the longer-term impacts in terms of mental health within the farming community. The challenges faced by farmers in the present climate have caused a great deal of stress and some of the post-traumatic aspect is still difficult to assess. I am sure that all Members will wish to join me in paying tribute to the charities that are undertaking valuable work in this area at the moment. However, such has been the magnitude of the loss that many of the fallen stock companies involved in the clean-up process have been totally overwhelmed. I have heard of waiting times of more than a week for fallen stock to be collected. Indeed, in some of the worst affected areas, collections have been carried on throughout the night in an attempt to meet the unprecedented demand. In the meantime, some farmers have simply been told to carry their lambs to the roadside and to leave carcasses there until someone can come along to pick them up. Surely such a situation is unacceptable in these times.

With all of those factors in mind, 2013 is, without doubt, the worst possible time for the Welsh Government to further cripple our upland farmers by remaining obdurate on the issue of less favoured area support. We face a situation in which Welsh farmers are presented with a substantial competitive disadvantage compared with the rest of the UK and the rest of the European Union. This is down to the decisions made in the Chamber. Sadly, it is clear that it has been left too late to build this into the current round of CAP discussions, although recent events in terms of the rural development plan may yet prove that to be unfounded. I join the Welsh farming unions in calling upon the Welsh Government to reinstate this LFA support and to do so at the earliest possible time.

Mae'n arbennig o wir, fodd bynnag, na ddylem esgeuluso'r effeithiau tymor hwy o ran iechyd meddwl yn y gymuned ffermio. Mae'r heriau a wynebir gan ffermwyr yn yr hinsawdd bresennol wedi achosi llawer iawn o straen ac mae rhywfaint o'r agwedd wedi trawma yn dal i fod yn anodd i'w hasesu. Rwy'n siŵr yr hoffai pob Aelod ymuno â mi i dalu teyrnged i'r elusennau sy'n gwneud gwaith gwerthfawr yn y maes hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cymaint fu'r golled enfawr fel bod llawer o'r cwmnïau stoc trig sy'n gysylltiedig â'r broses lanhau wedi cael eu llethu'n llwyr. Clywais am amseroedd aros o fwy nag wythnos i gasglu stoc trig. Yn wir, yn rhai o'r ardaloedd yr effeithwyd arnynt fwyaf, mae'r gwaith casglu wedi bod yn digwydd drwy gydol y nos mewn ymgais i ateb y galw digynsail. Yn y cyfamser, mae rhai ffermwyr wedi cael cyfarwyddyd i gario eu hŵyn i ymyl y ffordd a gadael y carcasau yno nes y gall rhywun ddod i'w casglu. Onid yw sefyllfa o'r fath yn annerbyniol ar yr adeg hon.

Gan gofio am yr holl ffactorau hynny, 2013, heb os, yw'r amser gwaethaf posibl i Lywodraeth Cymru ddiinstrio ymhellach ein ffermwyr ucheldir drwy barhau i fod yn ystyfnig o ran cymorth i ardaloedd llai ffafriol. Wynebwn sefyllfa lle y caiff ffermwyr Cymru eu rhoi o dan anfantais gystadleuol sylweddol o gymharu â gweddill y DU a gweddill yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn o ganlyniad i'r penderfyniadau a wnaed yn y Siambr. Yn anffodus, mae'n amlwg ei bod yn rhy hwyr i gynnwys hyn yn y cylch cyfredol o drafodaethau PAC, er y gall digwyddiadau diweddar o ran y cynllun datblygu gwledig eto brofi bod hynny'n ddi-sail. Ymunaf ag undebau ffermio Cymru wrth alw ar Lywodraeth Cymru i adfer y cymorth ALF hwn a gwneud hynny cyn gynted â phosibl.

15:21

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Last March was the coldest on record for some 50 years, and the end of the month brought with it significant snowfall, with drifts reaching tens of feet. Such heavy snow would have been fairly remarkable had it fallen in January, but for it to have fallen at the beginning of spring and to have laid on the ground for such a long period was truly exceptional, with many describing it as the worst in living memory.

The most alarming feature of this was the loss of grass, and I will explain why that is important. I apologise to those who know far more than I do about this, but for the purposes of our viewers, it might be as well to say that in the 30 years that I have kept sheep I have never seen such a loss of grass. The reasons for that are that there has been snow on the ground or it has been so dry that grass has not grown. If ewes cannot eat grass, they cannot give milk to their lambs and the lambs will die. It is quite simple, and that is why, for so many weeks, stockmen have been collecting far more tonnes of dead stock than they have for a long time, if ever.

Fis Mawrth diwethaf oedd y mis oeraf ar gofnod ers tua 50 mlynedd, ac ar ddiwedd y mis cafwyd eira trwm, gyda lluwchfeydd yn cyrraedd degau o droedfeddi. Byddai eira trwm o'r fath wedi bod yn eithaf rhyfeddol pe bai wedi cwmpo ym mis Ionawr, ond roedd ei weld yn cwmpo ar ddechrau'r gwanwyn ac aros ar lawr am gyfnod mor hir o amser yn wirioneddol rhyfeddol, gyda llawer o bobl yn ei ddisgrifio fel yr achos gwaethaf o fewn cof.

Y nodwedd fwyaf brawychus ar hyn oedd y glaswellt a gollwyd, ac egluraf pam mae hynny'n bwysig. Ymddiheuraf i'r rhai sy'n gwybod llawer mwy am hyn na mi, ond er mwyn ein gwylwyr, efallai y byddai cystal imi ddweud nad wyf, yn y 30 mlynedd ers imi gadw defaid, erioed wedi gweld cymaint o laswellt yn cael ei gollu. Y rhesymau am hyn yw fod eira wedi bod ar lawr neu ei fod wedi bod mor sych fel nad yw'r glaswellt wedi tyfu. Os na all y mamogiaid fwyta'r glaswellt, ni allant roi llaeth i'w hŵyn, a bydd yr ŵyn yn marw. Mae'n eithaf syml, a dyna pam, ers cymaint o wythnosau, y mae stocmyn wedi bod yn casglu llawer mwy o dunelli o stoc trig nag y maent wedi ei wneud ers amser hir, os erioed.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

Towards the end of 2012, NFU Cymru conducted a winter survey. A staggering 86% of the Welsh farmers surveyed reported a decrease in farm income, with very significant increases in output costs. Prices of £300 per tonne for sheep supplements are not uncommon now, if you can get it in the first place. This reduction in farm income was being reported well before this severe hit. These dire predictions were confirmed by a Welsh Government publication showing that net farm incomes last year across all farm types were forecast to drop by 41% on the previous year, while, in the less favoured area, the situation was forecast to be even worse, with net farm incomes for severely disadvantaged area cattle and sheep farms forecast to be down by 60%.

While I welcome the Minister's statement yesterday indicating that he had asked Hybu Cig Cymru to assess and consider the detailed implications of the severe weather for this year's lamb crop, the national breeding flock and the wider red meat supply chain, and to provide advice, I cannot help but feel that that is a case of too little, too late. This review will be of little comfort to those who have been devastated by the severe weather conditions. Why was the preparedness of Government not already assessed considering the poor weather throughout 2012? Why has the Government not been prepared for severe weather events? There is nothing to suggest that future poor weather trends will not continue, and they should be planned for accordingly.

The Federation of Small Businesses Wales states that 38% of businesses surveyed in Wales had seen a loss of demand. Worryingly, 31% had to close their premises and more than 10% lost access to their premises as a result of the weather. Those that closed or temporarily stopped trading lost an average of 2.2 days. Surely the Welsh Government needs to pledge further support to support our small and medium-sized enterprises, the lifeblood of the Welsh economy. More than half of UK small firms have been impacted financially by the recent prolonged cold weather, costing them over £174 million. On average, each business lost in the region of £1,500. If we look at that in terms of lamb prices in Wales, we will see that a ewe is selling at between £50 and £85, and if you are selling couples, namely a ewe and a lamb, they are selling at perhaps £100. Therefore, you can see how the loss of a dozen sheep makes an enormous difference on a relatively small budget. If we lose these shepherds, who have enormous implications for our landscape in Wales, our landscape will change forever and our tourism will suffer accordingly.

The severe weather has coincided with the first year in which there has been no dedicated LFA support payment in the form of Tir Mynydd. The extremely difficult conditions experienced this year and last year illustrate clearly the additional difficulties faced by Wales's farmers operating in the uplands and the continuing need for Government recognition of the challenges that they face.

Tua diwedd 2012, cynhaliodd Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru arolwg y gaeaf. Gwnaeth 86% o ffermwyr Cymru, sy'n ganran ryfeddol, nodi lleihad yn incwm eu fferm, gyda chynnydd sylweddol iawn o ran costau allbwn. Nid yw prisiau o £300 y dunnell o atchwaniadau defaid yn anghyffredin mwyach, os gallwch eu cael yn y lle cyntaf. Cafodd y lleihad hwn mewn incwm ffermydd ei gofnodi ymhell cyn yr ergyd ddirifol hon. Cadarnhawyd y rhagfyniadau ofnadwy hyn gan gyhoeddiad Llywodraeth Cymru yn dangos bod disgwyl i incwm ffermydd net y llynedd ar gyfer pob math o fferm ostwng 41% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, tra bod disgwyl i'r sefyllfa yn yr ardal lai ffafriol, fod hyd yn oed yn waeth, lle y rhagwelwyd y byddai incwm ffermydd net ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid mewn ardaloedd dan anfantais fawr yn gostwng 60%.

Er fy mod yn croesawu datganiad y Gweinidog ddoe yn nodi ei fod wedi gofyn i Hybu Cig Cymru asesu ac ystyried goblygiadau manwl y tywydd garw ar gyfer nifer yr ŵyn a gaiff eu geni eleni, y ddiadell fagu genedlaethol a'r gadwyn cyflenwi cig coch ehangach, a rhoi cyngor, ni allaf ond teimlo bod hyn yn achos o rhy ychydig, yn rhy hwyr. Ni fydd yr adolygiad hwn yn fawr o gysur i'r rhai sydd wedi cael eu dinistrio gan y tywydd garw. Pam nad oedd parodrwydd y Llywodraeth eisoes wedi'i asesu o ystyried y tywydd gwael drwy gydol 2012? Pam nad yw'r Llywodraeth wedi bod yn barod ar gyfer digwyddiadau tywydd garw? Nid oes dim i awgrymu na fydd tueddiadau tywydd gwael yn y dyfodol yn parhau, ac felly dylid cynllunio ar eu cyfer.

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn nodi bod 38% o'r busnesau a arolygwyd yng Nghymru wedi gweld colled o ran y galw. Roedd 31% wedi gorfod cau eu safe, ac roedd mwy na 10% wedi colli mynediad i'w safle o ganlyniad i'r tywydd, ac mae hynny'n peri pryder. Gwnaeth y rhai a gaeodd neu a roddodd y gorau dros dro i fasnachu golli 2.2 diwrnod ar gyfartaledd. Oni ddylai Llywodraeth Cymru addo rhoi cymorth pellach i gefnogi ein mentrau bach a chanolig eu maint, sef enaid economi Cymru. Mae'r tywydd oer estynedig diweddar wedi effeithio'n ariannol ar fwy na hanner cwmnïau bach y DU, ac wedi costio dros £174 miliwn iddynt. Ar gyfartaledd, collodd pob busnes oddeutu £1,500. Os edrychwn ar hynny o ran prisiau ŵyn yng Nghymru, gwelwn fod mamog yn gwerthu am bris sydd rhwng £50 ac £85, ac os ydych yn gwerthu cyplau, sef mamog ac oen, maent yn gwerthu am £100 efallai. Felly, gallwch weld sut mae colli dwsin o ddefaid yn gwneud gwahaniaeth enfawr ar gyllideb gymharol fach. Os collwn y bugeiliaid hyn, sydd â goblygiadau enfawr i'n tirwedd yng Nghymru, bydd ein tirwedd yn newid am byth a bydd ein twristiaeth yn dioddef yn unol â hynny.

Mae'r tywydd garw wedi cyd-daro â'r flwyddyn gyntaf lle na chafwyd unrhyw daliad cymorth ALFF penodedig ar ffurf Tir Mynydd. Mae'r amodau anodd iawn a gafwyd eleni a'r llynedd yn dangos yn glir yr anawsterau ychwanegol a wynebir gan ffermwyr Cymru sy'n gweithio ar yr ucheldir a'r angen parhaus i Lywodraeth gydnabod yr heriau a wynebant.

Farmers have suffered a double injustice, being let down by the Welsh Government at every turn. The take-up of the new Glastir has been quite simply a failure and highlights the Welsh Government's refusal to recognise the difficulties and constraints associated with farming in the hills and uplands of Wales.

Our upland farmers will be clearly disadvantaged given that Wales will shortly be alone within the UK and much of the rest of Europe in no longer having a dedicated LFA support scheme to compensate for their particular hardships and challenges. It took the Welsh Government over a month to provide the necessary assistance. One can look at Northern Ireland as a good example of the way to deal with weather conditions. Indeed, The Northern Irish Government has provided an aid package worth £5 million, including a hardship fund to help those worst affected by bad weather. Moreover, instead of introducing stringent schemes such as the Welsh Glastir, they have a hardship fund to specifically help those farmers in need. The agriculture industry in Wales is deserving of much better support from the Welsh Government.

Mae ffermwyr wedi dioddef anghyfiawnder dwbl, ac mae Llywodraeth Cymru wedi eu siomi bob tro. Mae nifer y ffermwyr sydd wedi manteisio ar y Glastir newydd wedi bod yn fethiant llwyr ac mae'n amlgu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn gwrthod cydnabod yr anawsterau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â ffermio ar fryniau ac ucheldir Cymru.

Bydd ein ffermwyr mynydd yn amlwg o dan anfantais o ystyried y bydd Cymru yn fuan ar ei phen ei hun yn y DU ac na fydd gan lawer o weddill Ewrop mwyach gynllun cymorth ALFF penodedig i wneud iawn am eu caledi a'u heriau penodol. Cymerodd dros fis i Lywodraeth Cymru ddarparu'r cymorth angenrheidiol. Mae Gogledd Iwerddon yn enghraifft dda o'r ffordd o ddelio â'r tywydd. Yn wir, mae Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi darparu pecyn cymorth gwerth £5 miliwn, gan gynnwys cronfa galedi er mwyn helpu'r rhai y mae tywydd gwael yn effeithio fwyaf arnynt. At hynny, yn hytrach na chyflwyno cynlluniau llym megis Glastir Cymru, mae ganddynt gronfa galedi i helpu'r ffermwyr hynny sydd mewn angen yn benodol. Mae'r diwydiant amaeth yng Nghymru yn haeddu llawer gwell cymorth gan Lywodraeth Cymru.

15:25 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolchaf i'r brif wrthblaid yn y Siambr am gynnal y ddadl hon heddiw, sydd yn rhoi cyfle i ni adlewyrchu'r teimladau difrifol sydd wedi dangos eu hunain yn yr ardaloedd gwledig ac yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan y tywydd a oedd gyda'r rhyfedd i mi erioed ei brofi, fel un sydd wedi byw yn Eryri y rhan fwyaf o'i oes. Mae'n rhaid imi anghytuno ag un mater a godwyd gan arweinydd yr wrthblaid, sef yr honiad y byddai ymateb y Llywodraeth wedi bod yn wahanol pe byddai hyn wedi digwydd yn ne-ddwyrain Cymru. Mae hyn, os nad yw'n sylweddoli, yn taflu rhyw fath o sen ar bob un ohonom fel Aelodau Cynulliad o'r canolbarth a'r gogledd, gan gynnwys ei blaid ei hun, sydd wedi treulio oriau, fel y dylen fod wedi'i wneud, yn ystod yr argyfwng hwn yn cyfathrebu gyda'r Gweinidog ym mhob ffordd a chyfathrebu ag amaethwyr yr effeithiwyd arnynt. Felly, byddwn yn gofyn iddo ystyried ymhellach cyn gwneud unrhyw osodiadau o'r fath. [Torri ar draws.]

Yes, of course I will give way.

I thank the main opposition party in the Chamber for tabling this debate today, giving us an opportunity to reflect the serious problems that have emerged in rural areas and in those areas affected by some of the strangest weather conditions that I have ever experienced, as one who has lived in Snowdonia for most of his life. I must disagree on one issue raised by the leader of the opposition, namely the claim that if this had happened in south-east Wales that the Government's response would have been very different. This, if he does not realise, is an insult to us all as Assembly Members in mid and west Wales, including those Members from his own party who have spent many hours, as we should have done, during this crisis communicating with the Minister in all ways possible and communicating with those farmers who were affected. Therefore, I would ask him to consider further before making such statements. [Interruption.]

Wrth gwrs fe ildiaf.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:27 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am quite happy to respond to what the Member has said. It has been put to me by many of my farming colleagues in mid and north Wales that they believe that, if it had happened in south-east Wales, there would have been a different response. I was merely conveying those responses. I make no criticism of Members lobbying on behalf of their constituents. They have done that ferociously from both sides of the Chamber, and that is acknowledged.

Rwyf yn eithaf hapus i ymateb i'r hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud. Mae llawer o'm cydweithwyr ffermio yn y canolbarth a'r gogledd wedi dweud wrthyf eu bod yn credu, pe bai hyn wedi digwydd yn y de-ddwyrain, y byddai'r ymateb wedi bod yn wahanol. Roeddwn ond yn cyfleu'r ymatebion hynny. Nid wyf yn beirniadu'r Aelodau am lobio ar ran eu hetholwyr. Maent wedi gwneud hynny yn ffyrnig o ddwy ochr y Siambr, a chydnybuddir hynny.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

15:27 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that that improves the situation a bit. In the same spirit as I address the Minister, 'Keep going and keep improving'. [Laughter.]

Credaf fod hynny'n gwella'r sefyllfa ychydig. Yn yr un ysbryd ag yr wyf yn annerch y Gweinidog, 'Cadwch i fynd a chadwch i wella'. [Chwerthin.]

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

At the same time, we recognise that the scale of these schemes and the international nature of the marketplace are such that it is essential that we work with the UK Government. Wales is represented on the UK nuclear council and we have a high profile as a substantial inward-investment location. As a Government, we are also mindful of the R&D opportunities, and we are entering into a joint venture with Bangor University for a science park. It is right to say that the lead time for these developments is long, with nuclear generation expected to commence in the mid-2020s. Horizon has just embarked upon the regulatory approval process for its advanced boiling water reactor technology, which will take up to four years. That is critically important in determining the financial viability of these multibillion-pound schemes, as evidenced by the current negotiations between DECC and EDF for the strike price, as it is described, for electricity generated by the new Hinkley C nuclear power station.

In the meantime, I am pleased to learn of the proposal from Magnox to extend the life of Wylfa until late 2014, followed by defueling and decommissioning. This will offer opportunities for a seamless join of people and businesses transferring their expertise from Trawsfynydd and securing jobs at the Wylfa sites. That is a point that has already been made by Ieuan, the Member for Ynys Môn. As Members will be aware, Trawsfynydd also has enterprise zone status.

Gan adeiladu ar yr ethos sy'n sail i ffurfio Cyfoeth Naturiol Cymru i reoli ein hadnoddau naturiol yn well a helpu i wneud y penderfyniadau gorau ar gyfer buddsoddi, gwyddom fod yr Ynys Ynni yn allweddol i hwyluso'r lefel honno o wneud penderfyniadau. Mae gweithdai cynllunio a thrwyddedu ar waith i sicrhau bod pawb yn ymwybodol o gerrig milltir allweddol a chyfleoedd ar gyfer cydweithio. Mae'r buddsoddiad a wnaethom, er enghraifft, mewn canolfannau adeiladu ac ynni o'r radd flaenaf yng Ngholeg Menai—yn rhannol wedi'u hanelu at y cyfleoedd y rydd Wylfa B—eisoës yn dwyn ffrwyth gyda 70 o bobl ifanc eisoës wedi'u recriwtio gan Gwmni Prentis Menai, y mae'r Aelod, Ieuan Wyn Jones, eisoës wedi'i grybwyll, gyda charfan fwy yn cofrestru ym mis Medi eleni.

Rydym yn mynd ati i fanteisio ar y cyfleoedd ariannu a gyflwynir gan y cylch nesaf o gronfeydd strwythurol Ewropeaidd drwy WEFO gyda'r bwriad o lunio cyfres integredig o brosiectau ar gyfer y rhaglen Ynys Ynni, gyda'r bwriad o ddechrau eu rhoi ar waith ar ddechrau'r rhaglen yn 2014. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r buddsoddiad seilwaith a roddwyd ar waith mewn perthynas â Cyflymu Cymru. Mae'r Gweinidog hefyd wedi rhan-ariannu astudiaeth o brif gynllun ar gyfer Porthladd Caergybi, a fydd yn cynnwys cyfleusterau posibl ar gyfer gweithrediadau a chynnal a chadw ffermydd gwynt ar y môr. Arweinir y datblygiadau yn Ynys Môn gan y sector preifat. Rydym yn buddsoddi er mwyn sicrhau bod pobl, busnesau a seilwaith yn ein galluogi i fod yn gystaddeuol er mwyn sicrhau cyfleoedd cyflogaeth a chyrchu o'r prosiectau hynny. Yn wir, bydd Horizon yn cynnal y cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau cadwyn gyflenwi yn Llandudno ar 21 Mai.

Ar yr un pryd, rydym yn cydnabod bod maint y cynlluniau hyn a natur ryngwladol y farchnad yn golygu ei bod yn hanfodol ein bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU. Mae Cymru yn cael ei chynrychioli ar gyngor niwclear y DU ac mae gennym broffil uchel fel lleoliad mewnffuddsoddi o bwys. Fel Llywodraeth, rydym hefyd yn ymwybodol o'r cyfleoedd ymchwil a datblygu, ac rydym yn ymrwymo i fenter ar y cyd â Phrifysgol Bangor ar gyfer parc gwyddoniaeth. Mae'n briodol dweud bod yr amseroedd paratoi ar gyfer y datblygiadau hyn yn hir, gyda'r disgwyliad y bydd cynhyrchu niwclear yn dechrau ganol y 2020au. Mae Horizon newydd gychwyn ar y broses gymeradwyo reoleiddiol ar gyfer technoleg ei adweithydd dŵr berw uwch, a fydd yn cymryd hyd at bedair blynedd. Mae hynny'n hanfodol bwysig o ran pennu hyfywedd ariannol y cynlluniau hyn gwerth biliynau o bunnau, fel y dangosir gan y trafodaethau cyfredol rhwng yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd ac EDF am y pris taro, fel y'i gelwir, am drydan a gynhyrchir gan orsaf ynni niwclear newydd Hinkley C.

Yn y cyfamser, rwy'n falch o glywed am y cynnig gan Magnox i ymestyn oes Wylfa tan ddiwedd 2014, ac wedyn bydd prosesau tynnu'r tanwydd a datgomisio. Bydd hyn yn cynnig cyfleoedd ar gyfer llif ddi-dor o bobl a busnesau yn trosglwyddo eu harbenigedd o Drawsfnnydd a sicrhau swyddi yn safleoedd yr Wylfa. Mae hwnnw'n bwynt sydd eisoës wedi ei wneud gan Ieuan, yr Aelod dros Ynys Môn. Fel y gŵyr yr Aelodau, mae gan Drawsfnnydd hefyd statws ardal fenter.

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I note the time, therefore I will come to a conclusion now, Dirprwy Lywydd. We cannot avoid the fact that all of the new generation schemes in Anglesey will need to connect to the district or national grid electricity transmission networks. It is unavoidable that there will be new transmission networks in place to take the energy out of the island. National Grid plc. recently undertook its initial public consultation on a new line from Wylfa to Pentir in order to accommodate these connections and will be publishing the feedback report this summer. It is important that we seek community benefits, as many Members have already mentioned. I will conclude by saying that the Government will be endorsing the motion and supporting the amendments if there is a vote.

Nodaf yr amser, felly dechreuaf gloi yn awr, Ddirprwy Lywydd. Ni allwn osgoi'r ffaith y bydd angen i bob un o'r cynlluniau cynhyrchu newydd yn Ynys Môn gysylltu â'r rhwydweithiau trawsyrru trydan grid dosbarthol neu genedlaethol. Mae'n anochel y bydd rhwydweithiau trawsyrru newydd ar waith i drosglwyddo'r ynny o'r ynys. Yn ddiweddar, cynhaliodd National Grid plc ei ymgynghoriad cyhoeddus cychwynol ar linell newydd o'r Wylfa i Bentir er mwyn darparu ar gyfer y cysylltiadau hyn, a bydd yn cyhoeddi'r adroddiad adborth yr haf hwn. Mae'n bwysig ein bod yn ceisio manteision cymunedol, fel y soniodd llawer o Aelodau eisoes. Rwyf am gloi drwy ddweud y bydd y Llywodraeth yn cefnogi'r cynnig ac yn cefnogi'r gwelliannau os oes pleidlais.

## Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Angela Burns to reply to the debate.

Galwaf ar Angela Burns i ymateb i'r ddatblygu.

Well, is Wales open for business? The First Minister seems to think that it is. However, when the Environment and Sustainability Committee did its outstanding inquiry, headed by the Lord, on energy planning, which was published in June 2012, a substantial number of the responses made it very clear that they were not so convinced that Wales was open for business as regards energy development. There were over 300 pieces of written evidence and over 70 recommendations, yet here we are today, a good year or more on, and there has been very little progress in relation to implementation. That is extremely sad, because if you look at a couple of key areas within Wales—and today we are focusing on Ynys Môn—there is absolutely the potential to become a centre of excellence for energy development. There are things that it will need: some deep-water anchorages, and land-based deployment as well as sea-based deployment. That great company, Hitachi, is leading the way. Its investment will help to offset, as the Member for Ynys Môn said, the rather fragile economy of the island, and it will help to develop that and offer the people of the island a more secure future. However, where they go we need others to follow, and I ask you, will they? Let me just give you a couple of quotes. The head of development at Nuon Renewables says:

Wel, a yw Cymru ar agor i fusnes? Ymddengys fod y Prif Weinidog yn credu hynny. Fodd bynnag, pan gynhaliodd y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ei ymchwiliad rhagorol, o dan arweiniad yr Arglwydd, ar gynllunio ynny, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012, roedd nifer sylweddol o'r ymatebion yn ei gwneud yn glir iawn nad oeddent yn argyhoeddedig bod Cymru ar agor i fusnes o ran datblygu ynny. Cafwyd dros 300 o ddarnau o dystiolaeth ysgrifenedig a thros 70 o argymhellion, ac eto dyma ni heddiw, flwyddyn gron neu fwy yn ddiweddarach, ac ychydig iawn o gynnydd mewn perthynas â gweithredu sydd wedi bod. Mae hynny'n hynod drist, oherwydd os ydych yn edrych ar un neu ddau faes allweddol yng Nghymru—a heddiw rydym yn canolbwyntio ar Ynys Môn—ceir potensial yn sicr i fod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer datblygu ynny. Mae pethau y bydd eu hangen arni: rhai angorfeydd dŵr dwfn, a defnydd ar y tir yn ogystal â defnydd ar y môr. Mae'r cwmni gwych hwnnw, Hitachi, yn arwain y ffordd. Bydd ei fuddsoddiad yn helpu i wrthbwyso economi'r ynys sydd braidd yn fregus, fel y dywedodd yr Aelod dros Ynys Môn, a bydd yn helpu i ddatblygu hynny a chynig dyfodol mwy diogel i bobl yr ynys. Fodd bynnag, ble bynnag mae'n mynd, mae angen i eraill eu dilyn, a gofynnaf ichi, a wnânt hynny? Gadewch imi roi ychydig o ddyfyniadau ichi. Dywed pennaeth datblygu Nuon Renewables:

'there is a large difference between what the ambition was and what the reality was. Industry is aware that the Welsh Government has provided a framework but has never backed it up with real initiatives to actually get the thing moving on the ground'.

mae gwahaniaeth mawr rhwng yr uchelgais a'r gwirionedd. Mae'r diwydiant yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi darparu fframwaith ond nid yw erioed wedi'i ategu gan gynlluniau go iawn i fwrw ymlaen â'r peth ar lawr gwlad.

What about the director of the South Wales Chamber of Commerce, speaking about the planning process for energy projects? He has said that 'business is now global'—indeed, the First Minister referred to that—and that we need to

Beth am gyfarwyddwr Siambr Fasnach De Cymru, yn sôn am y broses gynllunio ar gyfer prosiectau ynny? Mae wedi dweud bod 'byd busnes yn fyd-eang bellach'—yn wir, cyfeiriodd y Prif Weinidog at hynny—a bod angen inni

'move faster. When you are dealing with international companies and investment, that ability is critical. The business community finds the process like walking through treacle'.

symud yn gynt. Pan fyddwch yn delio â chwmnïau rhyngwladol a buddsoddi, mae'r gallu hwnnw yn hollbwysig. I'r gymuned fusnes mae'r broses fel cerdded trwy driog.

We have to be very careful that we do not fall for false dawns. There has been great excitement recently about the potential of gas on Ynys Môn, and yet we only need look as far as Milford Haven, where, just a couple of days ago, the port authority announced a substantial drop in profits. This mainly comes about because there are fewer gas carriers coming into Milford Haven. Ken Skates, I am going to single you out as somebody who has made an outstanding contribution to today's debate. You went off-message slightly when you said that the Welsh Government had taken action, because I do not agree with that, but you clearly identified the fact that we are too reliant on countries sending their fossil fuels to us. We need to develop how we move forward. Is it not crazy? With the natural resources of Ynys Môn we could have a sound dawn with a bright future and not these false dawns. There is an abundance of natural resources, and not just on the island, but throughout Wales. These resources are open to investment opportunities, and I believe that the Member for the island mentioned some of them in some detail, such as the tidal stream array; there are a great many possibilities.

However, as Russell George says, what we need is a clear, strategic plan of action, and that is what we are not sure that we have. Again, the Member for Ynys Môn mentioned the fact that we had to make sure that, whatever investments we have—how we identify them and how we make them stack up—the local people really benefit from them. My colleague the Member for Preseli Pembrokeshire and I have a huge amount of experience in this area because Pembrokeshire has had a number of substantial investments, and the local people have not always seen the benefits. It is important that we make sure that that happens.

I welcome the Liberal Democrat amendment. It is absolutely sound and we have no argument with it whatsoever. I did smile slightly to myself when Ieuan Wyn Jones called one of our interventions political, because I have to tell Plaid Cymru that its first amendment is nothing but political. We will not be taking any notice of that. We will abstain on amendment 3 because we, too, call for devolution, but not wholesale devolution, as in your amendment. We cannot support amendment 2 simply because it is pretty meaningless. We have a problem with enterprise zones that are not effectively doing what they should be doing. It has taken far too long to set them up.

Rhaid inni fod yn ofalus iawn nad ydym yn cael ein twyllu gan wawr ffug. Bu cyffro mawr yn ddiweddar am y posibilrwydd o nwy ar Ynys Môn, ond eto dim ond edrych ar sefyllfa Aberdaugleddau sydd angen ei wneud, lle y cyhoeddodd awdurdod y porthladd, ddim ond ychydig ddiwrnodau yn ôl, ostyngiad sylweddol mewn elw, a hynny'n bennaf am fod llai o longau cludo nwy yn defnyddio Aberdaugleddau. Ken Skates, rwyf am eich enwi'n benodol fel rhywun a wnaeth gyfraniad eithriadol at y ddadl heddiw. Aethoch oddi ar y neges ychydig pan ddywedasoich fod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau, gan nad wyf yn cytuno â hynny, ond nodwyd yn glir gennyhych y ffaith ein bod yn rhy ddibynnol ar wledydd sy'n anfon eu tanwyddau ffosil atom. Mae angen inni ddatblygu sut rydym yn symud yn ein blaen. Onid yw'n wallgof? Gydag adnoddau naturiol Ynys Môn gallem weld gwawr wirioneddol gyda dyfodol disglair ac nid y gwawriau ffug hyn. Ceir digonedd o adnoddau naturiol, ac nid dim ond ar yr ynys, ond ledled Cymru. Mae'r adnoddau hyn yn agored i gyfleoedd buddsoddi, a chredaf i'r Aelod dros yr ynys sôn am rai ohonynt yn eithaf manwl, megis y rhesiad ffrwd lanwol; mae nifer fawr o bosibiliadau.

Fodd bynnag, fel y dywed Russell George, yr hyn sydd ei angen arnom yw cynllun gweithredu strategol a chliir, a dyna'r hyn nad ydym yn sicr a oes gennym. Unwaith eto, soniodd yr Aelod dros Ynys Môn am y ffaith bod yn rhaid inni wneud yn siŵr, pa fuddsoddiadau bynnag sydd gennym—sut rydym yn eu hadnabod a sut rydym yn sicrhau eu bod yn dwyn ffrwyth—mai pobl leol sy'n cael budd ohonynt. Mae gan fy nghyd-Aelod, yr Aelod dros Breseli Sir Benfro, a minnau gryn brofiad yn y maes hwn am fod Sir Benfro wedi cael nifer o fuddsoddiadau sylweddol, ac nid yw'r bobl leol bob amser wedi gweld y manteision. Mae'n bwysig ein bod yn sicrhau bod hynny'n digwydd.

Croesawaf welliant y Democratiaid Rhyddfrydol. Mae'n gadarn ac nid ydym yn anghytuno ag ef o gwbl. Cilwenais pan ddywedodd Ieuan Wyn Jones fod un o'n hymyriadau'n wleidyddol, oherwydd rhaid imi ddweud wrth Blaid Cymru fod ei gwelliant cyntaf yn gwbl wleidyddol. Ni roddwn unrhyw sylw i hynny. Byddwn yn ymatal ar welliant 3 gan ein bod ninnau hefyd yn galw am ddatganoli, ond nid datganoli llwyr, fel eich gwelliant. Ni allwn gefnogi gwelliant 2 yn syml am ei fod yn eithaf diystyr. Mae gennym broblem gydag ardaloedd menter nad ydynt yn llwyddo i wneud yr hyn y dylent fod yn ei wneud. Mae wedi cymryd llawer gormod o amser i'w sefydlu.

16:55	<b>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>I will just talk about a couple of the zones that have been established in England. They have been continually ahead of their Welsh counterparts, and they have clear incentive plans and detailed information about what will be offered to companies. The best comparison is the enterprise zone in Great Yarmouth, which is focused on the energy sector and not only offers business rate relief, superfast broadband and a simplified planning regime, but also comes with a whole package of support, which is really important. It has complementary facilities and there is a dedicated energy industry association—we could go on. The point is this: they know what they want and they have gone out to get it, and that is what we need to do. Also, Plaid Cymru, I share Ken Skate's confusion. I eat bacon, but I am not a vegetarian. I would look at any sensible renewable energy project, and when we are talking about what is sensible, we have to look at TAN 8. Let us be clear: this is the technical briefing document from the Welsh Government. It is about 12 pages long, eight of which talk about wind energy. Come on, we are surrounded by water. We have so much potential here in Wales. We have hydro projects that could be put inland. I will most certainly give way to the Lord. [Laughter.]</p>	<p>Soniaf am un neu ddwy o'r ardaloedd a sefydlwyd yn Lloegr. Maent bob amser wedi bod ar y blaen o'u cymharu â'r ardaloedd menter cyfatebol yng Nghymru, ac mae ganddynt gynlluniau cymhellion clir a gwybodaeth fanwl am yr hyn a gynigir i gwmnïau. Y gymhariaeth orau yw'r ardal fenter yn Great Yarmouth, sy'n canolbwyntio ar y sector ynni ac sydd nid yn unig yn cynnig rhyddhad ardrethi busnes, band eang cyflym iawn a threfn gynllunio syml, ond mae hefyd yn cynnig pecyn cymorth cyfan sy'n bwysig iawn. Mae ganddi gyfleusterau cyflenwol ac mae cymdeithas diwydiant ynni benodol—gallwn fynd ymlaen ac ymlaen. Y pwynt yw hyn: eu bod yn gwybod beth maent am ei wneud ac maent wedi mynd ati i'w wneud, a dyna'r hyn sydd angen ei wneud. Hefyd, Blaid Cymru, rwy'n rhannu dryswch Ken Skate. Rwy'n bwyta cig moch, ond nid wyf yn llysieuwr. Byddwn yn edrych ar unrhyw brosiect ynni adnewyddadwy synhwyrol, ac os ydym yn sôn am yr hyn sy'n synhwyrol, rhaid inni edrych ar TAN 8. Gadewch inni fod yn glir: dogfen frifio dechnegol gan Lywodraeth Cymru yw hon. Mae'n cynnwys 12 tudalen, y mae wyth ohonynt yn sôn am ynni'r gwynt. Dewch ymlaen, rydym wedi ein hamgylchynu gan ddŵr. Mae gennym gymaint o botensial yma yng Nghymru. Mae gennym brosiectau trydan dŵr y gellid eu sefydlu'n fewndirol. Ildiaf yn sicr i'r Arglwydd. [Chwerthin.]</p>
16:56	<b>Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>He may be a peer, but he is not that Lord. [Laughter.]</p> <p>Thank you, Deputy Presiding Officer. I am not a peer when I am here.</p>	<p>Efallai ei fod yn arglwydd, ond nid yr Arglwydd ydyw. [Chwerthin.]</p> <p>Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Nid arglwydd ydwyf pan fyddaf yma.</p>
16:56	<b>Angela Burns</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Will you accept, Angela, that none of the developers that came to us in evidence on this matter asked for TAN 8 to be removed?</p>	<p>A wnewch chi dderbyn, Angela, nad oedd yr un o'r datblygwyr a gyflwynodd dystiolaeth inni ar y mater hwn wedi dogfyn am ddileu TAN 8?</p>
16:56	<b>Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>I read a small briefing section that was sent out from the Research Service, which had some of the consultation responses. The bits I read talked of TAN 8 and companies that wanted to develop wind energy, such as RWE, and they were talking about the fact that they found it very difficult to get the process going.</p>	<p>Darllenais o ddarn briffio bach a anfonwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil, a oedd yn cynnwys rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd y darnau a ddarllenais yn sôn am TAN 8 a chwmnïau a oedd yn awyddus i ddatblygu ynni'r gwynt, fel RWE, ac roeddent yn sôn am y ffaith eu bod yn ei chael hi'n anodd iawn i gael y broses ar waith.</p>
16:56	<b>Angela Burns</b> <a href="#">Bywgraffiad</a> <a href="#">Biography</a>	<a href="#">Senedd.tv</a> <a href="#">Fideo Video</a>
	<p>Well, yes, that is because of planning permission.</p> <p>We need to look at TAN 8 and we need far greater clarity for businesses that want to come here to put together energy opportunities, whether it is nuclear, fracking, onshore or offshore wind energy, marine energy, or whether we use the rivers and streams of our beautiful country to develop excellent hydro projects that can serve their local communities. This is a mix, and we have to look at that mix in its entirety.</p>	<p>Wel, ie, mae hynny oherwydd caniatâd cynllunio.</p> <p>Mae angen inni edrych ar TAN 8 ac mae angen llawer mwy o eglurder i fusnesau sydd am ddod yma i lunio cyfleoedd ynni, boed hynny'n ynni niwclear, ffracio, ynni'r gwynt ar y tir neu ar y môr, ynni'r môr, neu a ydym yn defnyddio afonydd a nentydd ein gwlad brydferth i ddatblygu prosiectau trydan dŵr rhagorol a all wasanaethu eu cymunedau lleol. Mae hyn yn gymysgedd, a rhaid inni edrych ar y cymysgedd yn ei gyfanrwydd.</p>

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We often talk about Scotland and what Scotland is doing. I will quickly allude to Orkney. If any of you have a spare nanosecond, go to Google, hit Orkney, and look at the green energy isle of Scotland and look at the commitment and the effort that it is putting into making that place an energy hub. That is what we could do with Ynys Môn and that is what we could do with Wales. We talk about a green economy. You, the Government, and you, First Minister, need to put all your energy behind it in order to make it work here, because we will lose it. Everybody else is getting in on the game, and we will be a Johnny-come-lately.

Rydym yn aml yn cyfeirio at yr Alban a'r hyn y mae'r Alban yn ei wneud. Cyfeiriau yn gyflym at Ynsoedd Erch. Os bydd eiliad sbâr gan unrhyw un ohonoch, ewch i chwilio am Ynsoedd Erch ar Google ac edrychwch ar ynys ynni gwyrdd yr Alban ac ar yr ymrwymiad a'r ymdrech a wneir i sicrhau bod y lle yn ganolfan ynni. Dyna'r hyn y gallem ei wneud gydag Ynys Môn a dyna'r hyn y gallem ei wneud gyda Chymru. Rydym yn sôn am economi werdd. Mae angen i chi, y Llywodraeth, a chi, Brif Weinidog, ymroi'n llwyr i hynny er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddo yma, gan y byddwn yn colli ein cyfle. Mae pawb arall yn bwrw ati, ac ni fydd yr olaf.

*The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object. I see that there is objection. Therefore, I defer voting under this item until voting time.*

*Y cynnig yw y dylid cytuno ar y cynnig heb ei ddiwygio. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y bleidlais ar y cynnig hwn tan y cyfnod pleidleisio.*

## Dadl Plaid Cymru: Anghydraddoldeb ar Sail Rhyw

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

Detolwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham, a gwelliant 6 yn enw Aled Roberts.

Cynnig NDM5213 Jocelyn Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

## Plaid Cymru Debate: Gender Inequality

*Voting deferred until voting time.*

The following amendments have been selected: amendments 1, 2, 3, 4 and 5 in the name of William Graham, and amendment 6 in the name of Aled Roberts.

Motion NDM5213 Jocelyn Davies

To propose that the National Assembly for Wales:

## Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Yn gresynu'n ddifrifus at anghydraddoldeb ar sail rhyw a'i fwch cyflog parhaol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth tymor hir i fynd i'r afael â stereoteipio o ran rhyw.

Deplores gender inequality and its persistent pay gap and calls on the Welsh Government to develop a long term strategy to tackle gender stereotyping.

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Today is an appropriate day to discuss the role of gender in the workplace as it follows the launch of the Chwarae Teg report 'A Woman's Place', which took place earlier today in the Pierhead building. I would recommend that Members to read that report, if they have not done so already.

Mae heddiw yn ddiwrnod priodol i drafod rôl y rhywiau yn y gweithle gan ei fod yn dilyn lansiad adroddiad Chwarae Teg 'Lle'r Fenyw', a gynhaliwyd yn gynharach heddiw yn adeilad y Pierhead. Byddwn yn argymhell y dylai Aelodau ddarllen yr adroddiad hwnnw, os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes.

It is appropriate to debate this in the same week that UK-wide GDP figures have been published, and figures on productivity are due to be released tomorrow. Both these sets of figures are highly relevant to today's debate. It is important to Wales as a whole, and to our future as a nation, that everybody who has the ability can fully participate and contribute to their community and to wider society. It is in the interests of the whole of Wales, and for all of our citizens, to be reaching and maximising their full potential. A strong country is the sum of all the contributions of as many of its citizens as is possible.

Mae'n briodol trafod hyn yn yr un wythnos ag y cyhoeddwyd ffigurau CMC y DU gyfan, ac mae'r ffigurau ar gynhyrchiant ar fin cael eu rhyddhau yfory. Mae'r ddwy set hyn o ffigurau yn berthnasol iawn i'r ddatl heddiw. Mae'n bwysig i Gymru yn ei chyfanrwydd, ac i'n dyfodol fel gwlad, y gall pawb sydd â'r gallu gymryd rhan yn llawn a chyfrannu at eu cymuned a'r gymdeithas ehangach. Mae er budd Cymru gyfan, a phob un o'n dinasyddion, bod pawb yn ceisio cyflawni eu llawn botensial. Mae gwlad gref yn gyfuniad o holl gyfraniadau cymaint o'i dinasyddion ag sy'n bosibl.



Plaid Cymru has already warned this week, as we have on many previous occasions, about the impact of underemployment. Underemployment has serious consequences for productivity in the Welsh economy. Many women in Wales are well-qualified and well-trained. However, as we know from other reports, such as the Bevan Foundation's report on women in the recession and the Chwarae Teg report that was launched today, many young women are not able to find full-time employment that matches their skills. Left to the market, young women risk underachieving, and this is especially the case during a recession. We owe it to these young women to support those who are high achievers to be able to apply for and get the jobs for which they have trained. Apart from the wasted potential, we are wasting money on training if we do otherwise.

However, we must also support those who have underachieved in their educational career to date. I am sure that we are all aware of adults who say that they wish that they had worked harder at school. Missing out on pre-16 education should not mean that people then go on to lose out for life. We must expand our young people's horizons and do what we can to support them into careers and trades that they want to go into and which they might actually enjoy. We must also do all we can to encourage girls to look at all jobs, especially in science and engineering, so that they are not put off by stereotypical images. I hope that, whatever their age, young women will take advantage of the new apprenticeships that Plaid Cymru has helped to create throughout Wales.

Despite three decades of equality legislation and assumptions that women's rights were a matter for the 1970s, women are still considered to be the primary carer in the overwhelming majority of households, either for children or for other family members. This expectation, which is not so true of men, even if it is slowly changing, inevitably impacts upon the number of women who are in work or working to their full potential. Unless inequality outside the workplace is recognised, it will be very difficult, if not impossible, to sort out the inequalities that persist inside the workplace.

Some 44% of women work part-time, compared to just 12% of men. The reason is supposedly to allow women the opportunity to juggle caring and household responsibilities with paid employment. In contrast, management roles are usually full-time and, often, the expectation is to work more than full-time hours. This means that large numbers of women are excluded from taking up those opportunities. This is what is largely responsible for the perception of a glass ceiling or the conclusion that women are unable, or refuse, to commit to the organisation for which they work.

Mae Plaid Cymru eisoes wedi rhybuddio yr wythnos hon, fel yr ydym wedi'i wneud ar sawl achlysur o'r blaen, am effaith tangyflogaeth. Mae i dangyflogaeth oblygiadau o ran cynhyrchiant economi Cymru. Mae gan lawer o fenywod yng Nghymru gymwysterau da ac maent wedi'u hyfforddi'n dda. Fodd bynnag, fel y gwyddom o adroddiadau eraill, megis adroddiad Sefydliad Bevan ar fenywod yn ystod y dirwasgiad ac adroddiad Chwarae Teg a lansiwyd heddiw, ni all llawer o fenywod ifanc ddod o hyd i waith amser llawn sy'n cyfateb i'w sgiliau. O'u gadael ar fympwyr farchnad, mae menywod ifanc mewn perygl o dangyflawni, ac mae hyn yn arbennig o wir yn ystod dirwasgiad. Mae dyletswydd arnom i'r menywod ifanc i helpu'r rhai sy'n cyflawni'n uchel i allu gwneud cais am y swyddi y maent wedi'u hyfforddi ar eu cyfer a llwyddo i'w cael. Ar wahân i'r potensial a wastraffwyd, rydym yn gwastraffu arian ar hyfforddiant os ydym yn gwneud fel arall.

Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gefnogi'r rhai sydd wedi tangyflawni yn eu gyrfa addysgol hyd yn hyn. Rwy'n siŵr ein bod i gyd yn ymwybodol o oedolion sy'n dweud eu bod yn edifarhau nad oeddent wedi gweithio'n galetach yn yr ysgol. Ni ddylai colli cyfleoedd yn ystod addysg cyn 16 olygu bod pobl yn mynd yn eu blaen i golli cyfleoedd am weddill eu hoes. Rhaid inni ehangu gorwelion ein pobl ifanc a gwneud yr hyn a allwn i'w helpu i ddechrau gyrfaoedd a dysgu crefftau y maent yn dymuno eu gwneud ac y byddent yn eu mwynhau o bosibl. Rhaid inni hefyd wneud popeth o fewn ein gallu i annog merched i edrych ar yr holl swyddi sydd ar gael, yn enwedig ym maes gwyddoniaeth a pheirianneg, er mwyn sicrhau nad yw delweddau ystrydebol yn dylanwadu arnynt. Gobeithio, beth bynnag fo'u hoed, y bydd menywod ifanc yn manteisio ar y prentisiaethau newydd y mae Plaid Cymru wedi helpu i'w creu ledled Cymru.

Er gwaethaf tri degawd o ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb a rhagdybiaethau bod hawliau menywod yn rhywbeth i'r 1970au, mae menywod yn dal i gael eu hystyried yn brif ofalwr yn y mwyafrif llethol o gartrefi, naill ai ar gyfer plant neu aelodau eraill o'r teulu. Mae'r disgwyliad hwn, nad yw mor wir am ddynion, hyd yn oed os yw'n newid yn araf, yn anochel yn effeithio ar nifer y menywod sydd mewn gwaith neu'n gweithio i'w llawn botensial. Oni chydnybysddir angydraddoldeb tu allan i'r gweithle, bydd yn anodd iawn, os nad yn amhosibl, ddatrys yr angydraddoldebau sy'n parhau yn y gweithle.

Mae tua 44% o fenywod yn gweithio'n rhan amser, o gymharu â 12% o ddynion yn unig. Y rheswm mae'n debyg yw bod hyn yn rhoi cyfle i fenywod gydbwyso cyfrifoldebau gofalu a chartref â gwaith cyflogedig. Ar y llaw arall, fel arfer rolau amser llawn yw swyddi rheoli ac, yn aml, y disgwyliad yw bod yn rhaid gweithio mwy nag oriau amser llawn. Golyga hyn fod niferoedd mawr o fenywod yn cael eu rhwystro rhag manteisio ar y cyfleoedd hynny. Dyna'r hyn sy'n bennaf cyfrifol am y canfyddiad o nenfwd gwydr neu'r casgliad na all menywod ymrwymo i'r sefydliad y maent yn gweithio iddo neu eu bod yn gwrthod gwneud hynny.

Recruitment jargon can often be off-putting. For example, women who care for children or other family members may well assume that a job for someone described as 'ambitious' could possibly exclude them. Of course, we also have to factor in low self-esteem and low confidence among women, which all too often accompany a lack of money and status. Such short-sighted attitudes, which are often culturally embedded and uncritically repeated, risk putting off the talent and expertise that women can bring.

Many companies and the public sector already have good and well-planned schemes to help women with their careers, including good maternity policies, childcare and promotion, but more still needs to be done. There is no doubt that the Government can do more to help with childcare. Where they can, employers should be encouraged and supported to be flexible when it comes to working hours or job sharing. A Plaid Cymru government would work with employers to make it easier for them to achieve this.

One of the findings of the Bevan Foundation report on women in the recession that I referred to earlier was that there was a growth in the number of women setting up their own businesses, which is, of course, very good news. Financial support must be available for women who want to take this route. It is one of the reasons why Plaid Cymru supports a public investment bank for Wales that will assist new business and help to develop new economic opportunities.

We may well have seen substantial improvements in the rights of part-time workers in the past two decades, but if we are serious about improving the Welsh economy, then we must focus in particular on those who are under-employed and, specifically, on the needs of women in part-time, lower-level jobs as well as those in small private-sector firms. Something that we can all do is to challenge the stereotypes around gendered jobs, so that we can all tell our daughters that they can and should aim to be whatever they want to be.

Yn aml, gall jargon recriwtio fod yn rhwystr. Er enghraifft, gall menywod sy'n gofalu am blant neu aelodau eraill o'r teulu gymryd yn ganiataol y gallai swydd i rywun a ddisgrifiwyd fel 'uchelgeisiol' fod yn anaddas o bosibl iddynt. Wrth gwrs, rhaid inni hefyd gynnwys ffactorau megis hunan-barch isel a diffyg hyder ymhlith menywod, sy'n rhy aml yn cyd-fynd â diffyg arian a statws. Mae perygl bod agweddau cibddall o'r fath, sydd yn aml yn cael eu hymgorffori'n ddiwylliannol a'u hailadrodd yn anfeiriadol, yn rhwystro menywod rhag cynnig y dalent a'r arbenigedd sydd ganddynt.

Mae llawer o gwmnïau a'r sector cyhoeddus eisoes wedi rhoi ar waith gynlluniau da i helpu menywod gyda'u gyrfaoedd, gan gynnwys polisiau mamolaeth da, gofal plant a dyrchafu, ond mae angen gwneud mwy o hyd. Nid oes amheuaeth na all y Llywodraeth wneud mwy i helpu gyda gofal plant. Lle y gallant, dylai cyflogwyr gael eu hannog a'u cefnogi i fod yn hyblyg o ran oriau gwaith neu rannu swydd. Byddai llywodraeth Plaid Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr i'w gwneud yn haws iddynt gyflawni hyn.

Un o ganfyddiadau adroddiad Sefydliad Bevan ar fenywod yn ystod y dirwasgiad y cyfeiriais ato yn gynharach oedd bod cynnydd yn nifer y menywod sy'n sefydlu eu busnesau eu hunain, sydd, wrth gwrs, yn newyddion da iawn. Rhaid i gymorth ariannol fod ar gael i fenywod sydd am ddilyn y trywydd hwn. Mae'n un o'r rhesymau pam mae Plaid Cymru yn cefnogi banc buddsoddi cyhoeddus i Gymru a fydd yn helpu busnesau newydd ac yn helpu i ddatblygu cyfleoedd economaidd newydd.

Efallai ein bod wedi gweld gwelliannau sylweddol yn hawliau gweithwyr rhan amser yn y ddau ddegawd diwethaf, ond os ydym o ddifrif ynghylch gwella economi Cymru, yna rhaid inni ganolbwyntio'n benodol ar y rhai sy'n cael eu tangyflogi ac, yn benodol, ar anghenion menywod mewn gwaith rhan amser, swyddi ar lefel is yn ogystal â rhai mewn cwmnïau bach yn y sector preifat. Rhywbeth y gallwn i gyd ei wneud yw herio'r stereoteipiau ynglŷn â swyddi ar sail rhyw, er mwyn inni i gyd ddweud wrth ein merched y gallant ac y dylent anelu at unrhyw yrfa a ddymunant.

17:05

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Dinosaurs may well be extinct and women may well now work in all spheres and in all jobs, but we are far away from achieving gender equality in the workplace. Friends, it is 2013—we can and must do better.

*I have selected the six amendments to the motion, and I call on Mohammad Asghar to move amendments 1, 2, 3, 4 and 5 tabled in the name of William Graham.*

*Gwelliant 1—William Graham*

*Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:*

Efallai fod deinosauriaid wedi darfod o'r tir ac y gall menywod weithio ym mhob maes ac ym mhob math o swydd erbyn hyn, ond rydym yn bell o gyflawni cydraddoldeb rhwng y rhywiâu yn y gweithle. Gyfeillion, y flwyddyn 2013 ydyw—gallwn wneud yn well a rhaid inni wneud yn well.

*Rwyf wedi dethol y chwe gwelliannau i'r cynnig, ac rwy'n galw ar Mohammad Asghar i gynnig gwelliannau 1, 2, 3, 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw William Graham.*

*Amendment 1—William Graham*

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

*Yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth y DU i roi grym i Dribiwnlysoedd Cyflogaeth orfodi archwiliadau cyflog ar gyflogwyr y ceir eu bod wedi gwahaniaethu ar sail rhyw mewn materion tâl cytundebol neu anghytundebol.*

Gwelliant 2—William Graham

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu'r sefyllfa ddiweddaraf am y camau a gymerir ganddi i fynd i'r afael â'r bwlch rhwng y rhywiau ym maes entrepreneuriaeth yng Nghymru.*

Gwelliant 3—William Graham

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

*Yn nodi argymhelliad Adroddiad Davies 'Women on Boards' y dylai Byrddau FTSE 100 anelu at leiafswm o 25% o gynrychiolaeth fenywaidd erbyn 2015 ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymgynghori â busnesau Cymreig i gynyddu nifer y menywod mewn swyddi uwch reoli.*

Gwelliant 4—William Graham

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

*Yn croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU am gynllun newydd ar gyfer gofal plant di-dreth i deuluoedd sy'n gweithio ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i archwilio ffyrdd, yn ogystal â Dechrau'n Deg, i gynorthwyo menywod i fynd yn ôl i'r gwaith ym mhob rhan o Gymru.*

Gwelliant 5—William Graham

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

*Supports the UK Government's plans to give Employment Tribunals power to impose pay audits on employers who are found to have discriminated because of sex in contractual or non-contractual pay matters.*

Amendment 2—William Graham

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

*Calls on the Welsh Government to provide an update on the action it is taking to tackle the entrepreneurial gender gap in Wales.*

Amendment 3—William Graham

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

*Notes the recommendation of the Davies Report 'Women on boards' that FTSE 100 Boards should aim for a minimum of 25% female representation by 2015 and calls on the Welsh Government to consult with Welsh businesses to increase the number of women in senior management positions.*

Amendment 4—William Graham

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

*Welcomes the UK Government's announcement of a new scheme for tax-free childcare for working families and calls on the Welsh Government to investigate ways, in addition to Flying Start, to assist women back to work in all parts of Wales.*

Amendment 5—William Graham

*Insert as new point 1 and renumber accordingly:*

17:05

## **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad Biography](#)

Yn cydnabod polisi Llywodraeth y DU i ddarparu adnoddau ar gyfer 5,000 o fentoriaid busnes gwirfoddol ar gyfer menywod i roi cefnogaeth effeithiol i fenywod sydd eisiau dechrau eu busnesau eu hunain neu dyfu eu busnesau, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r trydydd sector i ddatblygu cynllun o'r fath.

I move amendments 1, 2, 3, 4 and 5 in the name of William Graham.

I thank Plaid Cymru for bringing this important issue before the Chamber. It is true that, while progress has been made towards greater gender equality, many will say that not enough progress has been made. Considerable barriers remain, and it is fair to say that all political parties in Wales wish to challenge and to break down these barriers.

Acknowledges the UK Government's policy of providing resources for 5000 volunteer business mentors for women to give effective support to women who want to start or grow their own business and calls on the Welsh Government to work with the third sector to develop such a scheme.

Cynigiad welliannau 1, 2, 3, 4 a 5 yn enw William Graham.

Diolch i Plaid Cymru am gyflwyno'r mater pwysig hwn gerbron y Siambr. Mae'n wir dweud, er gwaetha'r cynnydd tuag at fwy o gydraddoldeb rhwng y rhywiau, y bydd llawer yn dweud nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud. Erys rhwystrau sylweddol o hyd, ac mae'n deg dweud bod yr holl bleidiau gwleidyddol yng Nghymru yn dymuno herio a dileu'r rhwystrau hyn.

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)

The annual survey of hours and earnings indicates that the gender pay gap has closed very slightly since 2002, and that it is smaller in Wales than in the rest of the United Kingdom. The latest data show that women's average hourly pay was only 80% of men's pay, although the gap is smaller, at 89%, among full-time workers.

Dengys yr arolwg blynyddol o oriau ac enillion fod y bwllch cyflog rhwng y rhywiau wedi cau ryw ychydig ers 2002, a'i fod yn llai yng Nghymru nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae'r data diweddaraf yn dangos mai dim ond 80% o gyflog dynion oedd cyflog fesul awr menywod ar gyfartaledd, ond bod y bwllch yn llai, sef 89%, ymhlith gweithwyr amser llawn.

17:06

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The UK coalition Government is determined to see greater transparency in pay so that the gender pay gap can be overcome. In September 2010, it launched a new voluntary framework for gender pay reporting.

Mae Llywodraeth glymblaid y DU yn benderfynol o weld mwy o dryloywder mewn cyflog fel y gellir cau'r bwllch cyflog rhwng y rhywiau. Ym mis Medi 2010, lansiodd fframwaith gwirfoddol newydd ar gyfer adrodd ar gyflog rhwng y rhywiau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much for taking an intervention. I notice that, in an amendment, you call for

Diolch yn fawr iawn ichi am dderbyn ymyriad. Sylwaf, mewn gwelliant, eich bod yn cefnogi

17:07

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

'UK Government's plans to give Employment Tribunals power to impose pay audits on employers who are found to have discriminated—'

'cynlluniau Llywodraeth y DU i roi grym i Dribwnlysoedd Cyflogaeth orfodi archwiliadau cyflog ar gyflogwyr y ceir eu bod wedi gwahaniaethu ar sail rhyw—'

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:07

**Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Joyce, this is an intervention. I am going to call you to speak later on, as you are on the list. You should be reflecting on what the Member has said, quickly.

Joyce, ymyriad yw hwn. Galwaf arnoch i siarad yn nes ymlaen, gan eich bod ar y rhestr. Dylech fod yn myfyrio ar yr hyn y mae'r Aelod wedi'i ddweud, yn gyflym.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:07

**Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

On that point, will the Conservative Members here—

O ran y pwynt hwnnw, bydd yr Aelodau Ceidwadol yma—

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

17:07

**Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I call on Mohammad Asghar.

Trefn. Galwaf ar Mohammad Asghar.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Deputy Presiding officer. I hope that you will give me extra time for that.

Diolch yn fawr iawn, Ddirprwy Lywydd. Gobeithio y byddwch yn rhoi amser ychwanegol am hynny imi.

The 'Think, Act, Report' framework invites private sector and voluntary sector employers to help tackle the gender pay gap through greater transparency on pay and other issues. No country can afford to ignore half of its human potential, and women have a huge role to play in growing the economy. Wales is no exception. We must break down the barriers preventing women from starting or returning to work. Flexible working is key to combining paid employment with caring for children and other family members. The availability of flexible working has increased significantly in recent years, according to the Bevan Foundation.

Mae'r fframwaith 'Meddwl, Gweithredu, Hysbysu' yn gwahodd y sector preifat a chyflogwyr yn y sector gwirfoddol i helpu i fynd i'r afael â chyflog rhwng y rhywiau drwy fwy o dryloywder o ran cyflog a materion eraill. Ni all unrhyw wlad fforddio anwybyddu hanner ei botensial, ac mae gan fenywod rôl enfawr i'w chwarae i dyfu'r economi. Nid yw Cymru yn eithriad. Rhaid inni ddileu'r rhwystrau sy'n atal menywod rhag dechrau gweithio neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae gweithio hyblyg yn allweddol er mwyn cyfuno gwaith cyflogedig â gofalu am blant ac aelodau eraill o'r teulu. Mae'r cyfle i weithio'n hyblyg wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn ôl Sefydliad Bevan.

The UK Government is working closely with business not only to extend the right to request flexible working to all employees, but also to ensure the minimisation of any administrative costs to business. It has also consulted on shared parental leave, so that parents can best choose how to share their caring responsibilities. I call on the Welsh Government to work with businesses in Wales to see how best to progress this agenda.

Mae Llywodraeth y DU yn gweithio'n agos gyda busnesau nid yn unig i ymestyn yr hawl i ofyn am weithio hyblyg i bob gweithiwr, ond hefyd i sicrhau bod unrhyw gostau gweinyddol i fusnesau yn cael eu lleihau i'r eithaf. Mae hefyd wedi ymgynghori ar absenoldeb rhiant a rennir, fel y gall rhieni ddewis y ffordd orau o rannu eu cyfrifoldebau gofalu. Galwaf ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda busnesau yng Nghymru i benderfynu ar y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r agenda hon.

Childcare remains another barrier that needs to be addressed. Two-thirds of families with children in Wales use some form of childcare. The UK Government has announced a new scheme for tax-free childcare for working families. From 2015, the Government will pay 20% of a working family's childcare bill every year, up to £1,200 per child. For two children, it will be £2,400. I call on the Welsh Government to investigate ways in addition to Flying Start to assist women back to work in all parts of Wales.

*Many women still hold stereotypes about whether some jobs are more suited to men or women. Only 4% of chief executives in Welsh companies are women. In his report, Lord Davies of Abersoch recommended that FTSE 100 boards should aim for a minimum of 25% female representation by 2015 and there has been a positive shift in that direction.*

Erys gofal plant yn rhwystr arall y mae angen rhoi sylw iddo. Mae dwy ran o dair o deuluoedd sydd â phlant yng Nghymru yn defnyddio rhyw fath o ofal plant. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi cynllun newydd ar gyfer gofal plant di-dreth i deuluoedd sy'n gweithio. O 2015, bydd y Llywodraeth yn talu 20% o fil gofal plant teulu sy'n gweithio bob blwyddyn, hyd at £1,200 y plentyn. Ar gyfer dau o blant, bydd £2,400 ar gael. Galwaf ar Lywodraeth Cymru i ymchwilio i ffyrdd, yn ogystal â Dechrau'n Deg, o helpu menywod i ddychwelyd i weithio ym mhob rhan o Gymru.

*Mae llawer o fenywod yn dal i arddel stereoteipiau ynghylch a yw rhai swyddi yn fwy addas i ddynion neu fenywod. Dim ond 4% o brif weithredwyr mewn cwmnïau yng Nghymru sy'n fenywod. Yn ei adroddiad, argymhellodd yr Arglwydd Davies o Abersoch y dylai byrddau can cwmni'r FTSE anelu at o leiaf 25% o gynrychiolaeth gan fenywod erbyn 2015 a bu newid cadarnhaol i'r cyfeiriad hwnnw.*

17:10 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Bethan Jenkins a gododd—

Bethan Jenkins a rose—

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:10 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
Go on; I do not have much time.

Ewch ymlaen; nid oes gennyf lawer o amser.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

17:10 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)  
You are out of time. If you sit down, you finish.

Mae eich amser ar ben. Os ydych yn eistedd i lawr, rydych wedi gorffen.

[Senedd.tv](#)  
[Fideo](#) [Video](#)

*The Welsh Government must consult with Welsh businesses to increase the number of women in senior management positions. Much has been achieved, but much remains to be done. We must continue to act to build a society based on the principles of fairness, accessibility and equality of opportunity.*

Yn fuan ar ôl imi ddod yn Aelod Cynulliad, cyfarfûm ag etholwr a oedd yn gyn-filwr. Roedd ganddo anhwylder straen wedi trawma ac roedd am gael cymorth gyda mater gwaith achos. Buom yn siarad yn faith am ei brofiadau, ei hanes a sut mae anhwylder straen wedi trawma wedi chwalu pob agwedd ar ei fywyd, a chefais fy arswydo. Ers hynny rwyf wedi cael y fraint o gyfarfod â llawer o unigolion eraill a hoffwn rannu rhai o'u profiadau gyda chi heddiw.

Os ydych wir am ddeall sut mae anhwylder straen wedi trawma yn effeithio ar bobl, byddwn yn eich annog i ddod draw i ystafell y cyfryngau ar ôl y ddadl hon, lle y byddaf yn dangos ffilm fer o'r enw 'Abandoned Brothers', a wnaed gan grŵp o gyn-filwyr a oedd am dynnu sylw at eu profiadau eu hunain a siarad yn blwmp ac yn blaen yn gyhoeddus. Roeddent yn ddigon dewr i gyflwyno cynhyrchiad theatr yng nghanolfan gelfyddydau Chapter yng Nghaerdydd ac yn ddigon dewr i'w recordio fel bod pobl ar YouTube neu bobl mewn lleoedd fel hwn yn cael cyfle i ddeall sut maent yn teimlo.

Af yn ôl at graidd y pwnc. Beth yw anhwylder straen wedi trawma? Y diffiniad a roddir ar wefan y GIG yw:

anhwylder gorbryder a achosir gan ddigwyddiadau sy'n peri straen, braw neu ofid.

It is seen in veterans, serving armed forces and emergency services personnel, accident and disaster victims and other individuals who have been witnesses to some form of violence. It can manifest itself fairly quickly but, very often, the onset of symptoms can be delayed by months or even, in some cases, years. Particularly in these delayed cases, the symptoms can be missed and an appropriate diagnosis not made. I am thinking in particular of those individuals who have left the armed forces before a diagnosis of post-traumatic stress disorder is made and who, therefore, do not automatically have access to the same kind of support as those who are still serving at the point in time when they are diagnosed.

No mental illness is easy to live with. I can tell you that from personal experience. However, the symptoms of post-traumatic stress disorder can have a devastating impact not only on the sufferer, but on their families. A sufferer might be irritable or aggressive, or they might feel guilt over a scenario that they survived and someone else did not. They might not be able to sleep, eat or concentrate like they used to be able to. Perhaps the most distressing symptom that has been described to me is that of the flashback. I wish I could describe to you how distressing it for those people to have an image force itself into their minds and not be able to get rid of it, when a smell or the colour of someone's jumper or any number of random associations in the outside world bring you mentally and physically back to the most traumatic moment of your life. The experience is all-encompassing and absolutely overwhelming for those individuals. You see, hear, smell and even taste everything as it was at that moment of danger. You even experience physiological changes such as bursts of adrenalin in response to fear and increased breathing and heart rate. It is as real to you in that moment as it was the first time, and then suddenly you are back in the real world and you realise that you have stopped walking down the street or talking to your colleague and that people are staring at you or, at least, you think that they are, but you are not entirely sure. I cannot begin to imagine how frightening an experience that is for those individuals.

However, it is clear that symptoms such as those will have a huge impact on a person's daily life, their families and relationships, and their ability to work and to enjoy a meaningful life. The personal impact is obvious, but there is a societal cost that is less recognised, and when we think about resources for post-traumatic stress disorder, we have to consider the costs that accumulate to us in other ways when we do not tackle the issues at base point. These include a raised incidence of alcohol and other addictions among veterans and an estimated 3,000 ex-service personnel in prison, according to the latest statistics. With that in mind, it is clear that, in our support services to veterans with post-traumatic stress disorder, it is really important that we look not only at the availability of medical help, but at how we help people to rebuild their lives.

Fe'i gwelir ymhlith cyn-filwyr, aelodau presennol o'r lloedd arfog a phersonél gwasanaethau brys, dioddefwyr damweiniau a thrychinebau ac unigolion eraill sydd wedi bod yn dyst i ryw fath o drais. Gall amlygu ei hun yn eithaf cyflym, ond, yn aml iawn, gall fod oedi am fisoedd neu hyd yn oed, mewn rhai achosion, flynyddoedd, cyn bod y symptomau yn amlygu eu hunain. Yn yr achosion o oedi o'r fath yn enwedig, gall y symptomau gael eu colli ac ni wneir diagnosis priodol. Rwy'n meddwl yn benodol am yr unigolion hynny sydd wedi gadael y lloedd arfog cyn cael diagnosis o anhwylder straen wedi trawma ac nad ydynt, felly, yn cael mynediad yn awtomatig at yr un math o gymorth â'r rhai sy'n dal i fod yn y lloedd arfog pan fyddant yn cael diagnosis.

Nid yw'n hawdd byw gydag unrhyw fath o salwch meddwl. Gallaf ddweud hynny o brofiad personol. Fodd bynnag, gall symptomau anhwylder straen wedi trawma gael effaith andwyol, nid yn unig ar y dioddefwr, ond ar eu teuluoedd. Gallai dioddefwyr fod yn flin neu'n ymosodol, neu efallai eu bod yn teimlo'n euog am senario y maent wedi'i oroesi ac na wnaeth neb arall. Efallai na fyddant yn gallu cysgu, bwyta na chanolbwyntio fel yr oeddent yn arfer ei wneud. Efallai mai'r symptom mwyaf trallodus sydd wedi cael ei ddisgrifio imi yw ôl-fflachiadau. Byddai'n dda gennyf pe gallwn ddisgrifio i chi pa mor drallodus ydyw i'r bobl hynny pan fydd delwedd yn ymdreiddio i'w meddyliau ac ni allant gael gwared ohoni, pan fydd arogl neu liw siwmpwr rhywun neu bob math o gysylltiadau ar hap yn y byd allanol yn mynd â chi yn feddylol ac yn gorfforol yn ôl i'r eiliad mwyaf trawmatig yn eich bywyd. Mae'r profiad yn hollgynhwysol ac yn llethol i'r unigolion hynny. Rydych yn gweld, yn clywed, yn arogl a hyd yn oed yn blasu popeth fel yr oedd yn ystod yr eiliad hwnnw o berygl. Rydych hyd yn oed yn profi newidiadau ffisiolegol fel pyliau o adrenalin mewn ymateb i ofn ac anadlu'n gyflymach a churiad y galon yn cyflymu. Mae mor real i chi yn ystod yr eiliad hwnnw ag y bu y tro cyntaf, ac yna yn sydyn rydych yn ôl yn y byd go iawn a byddwch yn sylweddoli eich bod wedi sefyll yn stond wrth gerdded i lawr y stryd neu wedi tewi wrth siarad â'ch cydweithiwr a bod pobl yn syllu arnoch neu, o leiaf, rydych yn meddwl eu bod yn syllu arnoch, ond nad ydych yn hollol siŵr. Ni allaf ddechrau dychmygu pa mor ddychrynlyd yw'r profiad hwnnw i'r unigolion hynny.

Fodd bynnag, mae'n amlwg y bydd symptomau o'r fath yn cael effaith enfawr ar fywyd bob dydd pobl, eu teuluoedd a'u cydberthnasau, a'u gallu i weithio ac i fwynhau bywyd ystyrlon. Mae'r effaith bersonol yn amlwg, ond mae llai o gydnabyddiaeth o'r gost gymdeithasol, a phan fyddwn yn meddwl am adnoddau ar gyfer anhwylder straen wedi trawma, rhaid inni ystyried y costau sy'n cronni mewn ffyrdd eraill os nad ydym yn mynd i'r afael â'r problemau creiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys mwy o achosion o ddibyniaeth ar alcohol a mathau eraill o ddibyniaeth ymhlith cyn-filwyr, ac amcangyfrifir bod 3,000 o gyn-filwyr yn y carchar, yn ôl yr ystadegau diweddaraf. O ystyried hynny, mae'n amlwg, yn ein gwasanaethau cymorth i gyn-filwyr sydd ag anhwylder straen wedi trawma, ei bod yn bwysig iawn ein bod nid yn unig yn edrych ar y cymorth meddygol sydd ar gael, ond sut rydym yn helpu pobl i ailadeiladu eu bywydau.

In talking to veterans individually and through support groups, it has become apparent that there are some significant issues in the provision of services. I want to raise some of the concerns that have been raised with me with you today. The first is underdiagnosis. There is a wide variance between different North Atlantic Treaty Organization nations involved in the same conflicts in terms of the estimates of the incidence of post-traumatic stress disorder. For some conflicts, the variation is between 20% and 69%—that example relates to the Vietnam conflict. However, there are also issues about the big increases that we have seen in recent years. The number of people seeking help in the UK since 2005 has risen by 72%, which is an extraordinary percentage increase. If the estimates that we are planning our services on are not accurate or are too old and not current, the provision of services may not be able to cope with the actual demand.

That leads to the second problem, which is undercapacity in the system. Several of the veterans whom I have met have told me that they have had only infrequent access to mental health nurses and specialists. According to statistics from the Royal British Legion, the average waiting time in Wales is 119 days between referral and assessment and a further 151 days between assessment and treatment. That is 270 days or nine months from needing help to getting it. That is far too long to leave people in pain. Minister, will you look at the Increasing Access to Psychological Therapies programme that is available to veterans in England? Under that programme, the target is to provide the whole process from referral to treatment in just 28 days. However, veterans in Wales are, on average, waiting four times longer than that.

There is also a real problem with access to help in a sudden crisis or emergency, and one of the characteristics of post-traumatic stress disorder is that it is variable from day to day. It is difficult to predict when someone will be more in need and when they will be less in need. With mental health teams across Wales stretched, their ability to respond quickly to clients suffering from a sudden deterioration in their condition is seriously compromised. Minister, I recognise that Rosemary Kennedy is currently undertaking a review of this area and that that is ongoing. I urge her to look at the issue of capacity in general terms and the availability of emergency care and crisis care, which are crucially important at dangerous points in people's lives.

Wrth siarad â chyn-filwyr yn unigol a thrwy grwpiau cymorth, mae wedi dod yn amlwg bod rhai problemau sylweddol o ran darparu gwasanaethau. Heddiw, hoffwn godi rhai o'r pryderon a godwyd gyda mi. Y broblem gyntaf yw diffyg diagnosis. Mae amrywiad mawr rhwng gwledydd Sefydliad Cytundeb Gogledd yr Iwerydd sy'n cymryd rhan yn yr un gwrthdaro o ran yr amcangyfrifon o nifer yr achosion o anhwylder straen wedi trawma. Mewn rhai achosion, ceir amrywiad o rhwng 20% a 69%—mae'r enghraifft honno yn ymwneud â'r ymladd yn Fietnam. Fodd bynnag, cyfyd problemau hefyd ynghylch y cynnydd mawr yr ydym wedi'i weld yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer y bobl sy'n ceisio cymorth yn y DU ers 2005 wedi codi 72%, sy'n gynnydd canrannol rhyfeddol. Os nad yw'r amcangyfrifon a ddefnyddiwn i gynllunio ein gwasanaethau yn gywir neu eu bod yn rhy hen a heb fod yn gyfredol, efallai na fydd y gwasanaethau a ddarperir yn gallu ymdopi â'r galw gwirioneddol.

Mae hynny'n arwain at yr ail broblem, sef diffyg adnoddau yn y system. Mae sawl un o'r cyn-filwyr yr wyf wedi cwrrd â hwy wedi dweud wrthyf eu mai dim ond yn achlysurol iawn y maent wedi cael cyfle i weld nyrsys ac arbenigwyr iechyd meddwl. Yn ôl ystadegau'r Llenng Brydeinig Frenhinol, ceir amser aros cyfartalog yng Nghymru o 119 diwrnod rhwng atgyfeirio ac asesu achos a 151 diwrnod arall rhwng asesiad a thriniaeth. Mae hynny'n cyfateb i 270 diwrnod neu naw mis o'r adeg y mae angen cymorth a chael y cymorth hwnnw. Mae hynny'n llawer rhy hir i dael pobl mewn poen. Weinidog, a wnewch chi ystyried y rhaglen Cynyddu Mynediad At Therapiau Seicolegol sydd ar gael i gyn-filwyr yn Lloegr? O dan y rhaglen honno, y targed yw cwblhau'r holl broses o atgyfeirio achos i driniaeth mewn dim ond 28 diwrnod. Fodd bynnag, mae cyn-filwyr yng Nghymru, ar gyfartaledd, yn aros bedair gwaith yn hwy na hynny.

Cyfyd problem wirioneddol hefyd o ran cael gafael ar gymorth mewn argyfwng neu achos brys sydyn, ac un o nodweddion anhwylder straen wedi trawma yw ei fod yn amrywio o ddydd i ddydd. Mae'n anodd rhagweld pryd y bydd angen mwy o gymorth ar rywun a phryd y bydd angen llai o gymorth. Gyda thimau iechyd meddwl ledled Cymru o dan bwysau, amherir yn fawr iawn ar eu gallu i ymateb yn gyflym i gleientiaid sy'n dioddef dirywiad sydyn yn eu cyflwr. Weinidog, rwy'n cydnabod bod Rosemary Kennedy yn cynnal adolygiad o'r maes hwn ar hyn o bryd a bod hynny'n mynd rhagddo. Rwy'n ei hannog i edrych ar fater adnoddau yn gyffredinol a'r gofal brys a'r gofal argyfwng sydd ar gael, sy'n hanfodol bwysig ar adegau peryglus ym mywydau pobl.



The third issue I want to raise is the lack of a residential treatment facility in Wales, which means that veterans who need residential care are moved long distances from family and their support networks or, alternatively, are treated in general psychiatric units, which may not be able to provide the specialist care that they need. I recognise that it is a dilemma in that both National Institute for Health and Care Excellence guidelines and most people's preferences would be to deliver care and to receive care in a community setting, which is appropriate for most individuals. However, there will be individuals for whom residential care might be necessary. We must give some thought to providing emergency care and, perhaps, respite care on a residential basis closer to Welsh veterans' homes. Some individuals are taken more than three hours' drive away from their home to the Audley Court centre in Shropshire where they are absolutely isolated. That isolation can only add to the difficulties that they have in reintegrating with their communities when they come home again.

The fourth issue I want to raise is a lack of a specialist support service for families and a lack of that whole-life approach to wellbeing that we sometimes see in other places. Last winter, I had the great pleasure of visiting the Help for Heroes facility near Salisbury to see how it approaches re-enablement for veterans. I was incredibly impressed by the quality of the facilities, and by the focus that it had on rebuilding lives over just rebuilding bodies. There are family workshops, support services, talks about careers, and people talking about dealing with the outside world as it is and as you are. Those kinds of services are not readily available in Wales. The Help for Heroes facility is available to Welsh veterans, but I would urge the Welsh Government to look at ways in which we could adopt that kind of whole-life approach, and perhaps work with charities such as Help for Heroes and others to see whether it is possible to found a residential centre of that nature in Wales.

I recognise that work has been done on the All Wales Veterans Health and Wellbeing Service, but I believe that it needs to be strengthened, which will mean further investment.

I also acknowledge the Royal British Legion's role in lobbying for the increased take-up of community armed forces covenants which, I understand, have now been signed by 14 of our 22 local authorities. That is incredibly welcome, but would it not be wonderful to imagine that all 22 local authorities could have signed by Armed Forces Day in June? These two big national charities—Help for Heroes and the Royal British Legion—have done a huge amount not only on the big campaign work for which we recognise them, but in providing the individual support services for veterans who need them.

Y trydydd mater yr wyf am ei godi yw diffyg cyfleuster trin preswyl yng Nghymru, sy'n golygu bod cyn-filwyr y mae angen gofal preswyl arnynt yn cael eu symud gryn bellter oddi wrth eu teulu a'u rhwydweithiau cymorth neu, fel arall, yn cael eu trin mewn unedau seiciatrig cyffredinol, na allant, o bosibl, ddarparu'r gofal arbenigol sydd ei angen arnynt. Rwy'n cydnabod bod hyn yn achosi penbleth yn yr ystyr mai rhoi a derbyn gofal yn y gymuned, sy'n briodol i'r rhan fwyaf o unigolion, fyddai'n ddewisach gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Iechyd a Gofal a'r rhan fwyaf o bobl. Fodd bynnag, bydd angen i rai unigolion gael gofal preswyl. Rhaid inni roi rhywfaint o ystyriaeth i ddarparu gofal brys ac, efallai, gofal seibiant ar sail breswyl yn nes at gartrefi cyn-filwyr yng Nghymru. Mae rhai unigolion yn cael eu hanfon dros dair awr i ffwrdd o'u cartref i ganolfan Audley Court yn Swydd Amwythig lle maent yn cael eu hynysu'n llwyr. Gall hynny ond ychwanegu at yr anawsterau sydd ganddynt i ddod yn rhan o'u cymunedau unwaith eto pan fyddant yn dod adref.

Y pedwerydd mater yr wyf am ei godi yw'r diffyg gwasanaeth cymorth arbenigol i deuluoedd a diffyg ymagwedd oes gyfan tuag at les a welwn weithiau mewn mannau eraill. Y gaeaf diwethaf, cefais y pleser mawr o ymweld â chyfleuster Help for Heroes ger Caersallog i weld sut mae'n mynd ati i ail-alluogi cyn-filwyr. Roeddwn yn llawn edmygedd o ansawdd y cyfleusterau, a chan y sylw a roddodd ar ailadeiladu bywydau yn hytrach na ailadeiladu cyrff yn unig. Mae gweithdai teuluol, gwasanaethau cymorth, sgysiaau am yrfaeod, a phobl yn siarad am ymdopi â'r byd y tu allan fel y mae ac fel rydych chi. Nid yw gwasanaethau o'r fath ar gael yn rhwydd yng Nghymru. Mae cyfleuster Help for Heroes ar gael i gyn-filwyr o Gymru, ond byddwn yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut y galleu fabwysiadu ymagwedd oes gyfan o'r fath, a gweithio gydag elusennau megis Help for Heroes ac eraill o bosibl i weld a oes modd sefydlu canolfan breswyl o'r fath yng Nghymru.

Rwy'n cydnabod bod gwaith wedi ei wneud ar Wasanaeth Iechyd a Lles Cyn-filwyr Cymru Gyfan, ond credaf fod angen ei gryfhau, a fydd yn golygu buddsoddiad pellach.

Rwyf hefyd yn cydnabod rôl y Lleng Brydeinig Frenhinol yn lobio dros fwy o gyfamodau cymunedol â'r lluoedd arfog sydd, yn ôl a ddeallaf, wedi cael eu llofnodi gan 14 o'n 22 awdurdod lleol erbyn hyn. Mae hynny i'w groesawu'n fawr, ond oni fyddai'n wych dychmygu y gallai pob un o'r 22 awdurdod lleol fod wedi ei lofnodi erbyn Diwrnod y Lluoedd Arfog ym mis Mehefin? Mae'r ddwy elusen genedlaethol fawr hyn—Help for Heroes a'r Lleng Brydeinig Frenhinol—wedi gwneud cryn dipyn, nid yn unig ar y gwaith ymgyrchu mawr y maent yn cael bri am ei wneud, ond o ran darparu gwasanaethau cymorth unigol ar gyfer cyn-filwyr sydd eu hangen.

However, I save my final thoughts for those in our local communities in Wales who have committed themselves to making a difference and have invested their time, effort and love in the services that they provide to veterans in Wales. First, I mention Healing the Wounds, which is a charity based in Porthcawl. I had the great pleasure of visiting the charity recently, along with my colleague Peter Black, to see the services that it provides. It provides an alternative counselling service from its new base on the coast in Porthcawl. It is important to recognise that, when it comes to counselling and mental health provision, it is important not only to have access, but it is also a good idea to have some kind of choice in the kind of services that are offered to people, because the one-size-fits-all approach does not work. From my own experience of two periods of counselling, when I had post-natal depression, I can say that the first was a disaster and the second was brilliant. It is a question of matching people to what is appropriate for them. When you have only one kind of service available, that is not likely to happen.

Fodd bynnag, rwyf am neilltuo fy sylwadau olaf ar gyfer y rhai yn ein cymunedau lleol yng Nghymru sydd wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth ac wedi buddsoddi eu hamser, eu hymdrech a'u cariad yn y gwasanaethau y maent yn eu darparu i gyn-filwyr yng Nghymru. Yn gyntaf, hoffwn sôn am Healing the Wounds, sy'n elusen ym Mhorthcawl. Cefais y pleser mawr o ymweld â'r elusen yn ddiweddar, ynghyd â'm cyd-Aelod Peter Black, i weld y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae'n darparu gwasanaeth cwnsela amgen o'i chanolfan newydd ar yr arfordir ym Mhorthcawl. Mae'n bwysig cydnabod, o ran cwnsela a darpariaeth iechyd meddwl, ei bod yn bwysig nid yn unig i gael mynediad at wasanaeth, ond mae hefyd yn syniad da cael rhyw fath o ddewis o ran y math o wasanaethau a gynigir i bobl, oherwydd nid yw'r un ateb i bawb yn gweithio. O'm profiad fy hun o ddau gyfnod o gwnsela, pan gefais iselder ôl-enedigol, gallaf ddweud bod y cyntaf yn drychinebus a'r ail yn wych. Yr hyn sydd ei angen yw paru pobl â'r hyn sy'n addas ar eu cyfer. Os mai dim ond un math o wasanaeth sydd ar gael, nid yw hynny'n debygol o ddigwydd.

18:13 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Secondly, I wish to mention the veterans' groups, such as Rhondda veterans and PTSD south Wales, who have been supporting each other over a period of years when they felt that support was not available elsewhere. The support that they give one another enables them to re-engage with their communities, develop in confidence and share their stories.

Yn ail, hoffwn sôn am grwpiau cyn-filwyr, megis cyn-filwyr Rhondda a PTSD de Cymru, sydd wedi bod yn cefnogi ei gilydd dros rai blynyddoedd pan oeddent yn teimlo nad oedd cymorth ar gael mewn mannau eraill. Mae'r cymorth y maent yn ei roi i'w gilydd yn eu galluogi i ddod yn rhan o'u cymunedau unwaith eto, magu hyder a rhannu eu straeon.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:14 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, I thank those involved in the 'Abandoned Brothers' project, who had the courage to talk about their own experiences so that others would not have to suffer in the way that they have.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r rhai sy'n ymwneud â'r prosiect 'Abandoned Brothers', a oedd yn ddigon dewr i sôn am eu profiadau eu hunain fel na fyddai'n rhaid i eraill ddiodef yn y ffordd y gwnaethant hwythau.

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

18:14 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you very much for raising this important subject. We must keep banging away until we finally push open that door. As the regimental medical officer of 2 Para in the Falklands said, if conventional mental health services were so comprehensive, there would not be such a high veteran rate of suicide, high prison population and large number of veterans sleeping rough. Although the Welsh Government did announce £0.5 million of funding for an all-Wales veteran mental health service, based on the specialist trauma unit in Cardiff in March 2010, this approach has not been co-ordinated with the voluntary sector and residential provision, leading to a number of veteran suicides. Latest figures show that 158 veterans have been referred to the veterans mental health service in Wales, but only 100 of them were treated over a 12-month period and no figures are available for the number of treatment sessions per veteran. Furthermore, only 24 service-user feedback forms were completed by the 100 veterans seen. How, therefore, can a real view be taken on whether veterans are benefiting, and what happened to the other 58 who did not even receive the treatment after referral?

Diolch yn fawr iawn am godi'r pwnc pwysig hwn. Rhaid inni rygnu ar yr un tant hyd nes ein bod yn agor y drws hwnnw o'r diwedd. Fel y dywedodd swyddog meddygol catrodol 2 Para yn Ynysoedd y Falklands, pe bai gwasanaethau iechyd meddwl confensiynol mor gynhwysfawr, yna ni fyddai cyfradd mor uchel o hunanladdiad ymhlith cyn-filwyr, na nifer fawr yn y carchar na nifer fawr o gyn-filwyr yn cysgu ar y stryd. Er i Lywodraeth Cymru gyhoeddi £0.5 miliwn o gyllid ar gyfer gwasanaeth iechyd meddwl i gyn-filwyr i Gymru gyfan, yn seiliedig ar yr uned drawma arbenigol yng Nghaerdydd ym mis Mawrth 2010, nid yw'r dull gweithredu hwn wedi cael ei gydgyssylltu â'r sector gwirfoddol a darpariaeth breswyl, gan arwain at nifer o achosion o hunanladdiad ymhlith cyn-filwyr. Dengys y ffigurau diweddaraf fod 158 o gyn-filwyr wedi cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth iechyd meddwl ar gyfer cyn-filwyr yng Nghymru, ond dim ond 100 ohonynt a gafodd driniaeth dros gyfnod o 12 mis ac nid oes ffigurau ar gael ynglŷn â nifer y sesiynau o driniaeth fesul cyn-filwr. At hynny, dim ond 24 o ffurflenni adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a gafodd eu cwblhau gan y 100 o gyn-filwyr a welwyd. Sut, felly, y gellir llunio barn gywir ynghylch a yw cyn-filwyr yn cael budd, a beth ddigwyddodd i'r 58 arall nad oeddent hyd yn oed wedi cael y driniaeth ar ôl cael eu hatgyfeirio?

Senedd.tv  
[Fideo](#) [Video](#)

I call on the Minister For Health and Social Services, Mark Drakeford, to reply to the debate.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Yr wyf yn falch o gael y cyfle i gyfrannu at y drafodaeth hon ar anhwylder straen wedi trawma a'i effeithiau ar aelodau'r lluoedd arfog a gweithwyr ein gwasanaethau brys. Gall anhwylder straen wedi trawma godi ei ben fisoedd, fel y dywedodd Eluned Parrott, neu weithiau flynyddoedd ar ôl profiad trawmatig, gan effeithio ar ein gallu i fyw bywyd cynhyrchiol.

Er hynny, rwy'n meddwl ei bod yn bwysig inni sylweddoli nad rhywbeth sydd wedi'i gyfyngu i'r rheini sydd mewn perygl o niwed oherwydd eu galwedigaeth yw anhwylder straen wedi trawma. Mae'r digwyddiadau erchyll diweddar yn ystod marathon Boston ac yn Texas yn enghreifftiau o sefyllfaoedd a all effeithio'n ddifrifol ar y rheini a oedd yno. Nid oes rhaid i ddigwyddiadau fod mor eithafol ychwaith er mwyn creu adwaith. Er enghraifft, gall bod mewn damwain ffordd neu ddioddef trosedd yn eich erbyn greu adwaith. Er hynny, oherwydd natur eu gwaith, mae'n gwbl briodol ein bod yn hoelio ein sylw ar aelodau'r lluoedd arfog a'n gweithwyr brys.

Congratulations to Eluned Parrott on her first short debate. She not only raised a very important topic, but provided a vivid account of some of the key issues that face people in the circumstances that she described. As she recognised in her opening remarks, the impact of PTSD does not simply fall on former or current members of the armed forces; it affects emergency workers across the mainstream NHS. There has been substantial investment over the years in trying to provide an appropriate level of specialist support to meet individuals' needs, as and when required.

The approach is supported by a ring-fenced mental health budget, and by the Assembly's groundbreaking Mental Health (Wales) Measure 2010, which was implemented across Wales last year, together with £5 million of recurrent funding. An important part of the Measure will see primary mental health support services providing mental health services within and alongside GP settings. As well as what the NHS itself provides, there is an important duty on employers to ensure that the physical and emotional safety of their employees is safeguarded, particularly where those roles are more demanding. There are some good examples of this in Wales. For example, the South Wales Fire and Rescue Service and the NHS have formed a partnership around the local NHS traumatic stress services. This enables firefighters, who often witness very distressing things within their daily work, to receive early psychological support. South Wales Police also provides a counselling and trauma service, with specialist support and expertise, which aims to assist in maintaining the emotional wellbeing and resilience of their workforce, and to protect, as far as possible, all personnel from psychological harm.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Mark Drakeford, i ymateb i'r ddadl.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am pleased to have the opportunity to contribute to this debate on post-traumatic stress disorder and its effects on armed and emergency services personnel. As Eluned Parrott said, post-traumatic stress disorder can raise its head months or sometimes years after a traumatic event, affecting our ability to live a productive life.

However, I think that it is important for us to realise that post-traumatic stress disorder is not limited to those who are vulnerable because of their work. The awful events seen recently during the Boston marathon and in Texas are examples of situations that can have a terrible effect on those who were there. Events do not have to be that extreme either in order to have an effect. For example, being in a road traffic accident or being the victim of a crime can have an effect. However, given the nature of their work, is it wholly appropriate that we focus our attention on armed forces and emergency service personnel.

Llongyfarchiadau i Eluned Parrott ar ei dadl fer gyntaf. Mae nid yn unig wedi codi pwnc pwysig iawn, ond wedi rhoi disgrifiad byw o rai o'r problemau allweddol sy'n wynebu pobl sydd yn yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd ganddi. Fel y cydnabu yn ei sylwadau agoriadol, nid yw effaith anhwylder straen wedi trawma yn codi ymhlith cyn-aelodau neu aelodau presennol o'r lluoedd arfog yn unig; mae'n effeithio ar weithwyr brys ym mhrif ffrwd y GIG. Bu buddsoddiad sylweddol dros y blynyddoedd er mwyn ceisio rhoi lefel briodol o gymorth arbenigol i ddiwallu anghenion unigolion, yn ôl yr angen.

Cefnogir y dull gweithredu gan gyllideb iechyd meddwl wedi'i neilltuo, a chan Fesur arloesol y Cynulliad, sef Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, a roddwyd ar waith ledled Cymru y llynedd, ynghyd â £5 miliwn o gyllid cylchol. Bydd rhan bwysig o'r Mesur yn gweld gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl mewn meddygfeydd ac ochr yn ochr â hwy. Yn ogystal â'r hyn y mae'r GIG ei hun yn ei ddarparu, mae dyletswydd bwysig ar gyflogwyr i sicrhau bod diogelwch corfforol ac emosiynol eu gweithwyr yn cael eu diogelu, yn enwedig lle mae'r rolau hynny yn fwy anodd. Ceir rhai enghreifftiau da o hyn yng Nghymru. Er enghraifft, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a'r GIG wedi llunio partneriaeth ar sail y gwasanaethau straen trawmatig GIG lleol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i ddiffoddwyr tân, sydd yn aml yn gweld pethau yn eu gwaith bob dydd sy'n peri cryn ofid, gael cymorth seicolegol cynnar. Mae Heddlu De Cymru hefyd yn darparu gwasanaeth cwnsela a gwasanaeth trawma, gyda chymorth ac arbenigedd, sy'n anelu at helpu i gynnal lles emosiynol a gwynwch eu gweithlu, ac i ddiogelu pob aelod o staff rhag niwed seicolegol hyd y gellir.

It is, however, in relation to the armed forces that we have the only dedicated PTSD service here in Wales. It is part of our commitment to this community. The national health and wellbeing service for veterans is supported by nearly £0.5 million of annual funding. The support that we provide for veterans' mental health services is further enshrined in the Welsh package of support for armed forces communities in Wales. I recognise entirely that there are more things that need to be done and areas where improvement is required. However, it is still the case that, in recent years, we have seen a substantial increase in the support that we provide to veterans, and a new recognition of many of the issues that Eluned Parrott outlined. As part of the All-Wales Veterans Health and Wellbeing Service, there is dedicated support for veterans through veterans' therapists with interest in, or experience of, military health, working in communities across Wales. The service is led by an internationally renowned figure in the field, and it grew, as we heard, out of a successful pilot scheme in south Wales, which has proven its worth and is valued by veterans and the organisations that represent and support them.

It is very good this afternoon to be able to announce that Aneurin Bevan Local Health Board's veterans' service team was recently shortlisted for an award in the Military and Civilian Health Partnership Awards, which will be held here in Cardiff in May. There was considerable competition from across the United Kingdom and from UK military across the world. The LHB team was shortlisted by an independent panel of judges drawn from all parts of the United Kingdom. I am sure that all of us would want to wish it good luck when the winners are announced next month.

Let me make it clear that, although we have some discrete services for veterans, they can only deliver the outcomes that we would like to see from them if they are provided alongside and in partnership with mainstream NHS mental health services. It is very important that the services that we provide, particularly for veterans, are not seen to be outwith mainstream provision. Instead, they need to enhance mainstream provision in a way that is mutually supportive, one of the other, so that they work together to provide continuity of care that meets the individual's needs, as and when required. That approach must also extend to partnerships with third sector bodies, such as the Royal British Legion and Combat Stress.

The veterans' mental health service has a common care pathway that includes the services of third sector bodies and enables cross-referral, ensuring that the most appropriate service is able to provide for the needs of an individual. To support and foster this working, the Welsh Government provides support to the third sector, where it works with veterans, providing funding of £42,000 up to 2015 to Combat Stress, which supports nurse-led community groups, and £166,000, also guaranteed until 2015, to Cruse Bereavement Care, which provides direct support to veterans and their families, and helps to provide that sort of whole-life support that Eluned mentioned in her contribution.

Fodd bynnag, mewn perthynas â'n lluoedd arfog y mae gennym yr unig wasanaeth penodol ar gyfer Anhwylder Straen Wedi Trawma yma yng Nghymru. Mae'n rhan o'n hymrwymiad i'r gymuned hon. Mae'r gwasanaeth iechyd a lles cenedlaethol ar gyfer cyn-filwyr yn cael ei gefnogi gan bron £0.5 miliwn o gyllid y flwyddyn. Mae'r cymorth a roddwn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl cyn-filwyr yn cael ei ymgorffori ymhellach ym mhecyn cymorth Cymru i gymunedau lluoedd arfog yng Nghymru. Cydnabyddaf yn llwyr fod angen gwneud mwy o bethau a bod meysydd lle mae angen gwella. Fodd bynnag, mae'n wir dweud, yn y blynyddoedd diwethaf, ein bod wedi gweld cynnydd sylweddol yn y cymorth a roddwn i gyn-filwyr, a chydabyddiaeth newydd o lawer o'r problemau a amlinellwyd gan Eluned Parrott. Fel rhan o Wasanaeth Iechyd a Lles Cyn-filwyr Cymru Gyfan, rhoddir cymorth penodol i gyn-filwyr drwy therapyddion cyn-filwyr sydd â diddordeb mewn iechyd milwrol neu brofiad ohono, yn gweithio mewn cymunedau ledled Cymru. Arweinir y gwasanaeth gan ffigwr enwog yn rhyngwladol yn y maes, a thyfodd, fel y clywsom, fel rhan o gynllun peilot llwyddiannus yn y de, sydd wedi profi ei werth ac sy'n cael ei werthfawrogi gan gyn-filwyr a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli ac yn eu cefnogi.

Mae'n bleser mawr gennyf y prynhawn yma gyhoeddi bod tîm gwasanaeth cyn-filwyr Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn ddiweddar wedi cyrraedd y rhestr fer am wobwr yn y Gwobrau Partneriaeth Iechyd rhwng y Fyddin a Sifiliaid, a gynhelir yma yng Nghaerdydd ym mis Mai. Roedd cryn gystadleuaeth o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ac o wasanaethau milwrol y DU ar draws y byd. Cafodd Tîm y BILL ei roi ar y rhestr fer gan banel annibynnol o feirniaid o bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Rwy'n siŵr y byddai pob un ohonom am ddymuno pob lwc i'r tîm pan fydd yr enillwyr yn cael eu cyhoeddi y mis nesaf.

Gadewch imi ei gwneud yn glir, er bod gennym rai gwasanaethau ar wahân ar gyfer cyn-filwyr, ni allant ond cyflawni'r canlyniadau yr hoffem eu gweld ganddynt os ydynt yn cael eu darparu ochr yn ochr â gwasanaethau iechyd meddwl prif ffrwd y GIG ac mewn partneriaeth â hwy. Mae'n bwysig iawn nad ystyri'r bod y gwasanaethau ddarparwn, yn enwedig ar gyfer cyn-filwyr, ar wahân i'r ddarpariaeth brif ffrwd. Yn hytrach, mae angen iddynt ychwanegu at ddarpariaeth brif ffrwd mewn ffordd sy'n ategu ei gilydd, fel eu bod yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu parhad gofal sy'n diwallu anghenion yr unigolyn, yn ôl yr angen. Rhaid i'r ymagwedd honno hefyd ymestyn i bartneriaethau gyda chyrff y trydydd sector, megis y Lleng Brydeinig Frenhinol a Combat Stress.

Mae gan wasanaeth iechyd meddwl y cyn-filwyr lwybr gofal cyffredin sy'n cynnwys gwasanaethau cyrff o'r trydydd sector ac yn galluogi croesgyfeirio, gan sicrhau bod y gwasanaeth mwyaf priodol yn gallu diwallu anghenion yr unigolyn. Er mwyn cefnogi a meithrin y gwaith hwn, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cymorth i'r trydydd sector, lle mae'n gweithio gyda chyn-filwyr, gan ddarparu cyllid o £42,000 hyd at 2015 i Combat Stress, sy'n cefnogi grwpiau cymunedol a arweinir gan nyrsys, a £166,000, sydd hefyd wedi'i warantu tan 2015, i Cruse Bereavement Care, sy'n rhoi cymorth uniongyrchol i gyn-filwyr a'u teuluoedd, ac yn helpu i ddarparu'r math o gymorth oes gyfan y cyfeiriodd Eluned ato yn ei chyfraniad.

We also recognise that treating the condition alone is not the answer, because we need to raise awareness among the wider community and among the wider medical community of the needs of this particular group. That is why there is particular learning going on among GPs and other front-line workers, to help them to detect PTSD early on, as you said, and other veterans' health issues at the earliest opportunity. We have dedicated veteran and armed forces champions in each LHB to advocate for this community and to make sure that LHB services are directly held to account by those who are most provided for. We have also asked LHBs to work with local authorities in developing an armed forces forum in each LHB area, to bring together all those with an interest in the needs of the local armed forces community.

Rydym hefyd yn cydnabod nad trin y cyflwr ar ei ben ei hun yw'r ateb, am fod angen inni godi ymwybyddiaeth ymhlith y gymuned ehangach ac ymhlith y gymuned feddygol ehangach o anghenion y grŵp penodol hwn. Dyna pam mae dysgu penodol yn mynd ymlaen ymhlith meddygon teulu a gweithwyr rheng flaen eraill, er mwyn eu helpu i ganfod Anhwyllder Straen Wedi Trawma yn gynnar, fel y dywedaso, a phroblemau iechyd eraill cyn-filwyr ar y cyfle cyntaf posibl. Mae gennym hyrwyddwyr penodol ar gyfer cyn-filwyr a'r lluoedd arfog ym mhob BILL i eiriol dros y gymuned hon a sicrhau bod gwasanaethau BILL yn cael eu dwyn i gyfrif yn uniongyrchol gan y rhai sy'n cael y ddarpariaeth fwyaf. Rydym hefyd wedi gofyn i BILLau weithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fforwm i'r lluoedd arfog ym mhob ardal Bwrdd Iechyd Lleol, er mwyn dod â phawb sydd â diddordeb yn anghenion y gymuned lluoedd arfog leol at ei gilydd.

18:26

## **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Reference has been made already to the work of Professor Rosemary Kennedy, herself a senior figure in the NHS and in the military, to examine the need for a veterans' residential facility and a one-stop-shop service for veterans here in Wales. Rosemary Kennedy does have a more general remit, which encompasses an examination of all the services that a veteran might require. As well as examining the need for a residential facility, there are issues that we have to think about there. As Eluned mentioned, NICE guidelines emphasise the need for services to be provided in the community and close to someone's home, rather than in a residential facility. Professor Kennedy has established a small group and has taken evidence already from Help for Heroes and many other organisations. Her intention is to present her final report in June, at which point the Minister for Local Government and Government Business and I will consider its recommendations.

*In drawing to a close, let me echo something that Eluned Parrott said in opening the debate. The whole of the NHS and, indeed, the whole of our public services are rooted in that sense of a moral contract in terms of what we, collectively and as a community, provide to those who need the help that our public services are able to mobilise. There are some particular obligations to do that in the case of people who suffer from post-traumatic stress disorder when they have experienced the things that lead to their difficulties while carrying out services on behalf of the rest of the community. That case has been made very eloquently and vividly here today. There is more that we can do and I think that this debate will help us to focus on some of the key things that we need to think about as we continue to build on the substantial new investment in this area that has been a characteristic of recent years.*

Cyfeiriwyd eisoes at waith yr Athro Rosemary Kennedy, sydd hefyd yn ffigwr pwysig yn y GIG ac yn y lluoedd arfog, i ystyried yr angen am gyfleuster preswyl i gyn-filwyr a gwasanaeth siop-un-stop ar gyfer cyn-filwyr yma yng Nghymru. Mae gan Rosemary Kennedy gylch gwaith mwy cyffredinol, sy'n cynnwys archwiliad o'r holl wasanaethau a all fod eu hangen ar gyn-filwr. Yn ogystal ag edrych ar yr angen am gyfleuster preswyl, cyfyd materion y mae'n rhaid inni eu hystyried yn hyn o beth. Fel y soniodd Eluned, mae canllawiau NICE yn pwysleisio'r angen i ddarparu gwasanaethau yn y gymuned ac yn agos i gartref rhywun, yn hytrach nag mewn cyfleuster preswyl. Mae'r Athro Kennedy wedi sefydlu grŵp bach ac wedi cymryd tystiolaeth eisoes gan Help for Heroes a llawer o sefydliadau eraill. Ei bwriad yw cyflwyno ei hadroddiad terfynol ym mis Mehefin, pan fydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth a minnau yn ystyried ei argymhellion.

*Wrth gloi, gadewch imi adleisio rhywbeth a ddywedodd Eluned Parrott wrth agor y ddaol. Mae'r GIG cyfan ac, yn wir, ein holl wasanaethau cyhoeddus wedi'u gwreiddio mewn cytundeb maesol o'r fath o ran yr hyn yr ydym ni, ar y cyd ac fel cymuned, yn ei ddarparu i'r rhai sydd angen y cymorth y mae ein gwasanaethau cyhoeddus yn gallu ei gynnig. Mae rhwymedigaethau penodol i wneud hynny yn achos pobl sy'n dioddef o anhwylder straen wedi trawma os gwnaethant brofi'r pethau a arweiniodd at eu hanawsterau wrth ymgymryd â gwasanaeth ar ran gweddill y gymuned. Mae'r ddaol honno wedi cael ei chyflwyno'n huawdl ac yn groyw iawn yma heddiw. Mae rhagor y gallwn ei wneud a chredaf y bydd y ddaol hon yn ein helpu i ganolbwyntio ar rai o'r pethau allweddol i mae angen inni feddwl amdanynt wrth inni barhau i adeiladu ar y buddsoddiad newydd sylweddol yn y maes hwn sydd wedi bod yn nodweddiadol o'r blynyddoedd diwethaf.*

Senedd.tv  
[Fideo Video](#)